Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu Pwyllgor Craffu Cymraeg i Oedolion annibynnol. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn, a'i brif nod yw craffu ar waith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a chynghori ar faterion fel gwerth am arian a sut mae'r Ganolfan yn ymateb i bolisïau'r Llywodraeth.

Yn gywir



Eluned Morgan AC/AM

Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Welsh Language and Lifelong Learning

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 04/2014



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

Adolygiad o'r Cynllun Sabothol Iaith
Gymraeg ar gyfer ymarferwyr
addysgol: profiad cyfranogwyr
2011-2012

Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

Adolygiad o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysgol: profiad cyfranogwyr 2011-2012

Ionawr 2014

Arad

Brett Duggan, Hefin Thomas a Sioned Lewis

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Catrin Redknap

Prif Swyddog Ymchwil (Iaith Gymraeg)

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Llywodraeth Cymru

catrin.redknap@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn. 029 20 825 720

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2014

ISBN 978-1-4734-0792-3

© Hawlfraint y Goron 2014

Cynnwys

1. Crynodeb gweithredol	2
2. Cyflwyniad i'r adolygiad	5
3. Canlyniadau'r arolwg	13
4. Traweffaith.....	20
5. Effeithiolrwydd cyflwyno'r Cynllun	36
6. Casgliadau ac argymhellion	45
Atodiadau	55

1 Crynodeb gweithredol

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r adolygiad o'r Cynllun Sabothol a gynhaliwyd yn ystod hanner cyntaf 2013 gan Arad, ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar fesur traweffaith y Cynllun, ac wedi ei seilio ar farn y cyfranogwyr hynny a fu'n dilyn y cyrsiau yn y cyfnod Ionawr 2011–Rhagfyr 2012. Casglwyd eu barn trwy arolygon a chyfweliadau. Cysylltwyd hefyd â sampl o reolwyr llinell, athrawon bro a darparwyr yr hyfforddiant er mwyn ystyried sylwadau'r cyfranogwyr mewn cyd-destun ehangach.
- 1.2 Mae'r adolygiad hwn yn rhan o raglen ymchwil ehangach i werthuso Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (y Strategaeth) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2010. Bydd y gwerthusiad hwnnw yn asesu cynnydd yn erbyn nodau ac amcanion y Strategaeth ac yn ceisio deall pa mor effeithiol y mae gwahanol elfennau'r Strategaeth yn plethu â'i gilydd. Byddwn yn defnyddio casgliadau'r adolygiad hwn wrth ystyried cyfraniad y Cynllun i nodau ac amcanion y Strategaeth yn ei chyfanrwydd.

Canfyddiadau

- 1.3 Yn gyffredinol roedd gan bawb farn gadarnhaol iawn am ansawdd a natur yr hyfforddiant a gynigir trwy'r Cynllun Sabothol. Awgrymodd y gwaith maes bod cynnwys y cyrsiau ar bob lefel yn addas.
- 1.4 Mae nifer helaeth o'r cyfranogwyr yn adrodd eu bod yn fwy hyderus a brwdfrydig o ganlyniad i'r cwrs, ac mae'r rhan fwyaf hefyd wedi gwerthfawrogi yn fawr y cyfle i ddatblygu eu sgiliau iaith.
- 1.5 Mae'r Cynllun Sabothol wedi cynorthwyo nifer o ysgolion i greu ethos mwy Cymreig ac i gyflwyno mwy o Gymraeg achlysurol.

Mae'r dystiolaeth o draweffaith ar lefel sgiliau'r dysgwyr yn llai amlwg (a thu hwnt i gylch gorchwyl y gwaith hwn). Awgrymodd y cyfweiliadau gyda swyddogion awdurdodau lleol efallai na fyddai'n realistig i'r Cynllun Sabothol (y Cynllun) ar ei ben ei hun ddod â manteision mesuradwy i gyrhaeddiad addysgol y disgyblion a addysgir gan gyfranogwyr y cyrsiau.

- 1.6 Mae'r adolygiad wedi amlygu bod y daith o'r broses recriwtio cychwynnol hyd at y cyfnod ôl-ofalaeth, yn amrywio ar gyfer gwahanol gyfranogwyr. Mae hyn yn dibynnu ar sut maent wedi dod i gysylltiad â'r Cynllun, yn ogystal ag ar eu cymhelliant personol a rhesymau'r ysgol dros gymryd rhan.
- 1.7 Mae'r Cynllun Sabothol wedi cael ei addasu a'i fireinio sawl gwaith dros y blynyddoedd; serch hynny un elfen bwysig wrth geisio parhau i adeiladu ar lwyddiannau'r Cynllun yw'r angen i gryfhau'r ôl-ofalaeth i gyfranogwyr wedi iddynt gwblhau'r cwrs.
- 1.8 Mae'r adolygiad hwn yn cyflwyno argymhellion i gynorthwyo'r Cynllun Sabothol fynd i'r afael â'r heriau hyn yn ystod y cyfnod nesaf. Mae'r argymhellion yn cyfeirio at yr angen i sicrhau bod cydgyllunio effeithiol yn digwydd ar lefelau cenedlaethol, lleol ac o fewn ysgolion a cholegau er mwyn caniatáu recriwtio cyfranogwyr i'r Cynllun mewn ffordd strategol a bwriadus.
- 1.9 Un o'r prif heriau wrth symud ymlaen yw sicrhau bod y Cynllun yn ei gyfanrwydd (yn cynnwys dulliau recriwtio, targedu unigolion ac ysgolion) yn cael ei weithredu yn fwy strategol a phwrpasol. Mae angen sicrhau cyswllt clir rhwng y Cynllun hwn a blaenoriaethau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar draws yr awdurdodau lleol a'r consortia.
- 1.10 Ceir argymhellion, hefyd, sydd yn cyfeirio at yr angen i wella llwybrau ôl-ofalaeth i gyfranogwyr. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ddarparu cefnogaeth addas ac effeithiol i gyfranogwyr.

Diolchiadau

- 1.11 Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r adolygiad hwn o'r Cynllun Sabothol. Diolch yn arbennig i gyfranogwyr y cyrsiau ac i gynrychiolwyr eraill o ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol am yr wybodaeth werthfawr a gyflwynwyd sydd yn sail i'r adroddiad hwn a'i ganfyddiadau.

2 Cyflwyniad i'r adolygiad

2.1 Comisiynwyd Arad i gynnal adolygiad o'r Cynllun Sabothol (y Cynllun), rhaglen sydd yn cynnig hyfforddiant methodoleg ac iaith Gymraeg i ymarferwyr er mwyn eu galluogi i addysgu, darlithio neu hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r dystiolaeth a gasglwyd a chasgliadau'r broses ymchwil. Bwriedir i'r adolygiad arwain at argymhellion ar gyfer gweithredu'r Cynllun yn y dyfodol.

Cyd-destun yr adolygiad o'r Cynllun Sabothol

2.2 Mae'r adolygiad hwn o'r Cynllun Sabothol yn rhan o ymchwil ehangach i werthuso Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (y Strategaeth) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn Ebrill 2010.¹ Comisiynwyd Arad i gwblhau rhaglen o ymchwil a fydd yn ystyried traweffeithiau'r Strategaeth yn ei chyfanrwydd, gan ddefnyddio'r *Fframwaith Gwerthuso Arfaethedig ar gyfer y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* fel sail ar gyfer y rhaglen waith.² Cynigia'r Fframwaith Gwerthuso sylfaen ddefnyddiol ar gyfer mynd i'r afael â'r amcanion a'r cwestiynau ymchwil a nodwyd yn y Fanyleb ar gyfer y rhaglen ymchwil.³ Mae'r amcanion hyn yn cynnwys ystyried cynnydd yn erbyn nodau a thargedau'r Strategaeth, yn ogystal ag ystyried a yw'r nodau a'r targedau yn parhau i fod yn briodol. Bwriedir hefyd i'r gwerthusiad ystyried y ffactorau sydd yn rhwystro neu'n helpu i wireddu gweledigaeth y Strategaeth, gan ymchwilio effeithiolrwydd gwahanol weithgareddau mewn gwahanol ardaloedd a chyd-destunau. Bydd allbynnau'r gwerthusiad yn cynnwys argymhellion i Lywodraeth Cymru a phartneriaid strategol eraill,

¹ Llywodraeth Cymru (2010). *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/welshmededstrat/?lang=cy>

² Llywodraeth Cymru (2011). *Fframwaith Gwerthuso Arfaethedig ar gyfer y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* <http://wales.gov.uk/docs/caecd/research/120330welshededucationcy.pdf>

³ Manyleb ar gyfer rhaglen annibynnol o ymchwil i werthuso'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Hysbysebwyd gan Lywodraeth Cymru trwy wefan sell2wales yng Ngorffennaf 2012.

gan awgrymu ffyrdd o addasu neu wella cynlluniau i gefnogi datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg.

- 2.3 Adolygwyd y Fframwaith Gwerthuso yn gynnar yn 2013 fel rhan o'r rhaglen ymchwil gyfredol; adeiladwyd ar y theori newid yn y ddogfen honno, a datblygwyd model rhesymeg ar gyfer y rhaglen ymchwil. Mae'r cwestiynau sydd wedi'u hadnabod fel rhan o'r broses honno yn caniatáu i ni ystyried arwyddocâd y Cynllun Sabothol yng nghyd-destun y gwerthusiad llawn o'r Strategaeth. Mae'r cwestiynau isod yn dehongli'r cwestiynau yn y Fframwaith Gwerthuso ac yn eu cysylltu yn benodol â'r Cynllun Sabothol. Cyflwynir casgliadau mewn perthynas â'r cwestiynau isod yn adrannau 6.17-6.26.
- i. I ba raddau y mae'r Cynllun Sabothol yn cefnogi nodau, deilliannau ac amcanion y Strategaeth? Yn benodol:
- Ym mha ffordd y mae'r Cynllun wedi gwella/cefnogi'r broses o gynllunio darpariaeth?
 - A yw'r prosiect wedi cyfrannu at y nod o ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg ymysg cyfranogwyr?
- ii. A yw'r Cynllun yn plethu â/ategu rhaglenni eraill sydd yn gysylltiedig â'r Strategaeth?
- iii. A fyddai'r datblygiadau a welwyd mewn ysgolion a cholegau yn sgil y Cynllun Sabothol wedi digwydd beth bynnag?
- 2.4 Gyda hyn mewn golwg, bydd y tîm ymchwil yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd a'r dadansoddiad o'r data trwy ddwy lens: yn gyntaf, bydd y ffocws ar unrhyw 'wersi' ar gyfer gweithredu'r Cynllun yn y dyfodol; ac yn ail, byddwn yn ystyried cyfraniad y Cynllun i nodau ac amcanion y Strategaeth yn fwy eang.

Y Cynllun Sabothol a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

- 2.5 Cyfeiria amcan strategol AS4.3 y Strategaeth at '*ddatblygu isadeiledd cenedlaethol ar gyfer cyflenwi hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus mewn-swydd yn rhanbarthol*

ar gyfer sgiliau cyfrwng Cymraeg / dwyieithog a sgiliau Cymraeg ar gyfer pob sector'. Yr amcan a gyflwynir yn y Strategaeth yw 'gwella sgiliau ieithyddol ymarferwyr ym mhob sector drwy roi cyfleoedd i hyfforddi drwy fodolau gwahanol o'r Cynllun Sabothol o fewn fframwaith cenedlaethol'. Yr her i awdurdodau lleol felly yw '[g]wella sgiliau ieithyddol ymarferwyr drwy adnabod blaenoriaethau ar gyfer hyfforddiant, gan gyfateb â phrosesau cynllunio ar lefel leol a rhanbarthol'.

Y cyd-destun cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg a chefnogi ysgolion

- 2.6 Gwelwyd newidiadau yn ddiweddar i gyd-destun a strwythur gwasanaethau gwella ysgolion sydd yn berthnasol i'r adolygiad hwn. Y pedwar consortiwm rhanbarthol sydd bellach yn gyfrifol am wasanaethau gwella ysgolion.⁴ Mae'r consortia hefyd yn gyfrifol am wneud ceisiadau ar gyfer arian Grant y Gymraeg mewn Addysg er mwyn cefnogi gweithgareddau 'sydd â'r nod o gyflawni'r hyn a nodir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg'.⁵
- 2.7 Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb statudol am lunio, cyflwyno, adolygu a gweithredu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.⁶ Serch hynny mae rôl gan y consortia rhanbarthol i gynorthwyo gweithredu agweddau o'r Cynlluniau Strategol, gan gynnwys yr agweddau hynny sy'n ymwneud â Deilliant 5 y Strategaeth.
- 2.8 Y consortia, hefyd, fydd yn gweithio gyda darparwyr y cyrsiau Sabothol yn y dyfodol i adnabod cyfranogwyr ac i ddarparu ôl-ofalaeth (gweler adran 5.22 ymlaen).

⁴ Mae pedwar consortiwm rhanbarthol ar draws Cymru yn sail ar gyfer cydweithredu ar draws yr awdurdodau ac yn gyfrifol am sicrhau effeithiolrwydd a chodi safonau yn eu hawdurdodau. Lle cyfeirir at gonsortia neu gonsortia rhanbarthol yn yr adroddiad hwn, dylid cymryd hynny i olygu y consortia rhanbarthol yn ogystal â'r awdurdodau lleol sydd yn rhan ohonynt.

⁵ Datganiad gan Lywodraeth Cymru: Grant y Gymraeg mewn Addysg 2013-14 (ar 19 Medi 2012). <http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2012/welshineducationgrant/?lang=cy>

⁶ Cynlluniau yw'r rhain sydd yn amlinellu sut bydd awdurdodau lleol yn cyflawni'r nodau a'r targedau a amlinellir gan Lywodraeth Cymru yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Cyflwynodd awdurdodau lleol eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg cyntaf ym mis Rhagfyr 2011 ar sail anstatudol. Yn dilyn pasio Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion, fis Ionawr 2013, bydd sail statudol i'r Cynlluniau hyn.

Gorolwg o'r Cynllun

- 2.9 Rhaglen hyfforddi ymarferwyr yw'r Cynllun, a ddatblygwyd fel peilot yn 2005 er mwyn cyflawni amcan '*iaith Pawb*'⁷ i gynyddu cyflenwad yr ymarferwyr sy'n gallu addysgu a hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ystod o bynciau cyn- ac ôl-16. Yn dilyn gwerthusiad dechreuol o'r Cynllun yn 2006-07,⁸ cafodd y peilot ei estyn am ddwy flynedd bellach i roi digon o amser i'w effeithiau tymor hwy ddod yn amlycach. Cafodd y Cynllun wedyn ei ymestyn hyd fis Awst 2010 er mwyn adlewyrchu blaenoriaethau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Yn dilyn gwerthusiad o effaith ac effeithiolrwydd y Cynllun yn haf 2010,⁹ sefydlwyd cytundebau newydd ar gyfer darparu cyrsiau yn y cyfnod 2011-2014 yn hwyr yn 2010.
- 2.10 Mae'r Cynllun yn cynnig cyfnodau o astudio dwys, i ffwrdd o'r ystafell ddosbarth, er mwyn datblygu sgiliau iaith Gymraeg a meithrin hyder mewn methodolegau addysgu dwyieithog a chyfrwng Cymraeg. Mae rhaglen o gyrsiau iaith Gymraeg ar lefelau mynediad, sylfaen ac uwch sy'n cael eu darparu gan ddarparwyr ledled Cymru o dan gytundeb gyda Llywodraeth Cymru.
- 2.11 Mae'r Cynllun Sabothol yn ariannu costau athrawon cyflenwi a chostau teithio a chynhaliath cyfranogwyr er mwyn galluogi ysgolion a cholegau i'w rhyddhau i fynychu'r cyrsiau hyfforddiant.
- 2.12 Cynhelir cyrsiau mewn lleoliadau ar draws Cymru. Mae'r tabl isod (Tabl 1) yn crynhoi'r gwahanol gyrsiau (fesul lefel) a ddarparwyd yn ystod y cyfnod Ionawr 2011-Rhagfyr 2012 ynghyd â nifer y cyfranogwyr a ddilynodd y cyrsiau yn y gwahanol leoliadau.

⁷ Llywodraeth Cymru (2003). *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwieithog*

<http://wales.gov.uk/depc/publications/welshlanguage/iaithpawb/iaithpawbe.pdf?lang=en>

⁸ Llywodraeth Cymru (2007). *Evaluation of the National Practitioners' Training Programme and Sabbaticals Scheme*

⁹ Llywodraeth Cymru (2010). *Gwerthusiad o'r Rhaglen Hyfforddi Genedlaethol Estynedig Beilot i Ymarferwyr*

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/100114nptpreportcy.pdf>

2.13 Anelir y cyrsiau **lefel uwch** at y sawl sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl, naill ai fel siaradwyr iaith gyntaf neu ddysgwyr ar lefel uwch, ond nad oes ganddynt yr hyder neu'r derminoleg arbenigol yn y Gymraeg i ddefnyddio'r sgiliau hyn mewn cyd-destun proffesiynol. Mae'r cyrsiau'n cynnig cyfle i ymgeiswyr ddatblygu sgiliau iaith; derbyn hyfforddiant iaith dwys wedi'i gyfuno â hyfforddiant methodolegol mewn addysgu cyfrwng Cymraeg; a chael gwybodaeth am derminoleg arbenigol. Cynigir y cwrs lefel uwch fel:

- cyrsiau bloc llawn-amser 12 wythnos;
- cyrsiau dysgu o bell 12 wythnos gyda thri chyfnod preswyl gorfodol; a
- chysiau byr o 12 diwrnod o weithdai iaith i ddarlithwyr addysg bellach ac athrawon pwnc mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

2.14 Mae Llywodraeth Cymru yn ad-dalu cost 18-60 o ddiwrnodau cyflenwi ar gyfer y cyrsiau hyn, yn dibynnu ar ffurf y cwrs.

2.15 Mae'r cwrs **lefel sylfaen** yn cynnig hyfforddiant iaith Gymraeg i athrawon y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 sy'n gweithio mewn ysgolion cyfrwng Saesneg neu ddwyieithog, ac sy'n dymuno: datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg i lefel sylfaen; cymryd y camau cyntaf ar lwybr cydnabyddedig i ddysgu'r Gymraeg gyda'r nod tymor hir o addysgu Cymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg; a chyfrannu at ddwyieithrwydd yn eu hysgolion a chreu ethos iaith Gymraeg. Anelir y cwrs at y sawl sydd â gwybodaeth sylfaenol o'r Gymraeg ac sydd â'r cymhelliant i ymrwmo i 11 wythnos o hyfforddiant dwys. Mae Llywodraeth Cymru yn ad-dalu cost 55 o ddiwrnodau cyflenwi ar gyfer y cwrs hwn.

2.16 Y cwrs **lefel mynediad** sydd fwyaf newydd, ac mae'n rhedeg mewn lleoliadau ar draws Cymru ers 2011. Mae'r cwrs hwn, sy'n bum wythnos o hyd,¹⁰ ar gyfer cynorthwyywyr dosbarth sy'n

¹⁰ Newidiwyd y cwrs o fod yn gwrs pedair wythnos i gwrs pum wythnos ym Medi 2012 yn dilyn adborth gan gyfranogwyr.

gweithio mewn ysgolion cyfrwng Saesneg neu ddwyieithog. Nod y cwrs yw rhoi'r eirfa a'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol i gynorthwyyr dosbarth allu cefnogi eu cydweithwyr sy'n addysgu. Mae Llywodraeth Cymru yn ad-dalu cost 25 o ddiwrnodau cyflenwi ar gyfer y cwrs hwn.

Tabl 1: Niferoedd ar gyrsiau'r Cynllun Sabothol, Ionawr 2011-Rhagfyr 2012

Cwrs uwch*			
	Bangor	Caerdydd	Caerfyrddin
Ionawr 2011	7 (dysgu o bell)	12 (bloc)	
Ebrill 2011	9 (cwrs byr)	8 (cwrs byr)	12 (bloc)
Medi 2011	4 (bloc)	12 (bloc)	
Ionawr 2012	9 (dysgu o bell)		
Ebrill 2012	6 (cwrs byr)	7 (cwrs byr)	12 (bloc)
Medi 2012	5 (bloc)	12 (bloc)	
Cyfanswm ar y cwrs uwch yn ystod y cyfnod hwn			115

Cwrs sylfaen							
	Caer-fyrddin	Caer-dydd	Aber-tawe	Morg-annwg	Llysfasi	Gwent	Aber-ystwyth
Ionawr 2011	11						
Ebrill 2011							
Medi 2011	12						
Ionawr 2012		12	11	12	7		12
Ebrill 2012						12	
Medi 2012	12						12
Cyfanswm ar y cwrs sylfaen yn ystod y cyfnod hwn						113	

Cwrs mynediad							
	Caer-fyrddin	Caer-dydd	Aber-tawe	Morg-annwg	Llysfasi	Gwent	Aber-ystwyth
Ionawr 2011							
Ebrill 2011							
Medi 2011				10	8		11
Ionawr 2012	12	13					
Ebrill 2012							
Medi 2012			12	12	6	12	
Cyfanswm ar y cwrs mynediad yn ystod y cyfnod hwn						96	

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

* Gweler Tabl 4 (tudalen 21) am fanylion cyfranogwyr y cwrs uwch fesul sector

Amcan y gwerthusiad

2.17 Nododd y fanyleb ar gyfer y rhaglen ymchwil yr angen am werthusiad *'i ystyried traweffaith y Cynllun Sabothol ar allu'r ymarferwyr i addysgu ar ôl iddynt ddychwelyd i'w man gwaith'*.¹¹

¹¹ Manyleb ar gyfer rhaglen annibynnol o ymchwil i werthuso'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, Mehefin 2012.

Cytunwyd y byddai'r gwaith yn canolbwyntio ar gasglu tystiolaeth gan gyfranogwyr a fynychodd gyrsiau yn ystod y cyfnod Ionawr 2011-Rhagfyr 2012. Cytunwyd hefyd y byddai'r ymchwil yn ystyried profiadau cyfranogwyr yng nghyd-destun tystiolaeth bellach gan ddarparwyr y gwahanol gyrsiau hyfforddiant ac ymgynghorwyr addysg mewn awdurdodau lleol. Yn olaf, nodwyd y dylai'r astudiaeth ystyried *'dulliau i fesur traweffaith yn y dyfodol a rôl yr awdurdodau lleol wrth sicrhau bod ymarferwyr yn cael cefnogaeth ar ôl dychwelyd i'w man gwaith'*.¹² Ceir trafodaeth ar y pwyntiau hyn yn Adran 6, *Casgliadau ac argymhellion*.

Trosolwg o'r fethodoleg

2.18 Mae'r adroddiad hwn yn cynnig tystiolaeth i Lywodraeth Cymru (y Cleient) ar draweffaith y Cynllun Sabothol ar allu'r cyfranogwyr i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog. Yn dilyn y canllawiau yn y gwahoddiad i dendro gwreiddiol a thrafodaethau cychwynnol gyda'r Cleient, seiliwyd methodoleg y gwerthusiad ar gyfuniad o ymchwil desg a gwaith maes a oedd yn cynnwys y tasgau canlynol:

Arolwg cyfranogwyr

2.19 Anfonwyd neges e-bost at 268 o'r 324 o gyfranogwyr oedd wedi cwblhau cyrsiau rhwng Ionawr 2011 a Rhagfyr 2012 yn eu gwahodd i gwblhau holiadur ar-lein. Nid oedd manylion cyswllt neu gyfeiriadau e-bost cyfredol ar gael i 56 o gyfranogwyr. Cafwyd 158 o ymatebion (59% o'r rheini a dderbyniodd yr holiadur); ceir ystadegau pellach mewn perthynas â'r holiadur yn Atodiad 1.

¹² Fel uchod.

Cyfweliadau ffôn gyda chyfranogwyr

2.20 Cynhaliwyd cyfweliadau ffôn gyda 21 o gyfranogwyr er mwyn holi barn yn fanylach am eu profiadau. Ceir manylion pellach yn Atodiad 3, sydd yn cyflwyno cyfres o astudiaethau achos yn seiliedig ar y cyfweliadau hyn.

Casglu barn drwy e-bost / ffôn gan reolwyr llinell

2.21 Cysylltwyd â rheolwyr llinell yr 21 cyfranogydd a gafodd eu cyfweid a chafwyd pedwar ymateb yn cynnig sylwadau ar draweffaith y Cynllun o safbwynt yr ysgol. Casglwyd barn 12 o Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn colegau addysg bellach ar y Cynllun a'r ffordd y mae wedi cefnogi eu gwaith hwy mewn colegau.

Cyfweliadau ffôn rhai darparwyr a chonsortia

2.22 Er mwyn gosod sylwadau'r cyfranogwyr mewn cyd-destun ehangach cynhaliwyd cyfweliadau â chynrychiolwyr o chwe chanolfan hyfforddi, a gyda phedwar swyddog addysg o awdurdodau lleol – un o bob consortiwm. Holwyd hwy am gynllunio a recriwtio, ôl-ofalaeth ac am eu hargymhellion am ddyfodol y Cynllun.

Ymchwil desg

2.23 Yn gefn i'r gwaith maes bu ymchwil desg a oedd yn cwmpasu adolygu sampl o ffurflenni cais, ffurflenni adborth ôl-gwrs, adroddiadau cymedrol i'r cyrsiau, Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac adroddiadau gwerthuso blaenorol.

2.24 Mae'r adolygiad hwn yn cyfleu cyfuniad o ddeilliannau meddal a chaled. Mae'r adroddiad hwn yn aml yn disgrifio deilliannau meddal, er enghraifft cynnydd mewn hyder neu welliannau mewn sgiliau sydd wedi'u hunan-adrodd. Cefnogir y rhain gan sylwadau unigolion eraill, yn cynnwys penaethiaid ysgolion ac athrawon bro er mwyn ceisio cyfleu darlun mwy cynhwysfawr o draweffeithiau'r Cynllun.

3 Canlyniadau'r arolwg


3.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno canlyniadau'r arolwg o gyfranogwyr a fynychodd y Cynllun Sabothol rhwng Ionawr 2011 a Rhagfyr 2012. Cafwyd 158 o ymatebion llawn i'r holiadur ar-lein. O'r rhain, roedd 68 wedi mynychu'r cwrs uwch, 64 wedi mynychu'r cwrs sylfaen a 26 wedi mynychu'r cwrs mynediad (gweler Atodiad 1). Lle bo'n briodol rhennir y canlyniadau fesul lefel y cwrs.

Cymhelliant i gymryd rhan yn y Cynllun

3.2 Gofynnwyd i gyfranogwyr nodi'r hyn a oedd wedi eu cymell i gymryd rhan yn y Cynllun Sabothol. Wrth ymateb, roedd cyfranogwyr yn medru dewis mwy nag un opsiwn a gyflwynwyd iddynt (gweler geiriad y cwestiwn hwn yn Atodiad 2, cwestiwn 5).

3.3 Ymysg y cyfranogwyr a fu ar y cwrs uwch, nododd 50 allan o'r 67 a atebodd y cwestiwn eu bod wedi cymryd penderfyniad personol i fynychu'r cwrs. Atebodd 29 trwy nodi eu bod wedi cael anogaeth gan reolwr llinell. Dim ond un o'r cyfranogwyr a gwblhaodd yr arolwg oedd wedi derbyn anogaeth gan ymgynghorydd addysg neu athro bro.

Ffigur 1: Atebion gan gyfranogwyr y cwrs uwch i'r cwestiwn 'Beth wnaeth eich cymell i gymryd rhan yn y Cynllun Sabothol?'




n=67, cyfranogwyr y cwrs uwch

3.4 Ymysg y cyfranogwyr ar y cwrs sylfaen, atebodd 41 allan o'r 63

cyfranogydd y cwestiwn trwy ddweud mai dewis personol oedd mynychu'r cwrs. Yn wahanol i'r hyn a adroddwyd yn achos y cwrs uwch, ymddengys bod anogaeth gan swyddogion yr awdurdod lleol neu gan athrawon bro wedi bod yn ffactor pwysig i tua hanner (31 allan o 63) y rheini a atebodd yr arolwg, fel y gwelir yn Ffigur 2.

Ffigur 2: Atebion gan gyfranogwyr ar y cwrs sylfaen i'r cwestiwn 'Beth wnaeth eich cymell i gymryd rhan yn y Cynllun Sabothol?'




Ffynhonnell: arolwg cyfranogwyr

n=63, cyfranogwyr y cwrs sylfaen

3.5 Cafwyd llai o atebion gan gyfranogwyr a oedd wedi mynychu'r cwrs mynediad (25 o ymatebion). Unwaith eto, roedd mwyafrif (19 o'r 25) wedi nodi 'penderfyniad personol' fel rheswm, gyda 10 o gyfranogwyr yn cofnodi eu bod wedi derbyn anogaeth gan reolwr llinell yn eu sefydliad.

Ffigur 3: Atebion gan gyfranogwyr y cwrs mynediad i'r cwestiwn 'Beth wnaeth eich cymell i gymryd rhan yn y Cynllun Sabothol?'



Ffynhonnell: arolwg cyfranogwyr

n=25, cyfranogwyr y cwrs mynediad

3.6 Dengys y data, felly, bod yna ymrwymiad personol gan gyfranogwyr wrth gymryd rhan yn y cwrs. Serch hynny, fe welir amrywiaethau (ar draws y gwahanol gyrsiau) o safbwynt dylanwad ac anogaeth rheolwr llinell ac athrawon bro. Mae'n debygol bod yr amrywiaethau hyn yn gysylltiedig â'r broses o recriwtio ar gyfer y gwahanol gyrsiau, e.e. gan fod athrawon bro yn tueddu i weithio mwy gydag athrawon byddai llai o adnabyddiaeth a chyswllt ganddynt gyda chynorthwywyr dosbarth sydd yn mynychu'r cwrs mynediad.

3.7 Roedd anogaeth gan reolwr llinell yn fwy amlwg ymysg cyfranogwyr ar y cwrs uwch. Mae'n glir o'r sylwadau ysgrifenedig bod derbyn argymhelliad gan rywun oedd wedi bod ar y cwrs o'r blaen hefyd yn ffactor pwysig i'r grŵp hwn, boed trwy siarad gyda chydweithwyr oedd wedi bod ar y cwrs neu trwy ddarllen erthygl yn y papur lleol am rywun a oedd wedi mynychu un o'r cyrsiau Sabothol. Mae hyn i'w ddisgwyl gan fod cyrsiau uwch wedi bodoli ers llawer hwy na'r cyrsiau ar lefelau eraill. Eglurodd un:

'Initially I had seen the course advertised in my local paper – a teacher had successfully completed and enjoyed the course. I was then encouraged by my deputy head and a colleague from a neighbouring school who had both recently attended the course.'

- 3.8 Yn ôl y disgwyl, cyfuniad o ffactorau oedd yn gyfrifol mewn sawl achos, gydag ymatebwyr yn aml yn ticio mwy nag un dewis posibl:

'We were told of this by our Welsh advisory teacher. My headteacher encouraged me to apply when he received an email about the course.' (Athrawes gynradd lefel sylfaen)

'My head teacher mentioned the course and when I looked into it I was excited at the possibilities and the professional development opportunities. I was given support and encouragement from the head and the athrawon bro team.' (Athrawes gynradd lefel sylfaen)

- 3.9 Roedd y nod o wella sgiliau yn y Gymraeg yn sail i benderfyniadau personol i fynychu'r cwrs i nifer o gyfranogwyr ar draws y gwahanol lefelau:

'I enjoyed supporting delivery of Welsh in class and wanted to improve my own knowledge of the language so I could be more helpful in this area.' (Cynorthwydd dosbarth, lefel mynediad)

- 3.10 Nododd cyfranogwyr (yn eu hymatebion i'r arolwg ac ar lafar yn ystod cyfweiliadau) nifer o faterion eraill a oedd wedi eu sbarduno i gymryd rhan yn y cynllun hyfforddiant. Pedwar o'r cyfranogwyr a gyfeiriodd at y cysylltiad rhwng y Cynllun Sabothol a chynlluniau datblygu eu hysgolion. Mewn rhai enghreifftiau ynysig, gwelwyd bod ysgolion yn ystyried y Cynllun fel ffordd o fynd i'r afael â blaenoriaethau strategol (*'we were targeting the development of Welsh across the school as part of our Estyn Action Plan'*, nododd un ymatebydd).


- 3.11 Awgrymodd rhai athrawon eraill bod gostyngiad yn lefel y gefnogaeth gan athrawon bro mewn rhai siroedd yn golygu bod athrawon ac uwch reolwyr yn fwy awyddus i fanteisio ar hyfforddiant i wella sgiliau Cymraeg.

Barn ar wahanol elfennau'r cwrs

3.12 Ymateb cadarnhaol iawn oedd i'r cyrsiau a'u cynnwys, a hynny gan gyfranogwyr cyrsiau ar bob lefel. Mae data'r arolwg yn adlewyrchu'r ymatebion cadarnhaol a welwyd yn y sampl o ffurflenni adborth ôl-gwrs a adolygwyd.

3.13 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr raddio gwahanol agweddau o'r Cynllun. Fel y gwelir o'r data isod, teimlodd mwyafrif clir y cyfranogwyr a gwblhaodd holiadur bod y Cynllun yn cynnig cyfleoedd 'gwyd' i ddatblygu sgiliau iaith.

Ffigur 4: Atebion gan gyfranogwyr i'r cwestiwn: 'Sut byddech yn graddio'r cyfle i ddatblygu sgiliau iaith ar y Cynllun?'



Ffynhonnell: arolwg cyfranogwyr

n=153, cyfranogwyr cyrsiau, pob lefel

3.14 Gan ddilyn patrwm tebyg i'r uchod, roedd mwyafrif y cyfranogwyr (92 allan o 152) hefyd o'r farn bod y cwrs wedi cynnig cyfle 'gwyd' i ddysgu terminoleg arbenigol ac i gyflwyno sesiynau Cymraeg o flaen grŵp.

3.15 Roedd y farn ar yr hyfforddiant ar fethodolegau addysgu, er yn gadarnhaol, yn fwy cymysg. Er i hanner ei raddio fel 'gwyd', roedd 24 allan o 150 o'r farn fod yr hyfforddiant yn 'weddol' yn unig, gyda thri o gyfranogwyr yn teimlo fod yr elfen hon o'r cwrs yn 'wael'. Nid oedd amrywiaethau sylweddol yn ôl lleoliad y cwrs,

ond roedd tueddiad i ymatebwyr lefel uwch raddio'r elfen hon yn fwy cadarnhaol na chyfranogwyr lefel sylfaen a lefel mynediad.

Tabl 2: Barn cyfranogwyr ar yr hyfforddiant ar fethodolegau addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, fesul lefel y cwrs

	Uwch	Sylfaen	Mynediad	Cyfanswm
Gwych	44	20	10	74
Da	9	27	13	49
Gweddol	10	12	2	24
Gwael	1	2	0	3
Cyfanswm	64	61	25	150

Ffynhonnell: arolwg cyfranogwyr

n=150, cyfranogwyr cyrsiau, pob lefel

3.16 Patrwm digon tebyg a welir yn yr ymatebion i gwestiwn ar gyfleoedd i baratoi adnoddau, elfen ganolog arall o'r cwrs ar bob lefel. Roedd yr ymatebwyr a oedd wedi mynychu'r cwrs lefel uwch yn fodlon iawn gyda'r cyfleoedd a gawsant i greu adnoddau, gyda chanran uchel iawn yn graddio'r elfen yma o'r cwrs yn 'wych' neu'n 'dda'. Roedd barn y garfan a oedd wedi mynychu'r cwrs lefel sylfaen yn llai cadarnhaol, o'i gymharu, gyda nifer yn disgrifio'r cyfle i baratoi adnoddau yn 'weddol' neu'n 'wael' (er bod y mwyafrif wedi nodi eu bod wedi gwneud defnydd o'r adnoddau a gynhyrchwyd ganddynt ar y cwrs – gweler Adran 4.18).

3.17 Cŵyn a fynegwyd gan gyfranogwyr oedd bod yr adnoddau a grëwyd yn anaddas i'w dosbarthiadau, ac yn debygol o fod yn rhy anodd.

'Very few resources would be suitable for use in my school unfortunately; they would be very useful for a Welsh-medium primary school though.' (Cyfranogydd, lefel sylfaen)

'I do know, though, that they are not appropriate for use in the classroom. The assessments during the course were not a true reflection of the needs of a class of 30 mixed-ability children.' (Cyfranogydd, lefel sylfaen)

Tabl 3: Barn cyfranogwyr ar y cyfle i baratoi adnoddau, fesul lefel y cwrs

	Uwch	Sylfaen	Mynediad	Cyfanswm
Gwych	44	14	8	66
Da	16	25	9	50
Gweddol	5	16	4	25
Gwael	0	5	5	10
Cyfanswm	65	60	26	151

Ffynhonnell: arolwg cyfranogwyr

n=150, cyfranogwyr cyrsiau, pob lefel

4 Traweffaith

4.1 Cyfeirir at y Cynllun Sabothol ar wefan Llywodraeth Cymru fel rhaglen sydd *‘yn cynnig hyfforddiant methodoleg ac iaith Gymraeg i gyfranogwyr sydd angen hyder a therminoleg arbenigol i addysgu, darlithio neu hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg neu’n ddwyieithog, neu y mae gofyn iddynt addysgu’r Gymraeg fel ail iaith fel rhan o’r cwricwlwm cenedlaethol’*. Y mae’n gynllun, felly, gyda’r potensial i wneud cyfraniad pwysig i nifer o flaenoriaethau a nodau strategol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, yn cynnwys:

- Sicrhau gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg gyda nifer ddigonol o ymarferwyr ac sy’n meddu ar sgiliau iaith uchel yn y Gymraeg (Nod Strategol 4);
- Gwella cynllunio darpariaeth (Nodau Strategol 1 a 2); a
- Sicrhau bod dysgwyr yn datblygu eu sgiliau iaith yn y Gymraeg i’w botensial llawn (nod strategol 3) (er nad yw’r adolygiad hwn yn mynd i’r afael â’r elfen hon).

4.2 Mae’r adran hon o’r adroddiad yn crynhoi’r dystiolaeth a gasglwyd gan gyfranogwyr ynglŷn â deilliannau a thraweffeithiau y Cynllun Sabothol fesul lefel, ac yn canolbwyntio ar:

- Hyder cyfranogwyr wrth ddefnyddio’r Gymraeg;
- Oriau ychwanegol o ddarpariaeth (gan gyfranogwyr y cwrs lefel uwch sydd yn addysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog);
- Defnydd o’r Gymraeg yn achlysurol.

4.3 Mae’r dadansoddiad isod yn ystyried y data a gasglwyd gan gyfranogwyr fesul cwrs. Mae’n seiliedig ar y data a gasglwyd trwy’r arolwg ac yn ystod cyfweiliadau gyda chyfranogwyr a rheolwyr llinell.

Traweffeithiau fesul lefel cwrs

Cyrsiau lefel uwch

Canfyddiadau

4.4 Cafwyd ymatebion gan gyfranogwyr a oedd wedi mynychu'r cwrs lefel uwch o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg, ysgolion uwchradd dwyieithog, colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn seiliedig ar waith. Mae Tabl 4 isod yn dangos y cyfraddau ymateb fesul sector ar gyfer cyfranogwyr y cwrs lefel uwch. Cwblhawyd yr holiadur gan ddau draean o'r cyfranogwyr a oedd wedi derbyn yr holiadur. Gwelir o'r tabl bod nifer yr ymatebion yn amrywio yn sylweddol gyda 32 o gyfranogwyr o'r sector cynradd o'i gymharu â thri o ymatebion gan gyfranogwyr o'r sector dysgu seiliedig ar waith.

Tabl 4 Cyfranogwyr y cwrs uwch ac ymatebwyr i'r holiadur fesul sector

Sector	Nifer y cyfranogwyr ar y cwrs uwch	% y cyfranogwyr	Nifer yr ymatebwyr cwrs uwch	Ymatebwyr fel % o'r holl gyfranogwyr cwrs uwch (fesul sector)
Cynradd	51	50%	32	62.7%
Uwchradd	20	19.6%	11	55%
Addysg bellach	25	27.4%	22	78.6%
Addysg uwch	3	2.9%	0	0%
Dysgu seiliedig ar waith	3	2.9%	3	100%
Cyfanswm cwrs uwch	102	100%*	68	66.7%

Ffynhonnell: arolwg cyfranogwyr

n=102, sef nifer y cyfranogwyr cyrsiau lefel uwch yr oedd manylion cyswllt e-bost ar eu cyfer.

*Nid yw'r canrannau'n dod i gyfanswm o 100 y cant oherwydd talgrynnu

4.5 Roedd yr ymateb i'r cwrs lefel uwch yn gadarnhaol iawn, gyda chyfranogwyr yn nodi bod cynnydd a newidiadau wedi'u gweld mewn sawl ffordd ers cwblhau'r cwrs. Wrth ddadansoddi'r sylwadau a gyflwynwyd yn yr arolwg, gellir eu grwpio i sawl

categori:

- Hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar;
- Hyder wrth addysgu yn y Gymraeg;
- Cryfhau / codi proffil y Gymraeg yn yr ysgol / coleg;
- Defnydd o Gymraeg achlysurol;
- Defnydd o'r Gymraeg gyda chydweithwyr;
- Y gallu i greu adnoddau Cymraeg / dwyieithog.

Traweffaith ar ddarpariaeth

4.6 Gofynnwyd i gyfranogwyr nodi nifer yr oriau o addysgu cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yr oeddent yn eu darparu cyn ac ar ôl mynychu'r cwrs lefel uwch. Cynigia'r data yma un mesur o draweffaith y Cynllun mewn rhai cyd-destunau. Serch hynny, mae'n bwysig nodi bod cyfrwng a chyd-destun sefydliadau yn penderfynu i raddau helaeth a oes yna gyfleoedd i gynyddu oriau o ddarpariaeth yn y Gymraeg. Mae'r syniad o 'oriau' o ddarpariaeth yn wahanol yn y sector uwchradd o'i gymharu â'r cynradd, lle yn aml nid oes blociau penodol o ddarpariaeth. Mae meintioli'r union oriau o ddarpariaeth yn y sector cynradd, felly, yn medru bod yn fwy heriol. Gyda hynny mewn golwg, ceir isod amlinelliad o'r data fesul sector a chyfrwng yr ysgol.

- I'r athrawon hynny sydd wedi mynychu'r cwrs lefel uwch ac sydd yn addysgu mewn **ysgolion cyfrwng Cymraeg (cynradd neu uwchradd)** nid oes disgwyl i'r Cynllun Sabothol arwain at gynydd yn nifer yr oriau o ddarpariaeth: maent eisoes yn darparu trwy gyfrwng y Gymraeg. Serch hynny, mae'r ymateb i'r holiadur yn cadarnhau bod y Cynllun wedi gloywi sgiliau iaith a chryfhau dulliau addysgu.

'Mae gen i'r hyder i ysgrifennu adroddiadau a pharatoi cyflwyniadau heb deimlo bod rhaid i rywun arall wirio fy ngwaith.' (Athro, ysgol uwchradd, cwrs uwch)

'Ers gorffen y cwrs, rwyf yn llawer mwy hyderus wrth ysgrifennu yn Gymraeg. Rwyf yn creu llawer mwy o

adnoddau erbyn hyn i gefnogi'r addysgu - i mi yn bersonol ac ar gyfer pobl eraill yn yr adran' (Athro, ysgol uwchradd, cwrs uwch)

- Adroddodd 18 allan o 30 o athrawon a fu ar y cwrs lefel uwch ac sydd yn addysgu mewn **ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg** bod yna gynnydd wedi bod yn yr oriau o ddarpariaeth Cymraeg yn eu hysgolion ers iddynt gwblhau'r cwrs. Yn ogystal â chynyddu darpariaeth Cymraeg ail iaith, awgryma'r dystiolaeth bod mynychu'r cwrs wedi arwain at ddefnydd ehangach o'r Gymraeg ar draws ystod o bynciau mewn nifer o ysgolion, yn amrywio o wersi gwyddoniaeth i addysg gorfforol.
- Adroddodd pob un o'r pedwar athro sydd yn addysgu mewn **ysgolion dwyieithog** a fu ar y cwrs uwch bod yna gynnydd wedi bod yn nifer yr oriau o ddarpariaeth Cymraeg. Nododd un athro bod ei oriau o ddarpariaeth yn y Gymraeg wedi cynyddu o ddwy awr bob wythnos i bedair, gan egluro:

'Rwyf yn awr yn addysgu un prynhawn bob wythnos yn y ffrwd Gymraeg, yn arwain gwersi addysg gorfforol a thechnoleg gwybodaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.' (Athro, ysgol uwchradd, cwrs uwch).
- Cafwyd ymatebion i'r holiadur gan 22 o gyfranogwyr o'r sector addysg bellach a oedd wedi mynychu'r cwrs lefel uwch. O'r rhain, nododd chwech nad oedd yna gynnydd wedi bod yn nifer yr oriau o addysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog y maent yn eu darparu. Adroddodd 14 o gyfranogwyr bod nifer yr oriau a ddarperir ganddynt yn Gymraeg neu yn ddwyieithog wedi codi, a hynny yn sylweddol mewn rhai achosion. Unwaith eto, rhaid pwysleisio'r ffaith bod amrywiaeth o ffactorau yn dylanwadu ar y cyfleoedd sydd ar gael i gyfranogwyr i gyflwyno modiwlau neu unedau newydd yn y Gymraeg. Serch hynny, mae'r tabl isod sydd yn crynhoi'r data a gyflwynwyd gan gyfranogwyr addysg bellach yn awgrymu bod y Cynllun Sabothol yn medru cael effaith glir ar ddefnydd o'r Gymraeg mewn colegau.

Tabl 5: Crynodeb o'r data gan ymatebwyr i'r holiadur o'r sector addysg bellach a nododd gynnydd yn yr oriau o ddarpariaeth Cymraeg / dwyieithog

Cyfranogydd	Oriau o ddarpariaeth Cymraeg / dwyieithog	
	Cyn mynychu'r cwrs	Ar ôl mynychu'r cwrs
1	2	8
2	1	2
3	0	1
4	3	6
5	10	14
6	0	1
7	0	1
8	16	21
9	5	8
10	0	6
11	2	8
12	0	7
13	6	10
14	4	7
Cyfanswm	49	100

Ffynhonnell: arolwg cyfranogwyr

4.7 Wrth gwrs, mae yna storïau a sefyllfaoedd penodol y tu ôl i bob un o'r ffigurau uchod. Nid yw'r data a gasglwyd trwy'r arolwg yn ein galluogi i ddeall y cyd-destun yn llawn ymhob achos, er bod yr astudiaethau achos yn Atodiad 3 yn cyflwyno profiadau rhai cyfranogwyr yn y sector addysg bellach. Mae rhai o'r ymatebwyr yn egluro:

'Dw'i wedi dechrau dysgu dosbarthiadau "Iaith ar Waith" yn y Coleg.' (Cyfranogydd, addysg bellach, cwrs uwch)

'Mae unedau newydd wedi cael eu cyflwyno. Rwyf hefyd yn ceisio cynnwys ychydig o Gymraeg ym mhob gwrs.' (Cyfranogydd, addysg bellach, cwrs uwch)

4.8 Un sylw i ddod allan o'r dadansoddiad yw bod yn rhaid ymdrin â'r data yma ar oriau o ddarpariaeth yn ofalus. Ni allwn fod yn sicr sut y mae cyfranogwyr wedi dehongli 'oriau o ddarpariaeth'. Mae'r data a gyflwynwyd gan gyfranogwyr yn sicr yn arwydd serch hynny bod y Cynllun Sabothol yn dylanwadu ar ddefnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau a sectorau.

4.9 Mae'n arwyddocaol hefyd bod y cyfranogwyr hynny sydd wedi nodi nad oes cynnydd wedi bod yn yr oriau o ddarpariaeth wedi pwysleisio ystod eang o ddeilliannau positif, fel y nodwyd yn

Adran 4.5.

Datblygu adnoddau

- 4.10 Nododd 44 allan o'r 65 o gyfranogwyr y cwrs uwch eu bod yn ystyried y cyfle i baratoi adnoddau fel agwedd 'wych' o'r Cynllun. Roedd yn agwedd 'dda' ym marn 16 ac yn 'weddol' yn ôl pump ohonynt.

'Roedd digon o amser i baratoi adnoddau i helpu nôl yn y dosbarth. Rydw i wedi datblygu casgliad defnyddiol o adnoddau yn sgil y cwrs.' (Athrawes, ysgol uwchradd, cwrs uwch)

- 4.11 Adroddodd cyfranogwyr eu bod wedi creu ystod eang iawn o adnoddau ar draws amrediad o bynciau a chyfnodau allweddol yn ystod neu yn dilyn y cwrs.

'Roeddwn yn paratoi adnoddau dysgu yn gyson wrth wneud y cwrs ac yr oedd y tiwtor yn gwirio'r iaith yn ogystal. Roedd hefyd cyfle i ni fel athrawon rhannu syniadau ac adnoddau tra yn y Brifysgol ar y cwrs.' (Athrawes, ysgol uwchradd, cwrs uwch)

'I was responsible for piloting an NVQ Welsh second language course and there were no resources previously. During the course I was able to develop a variety of resources e.g. reading exercises, writing frames, vocabulary booklets which helped support me in the delivery of the pilot course.' (Athrawes, ysgol uwchradd, cwrs uwch)

- 4.12 Mae'r sylwadau yn awgrymu bod cyfranogwyr yn teimlo bod digon o amser wedi'i neilltuo i ddatblygu adnoddau ar y cwrs uwch. Ni chafwyd tystiolaeth ymysg cyfranogwyr (a fu ar y cwrs bloc, byr na dysgu o bell) bod yna brinder amser wedi bod i ddatblygu adnoddau, rhywbeth a godwyd gan leiafrif o gyfranogwyr a fu ar y cwrs sylfaen (gweler 4.20 isod).

Cyrsiau lefel sylfaen

Canfyddiadau

- 4.13 Cafwyd ymatebion i'r holiadur gan 64 o ymarferwyr o'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 a oedd wedi mynychu cyrsiau lefel sylfaen. Mae'r cyfranogwyr hyn yn addysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mewn ysgolion lle mae'r Saesneg yn brif gyfrwng cyfathrebu, datblygir sgiliau Cymraeg plant yn y Cyfnod

Sylfaen drwy weithredu'r Maes Dysgu Datblygu'r Gymraeg.¹³
Mae'r rhaglen astudio ar gyfer Cymraeg ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 2 i'w gweld yn y ddogfen 'Cymraeg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru'.¹⁴

4.14 Yn debyg i nifer o'r canfyddiadau o'r cwrs lefel uwch, nodwyd bod y cwrs sylfaen wedi llwyddo i fagu hyder, i ddatblygu sgiliau ac wedi arwain at ddefnydd pellach o'r Gymraeg yn achlysurol ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol mewn ysgolion. Cyfeiriodd sylwadau cyfranogwyr at y deilliannau a'r cynnydd canlynol:

- Defnydd helaethach o Gymraeg achlysurol;
- Safonau a chywirdeb iaith wedi gwella;
- Defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm;
- Pwyslais cynyddol ar ddechrau sgysiau gyda disgyblion yn y Gymraeg;
- Cynyddu proffil y Gymraeg/dwyieithrwydd mewn ysgolion;
- Y cwrs wedi ysgogi eraill yn yr ysgol i fynychu cyrsiau iaith Gymraeg.

Mae'r sylw isod gan un cyfranogydd yn nodweddiadol o'r ymateb gan athrawon a fynychodd y cwrs sylfaen:

'There has been a huge increase in confidence in using spoken Welsh with children. I am also able to support colleagues and to lead lessons and assemblies bilingually. Use of incidental Welsh without thinking.' (Athro, ysgol gynradd, cwrs sylfaen)

4.15 Roedd rhai sylwadau yn awgrymu bod y Cynllun Sabothol hefyd wedi codi ymwybyddiaeth ymysg cyfranogwyr o'r lle i wella ansawdd darpariaeth Cymraeg ail iaith.

'I have now been given joint responsibility for Second Language Welsh in school alongside another member of staff who has previously attended the course and we are currently looking into

¹³ <http://learning.wales.gov.uk/resources/welshdev/?skip=1&lang=cy>


¹⁴ <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/arevisedcurriculumforwales/nationalcurriculum/welshnc/?lang=cy>

the changes we can make to improve on the levels throughout school.' (Athro, ysgol gynradd, cwrs sylfaen)

Traweffaith ar ddarpariaeth

- 4.16 Casglwyd data ar oriau o ddarpariaeth (cyn ac ôl-gwrs) yn yr un modd ag a ddisgrifiwyd yn yr adran flaenorol mewn perthynas â chyfranogwyr y cwrs uwch. Yn ôl y disgwyl, gwelwyd darlun mwy cyson yn yr ymatebion a gafwyd gan athrawon a fynychodd y cwrs sylfaen, gan eu bod i gyd yn athrawon mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.
- 4.17 O'r 64 o ymatebwyr a oedd wedi mynychu'r cwrs sylfaen, cyflwynodd 58 ddata ar yr oriau o ddarpariaeth Cymraeg cyn ac ar ôl y cwrs. O'r rhain, nododd 42 bod cynnydd wedi bod yn yr oriau a ddysgir drwy gyfrwng y Gymraeg. Ymysg yr 16 o ymatebion lle nad oedd cynnydd wedi'i adrodd, roedd sylwadau yn aml yn cyfeirio at ddatblygiadau eraill a oedd wedi codi proffil neu gynyddu defnydd o'r iaith tu allan i wersi Cymraeg strwythuredig. Mae'r ffigur isod yn cyfleu'r cynnydd a welwyd yn yr ysgolion wedi i gyfranogwyr gwblhau'r cwrs. Os cymerir y data gan y 58 o gyfranogwyr cwrs sylfaen a gynigiodd ddata, mae hyn gyfystyr ag un awr ychwanegol o ddarpariaeth Cymraeg yr un ar ôl y cwrs.

Ffigur 5: Cynnydd yn nifer yr oriau o wersi Cymraeg ymysg cyfranogwyr y cwrs sylfaen



n=58, cyfranogwyr y cwrs sylfaen.

Datblygu adnoddau

4.18 Roedd yr ymatebwyr i'r holiadur yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddatblygu adnoddau yn ystod y cwrs. Nododd mwyafrif yr ymatebwyr a fynychodd y cwrs sylfaen eu bod wedi gwneud defnydd o'r adnoddau a gynhyrchwyd. Nododd ymatebwyr eu bod hefyd wedi rhannu adnoddau gyda staff eraill yn yr ysgol.

'During the course I prepared lessons and supporting resources to teach using a bilingual approach. I have utilised some of the lesson plans and resources with my own class and shared others which would be better suited for use in other year groups.' (Athro, ysgol gynradd, cwrs sylfaen)

4.19 Yn ogystal â chefnogi darpariaeth Cymraeg ail iaith, mae'r cwrs wedi arwain at greu adnoddau i'w defnyddio ar draws ystod o bynciau. Mae rhai cyfranogwyr hefyd yn gwerthfawrogi'r ffaith bod sgiliau iaith wedi eu meithrin a fydd yn eu galluogi i ddatblygu rhagor o adnoddau Cymraeg a dwyieithog yn y dyfodol.

'I produced teaching resources for science, maths and Welsh lessons suitable for classes in Key Stage 2. I also have the resources produced by the other members of the group. I have used Powerpoints and activities in my own classes and have attempted to teach bilingual lessons. The resources however are of secondary importance as the primary aim of the course was to develop and acquire Welsh language skills. I would have been

happy to prepare resources in my own time and am now able to prepare resources in Welsh as a result of the skills acquired on the course.' (Athro, ysgol gynradd, cwrs sylfaen)

- 4.20 Mynegodd lleiafrif bach o ymatebwyr (pedwar allan o'r 54 a gynigiodd sylwadau ysgrifenedig) bwyntiau negyddol mewn perthynas â datblygu adnoddau, yn cynnwys bod prinder amser ar gael yn ystod y cwrs i baratoi adnoddau.

'Very little time to prepare resources on the course. Very few were relevant to the pupils I teach. The language was also difficult.' (Athro, ysgol gynradd, cwrs sylfaen)

Cyrsiau lefel mynediad

Canfyddiadau

- 4.21 Cafwyd ymatebion i'r holiadur gan 26 o gynorthwywyr dosbarth a oedd wedi mynychu'r cwrs lefel mynediad. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan ymatebwyr yn awgrymu bod tri phrif ddeiliant wedi'u profi gan gyfranogwyr y cwrs hwn. Mae'r rhain yn gyson i raddau helaeth gyda'r hyn a adroddwyd gan gyfranogwyr a fu ar y cyrsiau uwch a sylfaen, sef.

- Defnydd helaethach o Gymraeg achlysurol;
- Hyder wrth ddefnyddio'r iaith; a
- Safonau a chywirdeb iaith wedi gwella.

- 4.22 Nododd cynorthwywyr dosbarth bod eu defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd wedi codi'n sylweddol. Mae hyn yn cynnwys defnydd o'r Gymraeg gyda disgyblion a chydweithwyr. Gwelwyd hefyd bod y cwrs wedi llwyddo i fagu hyder ymysg cyfranogwyr:

'I'm able to use some form of Welsh during every lesson. I have greatly increased confidence and able to deliver Welsh language lessons to the age group I teach and to use a basic level of Welsh with Welsh speakers.'
(Cynorthwydd dosbarth)

Traweffaith ar ddarpariaeth

- 4.23 Yn dilyn ymlaen o'r pwyntiau uchod, rhoddwyd cyfle i

gyfranogwyr y cwrs mynediad i nodi a oedd cynnydd wedi bod yn nifer yr oriau o addysgu yn y Gymraeg yn eu hysgolion ers iddynt gwblhau'r cwrs. Roedd y cwestiwn yn ddewisol ond fe'i hatebwyd gan bob un o'r 26 o ymatebwyr yn y categori hwn.

- Nododd 15 allan o'r 26 bod cynnydd wedi bod yn yr oriau o addysgu Cymraeg yn yr ysgol;
- Nododd 11 nad oedd unrhyw oriau addysgu ychwanegol yn cael eu darparu; o'r 11 yma, adroddodd wyth cyfranogydd bod mwy o Gymraeg yn cael ei defnyddio yn achlysurol.

4.24 Mae angen trin unrhyw ddata o'r fath yn ofalus, gan ei fod yn bosibl bod y cwestiwn wedi'i ddehongli mewn gwahanol ffyrdd gan gynorthwywyr. Mae rôl y cynorthwywyr yn amrywio ond yn tueddu i gwmpasu amryw dasgau yn ymwneud â chefnogi'r disgyblion a'r athrawon yn hytrach nag 'addysgu'. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth o beth cynnydd mewn darpariaeth (yn seiliedig ar y sylwadau ansoddol a gynigiwyd), gyda nifer o gynorthwywyr yn egluro eu bod yn darparu sesiynau byrion o wersi Cymraeg (e.e. sesiwn o 10 munud y dydd) i ddisgyblion ers mynychu'r cwrs.

4.25 Yn ôl cyfranogwyr, mae'r cwrs wedi gwella sgiliau a chywirdeb iaith: cyfeiriodd sawl ymatebydd i'r holiadur at y ffaith bod eu geirfa wedi ymestyn a bod ganddynt well ddealltwriaeth o ramadeg ers dychwelyd i'r ysgol.

'I have gained a lot more knowledge of the Welsh language and use it throughout my working day from greetings, commands and whenever I can incorporate it into our focused activities.'

'[I have a] much improved use and understanding of grammar.'
(Cynorthwywyr dosbarth)

Mae cydnabyddiaeth hefyd bod yna fuddion i'r disgyblion wrth i gynorthwywyr wella ansawdd eu Cymraeg. Nododd sawl un o'r rheini a fu ar y cwrs mynediad bod y disgyblion yn elwa trwy glywed y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn fwy cywir.

4.26 Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu bod y Cynllun Sabothol wedi cynyddu proffil a phresenoldeb y Gymraeg / dwyieithrwydd ar

draws ysgolion. Nododd un cynorthwydd bod y cwrs wedi sbarduno digwyddiadau Cymraeg newydd a phartneriaeth gyda'r Urdd.

'I have started a Welsh Club up in the school; I have also built a relationship with Urdd this has meant that all of year 5 are going to go to Llangrannog this year. I am also taking out groups in Key stage 2 and working on their oral skills.' (Cynorthwydd dosbarth)

Datblygu adnoddau

4.27 Nododd wyth allan o'r 26 o gyfranogwyr y cwrs mynediad a atebodd yr holiadur eu bod yn ystyried y cyfle i baratoi adnoddau fel agwedd 'wych' o'r Cynllun. Roedd yn agwedd 'dda' ym marn naw ac yn 'weddol' yn ôl pedwar ohonynt. Nododd pump o ymatebwyr bod y cyfleodd i baratoi adnoddau wedi bod yn 'wael'. Prin iawn oedd y sylwadau negyddol mewn perthynas â'r elfen hon o'r cwrs ond nododd un cyfranogydd:

'I feel there should have been more direct reference to the curriculum, and direct links to the development of a specific scheme of work.' (Athrawes, ysgol gynradd, cwrs mynediad)

Barn ar gefnogaeth barhaol: cyrsiau uwch, sylfaen a mynediad

4.28 Gofynnwyd i gyfranogwyr *'ydy eich sefydliad yn parhau i gefnogi eich datblygiad parhaus addysgu iaith Gymraeg / dwyieithog?'* Mae'r data yn Nhabl 6, isod, yn dangos rhywfaint o amrywiaeth yn yr atebion fesul lefel y cwrs. Ar draws y Cynllun teimla mwyafrif y cyfranogwyr bod cefnogaeth ar gael i raddau gan eu sefydliadau. Ymysg cyfranogwyr a fynychodd y cwrs uwch, adrodda dros hanner ohonynt (34 allan o 65 a atebodd y cwestiwn hwn) bod eu sefydliadau yn parhau i gynnig cefnogaeth gref iddynt. Llai na hanner o'r rheini a fynychodd y cyrsiau sylfaen a mynediad sydd yn teimlo bod cefnogaeth barhaol 'gref' ar gael iddynt gan eu sefydliadau. Mae'n bwysig ystyried y data hyn yng nghyd-destun y drafodaeth ar gefnogaeth ar ôl mynychu'r cwrs, ym Mhennod 5 yr adroddiad hwn.

Tabl 6: Trosolwg o atebion i'r cwestiwn 'Ydy eich sefydliad yn parhau i gefnogi eich datblygiad parhaus addysgu iaith Gymraeg / dwyieithog?'

	Uwch	Sylfaen	Mynediad	Cyfanswm
Ydy yn gryf	34	20	10	64
Ydy i raddau	28	36	11	75
Nad ydy	3	1	4	8
Ddim yn gwybod	0	0	1	1
Cyfanswm	65	57	26	148

Ffynhonnell: arolwg cyfranogwyr

n=148, cyfranogwyr cyrsiau, pob lefel

Sylwadau cyffredinol ar draweffeithiau

4.29 Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan gyfranogwyr yn awgrymu bod y Cynllun Sabothol yn gwneud gwahaniaeth i'r unigolion sydd yn mynychu'r cwrs ac yn creu argraff gadarnhaol o safbwynt eu hawydd i ddefnyddio'r iaith. Yn wir, y negeseuon mwyaf amlwg i'w gweld yn y data a gasglwyd trwy'r arolwg yw bod y cyrsiau yn codi hyder ac yn cynyddu defnydd o'r iaith Gymraeg.

'Defnydd o Gymraeg mwy cywir, rwy'n gobeithio! Mae gen i'r hyder i ysgrifennu adroddiadau a pharatoi cyflwyniadau heb deimlo bod rhaid i rywun arall wirio fy ngwaith.' (Cyfranogydd, Ysgol Uwchradd, wedi dilyn y cwrs uwch)

'Credaf fod y Cynllun yn un hynod fuddiol gan fod yr athrawesau sydd wedi dilyn y Cynllun wedi elwa'n fawr o'r profiad a bod eu defnydd ysgrifenedig o'r iaith yn enwedig wedi cryfhau. Yn ddi-os maent yn llawer mwy hyderus wrth ddefnyddio'r iaith.' (Pennaeth ysgol uwchradd, y cyfranogydd wedi dilyn cwrs uwch)

4.30 Mae'r cynnydd mewn hyder ymysg cyfranogwyr yn deillio mewn sawl achos o'r teimlad eu bod yn defnyddio Cymraeg mwy cywir, gyda sawl un yn nodi eu bod bellach yn teimlo'n fwy hyderus yn eu Cymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn enwedig y rheini a fynychodd gwrs uwch. Fel eglurodd un, *'rwy'n tueddu defnyddio'r un faint ond rwy'n teimlo'n fwy hyderus o ran cywirdeb'*.

4.31 Nododd eraill hefyd fod cymryd rhan yn y Cynllun wedi cynyddu eu hyder, a bod hynny wedi helpu i godi statws y Gymraeg yn gyffredinol yn yr ysgol. Cynigiwyd esiamplau lle roedd yr

hyfforddiant wedi arwain at ddarbwylllo eraill i wella eu sgiliau iaith Cymraeg; ehangu defnydd o'r iaith wrth gyfathrebu'n fewnol, ac arwain mwy o weithgareddau allgyrsiol cyfrwng Cymraeg:

'I encouraged my NTA [Cynorthwydd nad ydyw'n addysgu] to develop her own skills by attending professional development training with the [.....] Advisory Service and with an evening class. My class recently performed items confidently bilingually to parents during our Cymanfa Dydd Gŵyl Dewi Sant and a parent commented that the children's delivery was 'like being in a Welsh school class'. (Athrawes gynradd, lefel sylfaen)

'Welsh has featured heavily in our new school development plan. The profile of Welsh is very strong and visible from the entrance of the school. More staff and children use everyday Welsh – the standards have risen.' (Athrawes gynradd, lefel sylfaen).

- 4.32 Dengys y dystiolaeth gan gyfranogwyr sydd yn addysgu mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn arbennig bod defnydd helaethach o'r Gymraeg yn achlysurol. Mae hyn, yn ei dro, yn gwneud gwahaniaeth i broffil yr iaith, ac i ymwybyddiaeth o ddwyieithrwydd ymysg staff a disgyblion, yn ôl sylwadau gan gyfranogwyr. Mae sylwadau gan reolwyr llinell yn atgyfnerthu'r adborth cadarnhaol gan y cyfranogwyr.

'We endeavour to create a Welsh ethos, however, in order to develop this deeper, we feel that our member of staff has gained enormous confidence in her delivery from the sabbatical and is very excited at the new ideas etc. that she has developed. This enthusiasm is something we can all gain from. We aim to utilise this experience by in house training for support staff after half term and to increase the profile of Welsh across the school in all areas of the curriculum'. (Pennaeth cynradd, y cyfranogydd wedi mynychu cwrs sylfaen).

- 4.33 Ymddengys fod y Cynllun Sabothol wedi cefnogi ysgolion wrth iddynt geisio hybu defnydd o Gymraeg achlysurol trwy gynnwys yr iaith mewn ystod o sefyllfaoedd yn yr ysgol, gan gynnwys mewn gwasanaethau, wrth gofrestru ac wrth i aelodau staff gyfarch disgyblion. Cyfeiriodd nifer fawr o ymatebwyr at y cynnydd hwn yn y defnydd achlysurol o'r iaith, gan gynnwys y rhai hynny nad oedd wedi gweld cynnydd yn yr oriau o Gymraeg a addysgir. Roedd y sylw gan un athrawes a fynychodd y cwrs sylfaen ei bod yn gwneud *'defnydd helaethach o ganllawiau*

dwyieithog a Chymraeg achlysurol' yn nodweddiadol o'r sylwadau a gafwyd.

- 4.34 Awgryma'r dystiolaeth yma bod cyfranogwyr yn ystyried hwn fel deilliant pwysig o'r cwrs, a nodwyd y cynnydd yn y defnydd achlysurol o'r Gymraeg mewn sylwadau ansoddol tua hanner yr ymatebwyr i'r holiadur.

Detholiad o Astudiaeth Achos #1 (sylfaen)

Mae 'I' yn dysgu mewn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ond mae nifer o'r staff yn siarad Cymraeg. Mae'n rhannu ei hamser rhwng dysgu blwyddyn 4 a phlant ag anghenion addysgol arbennig.

Wedi'r cwrs mae hi'n fwy hyderus wrth ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd bob dydd ac mae'n deall llawer mwy. Mae'n defnyddio'r iaith yn y dosbarth nawr, nid yn unig mewn gwersi Cymraeg ond drwy roi gwersi cyfrwng Cymraeg – e.e. fe gyflwynodd wers mathemateg ar galendrau yn y Gymraeg, ac yn y gwersi Daearyddiaeth mae'n trafod yr enwau lleoedd a gwledydd yn Gymraeg. Mae hefyd mwy o Gymraeg ar furiau'r ysgol nawr ac mae I wedi newid o ddefnyddio gorchmynion dwyieithog ar yr iard i rai Cymraeg yn unig. Tybia bod ei defnydd o'r Gymraeg wedi mwy na dyblu, ac meddai bod 'lefel cyrhaeddiad y disgyblion yn sicr wedi cynyddu'.

Yn y gorffennol nid oedd Cymraeg yn cael ei ystyried yn gadarnhaol iawn yn yr ysgol felly bu tro mawr ar fyd. Y dyddiau hyn mae'r Gymraeg yn llawer mwy o hwyl i'r plant. Mae agwedd y staff a'r plant tuag at y Gymraeg yn gwneud dysgu yn brofiad hapusach ac yn fwy cadarnhaol. Mae wedi derbyn cefnogaeth gan yr athrawes fro a daeth tiwtor y cwrs i'r ysgol pan ofynnodd I am gymorth. Mae'r pennaeth yn gefnogol iawn ac mae athro arall ar fin dechrau'r cwrs. Roedd yn brofiad cadarnhaol iawn a hoffai fynyachu cwrs pellach.

- 4.35 Nododd eraill – lleiafrif bach o'r holl ymatebwyr – bod y cwrs wedi eu hysgogi i fynyachu cyrsiau iaith Gymraeg eraill (gan gynnwys dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion) gan eu bod yn teimlo bod dal angen gwella eu sgiliau iaith cyn bod yn gwbl hyderus i addysgu yn y Gymraeg.
- 4.36 Nododd penaethiaid a rheolwyr llinell cyfranogwyr y cyrsiau eu bod yn credu bod y Cynllun wedi cyfrannu at godi safonau yn y Gymraeg, a hynny ymysg disgyblion yn ogystal â'r staff: adroddwyd bod cyfuniad o hyder wrth ddefnyddio'r iaith ac ymwybyddiaeth uwch o ddulliau addysgu Cymraeg effeithiol wedi golygu bod ansawdd darpariaeth Cymraeg fel ail iaith - yn arbennig - wedi gwella. Fel y nododd un pennaeth:

'Releasing staff to attend the sabbatical has had a profound

impact on raised standards in W2L [Cymraeg ail iaith] throughout the school. Teachers have come back from the course enthused and inspired to use as much Welsh as possible within their classrooms and around the school..... I have been able to plan for W2L to be an integral part of each teacher's timetable. A dedicated time each day is given for Welsh development and this again has proved to be successful. Levels of children achieving Level 4+ at the end of KS2 has risen significantly from 23% to 61%. (Pennaeth cynradd, aelod o'r staff wedi mynychu cwrs sylfaen)

- 4.37 Er bod yna dystiolaeth ynysig sydd yn awgrymu bod y Cynllun wedi arwain at godi safonau, yn gyffredinol nid oes sylfaen gref o wybodaeth sydd yn caniatáu i ni ddeall traweffeithiau na chyfraniad cyffredinol y Cynllun ar ganlyniadau na chynnydd disgyblion yn y Gymraeg. Tystiolaeth 'feddal' ac yn aml anecdotaidd sydd gennym. Tra bod y dystiolaeth yn eithaf gwerthfawr, awgryma bod yna fylchau yn y trefniadau monitro os ydym am ddeall pa wahaniaeth y mae'r Cynllun yn ei wneud i ddatblygiad darpariaeth cyfrwng Cymraeg a gweledigaeth ehangach y Strategaeth. Yn wir, mae heriau sylweddol ynghlwm â cheisio deall cyfraniad y Cynllun i nodau'r Strategaeth Genedlaethol gan ystyried y ffactorau eraill niferus sydd yn dylanwadu ar allu cyfranogwyr i roi ar waith eu sgiliau Cymraeg yn eu hysgolion a'u colegau.
- 4.38 Yn gyffredinol, mae yma ddarlun cadarnhaol ond, gellir dadlau, anghyflawn o draweffaith y Cynllun Sabothol ar gyfranogwyr, eu defnydd o'r Gymraeg a phroffil yr iaith yn eu hysgolion.

5 Effeithiolrwydd cyflwyno'r Cynllun

5.1 Roedd y tîm ymchwil yn awyddus i ddeall natur a lefel y gefnogaeth gan bartneriaid strategol, yn enwedig awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol a sut roedd hyn yn plethu gyda rôl y darparwyr. Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau ar effeithiolrwydd cyflwyno'r cynllun, yn seiliedig ar sylwadau uwch reolwyr ysgolion a cholegau, darparwyr y cyrsiau yn y chwe chanolfan hyfforddi a phedwar o gydlynwyr addysg Gymraeg, un o bob consortiwm.

Y cyd-destun cynllunio strategol: Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Grant y Gymraeg mewn Addysg

5.2 Gofynnir i awdurdodau lleol fanylu yn eu Cynlluniau Strategol sut y byddant yn gwireddu nodau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (genedlaethol) ar lefel leol, tra bod Grant y Gymraeg mewn Addysg yn darparu cefnogaeth ariannol i'r pedwar consortiwm er mwyn cynnal gweithgareddau sy'n cyfrannu at weithrediad y Cynlluniau Strategol ar draws y rhanbarth. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys y gefnogaeth a'r hyfforddiant a ddarperir gan athrawon bro. Mae sicrhau cyswllt agos rhwng y Cynlluniau a'r gwaith a ariennir drwy'r Grant, yn ogystal â chydweithio effeithiol rhwng awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol, yn hanfodol felly i lwyddiant y Cynllun Sabothol.

Lefel y galw ac ymwybyddiaeth o'r Cynllun

5.3 Adroddwyd gan ddarparwyr y cyrsiau a swyddogion y consortia bod galw ar gyfer y cyrsiau ar bob lefel, ond roedd gryfaf ar gyfer y cyrsiau lefel mynediad a sylfaen. Er mwyn cynnal y diddordeb yn y Cynllun teimlai nifer o'r athrawon bro a chyfranogwyr bod angen rhagor o waith er mwyn darbwylo penaethiaid o fanteision a thraweffeithiau'r cwrs. Nododd y timau athrawon bro bod trefnu athrawon cyflenwi yn broblem mewn rhai ysgolion.

- 5.4 Awgrymwyd hefyd gan gyfranogwyr a staff y siroedd bod galw am gwrs byr neu weithdai i benaethiaid i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun.
- 5.5 Roedd rhai athrawon bro o'r farn bod y galw cryf am leoedd ar gyrsiau lefel mynediad yn gysylltiedig â'r ffaith ei bod yn haws i bennaeth ryddhau cynorthwydd dysgu, o'i gymharu ag athro dosbarth. Ym marn sawl un o'r athrawon bro y cyfwelwyd â hwy, roedd y cwrs (mynediad) byrrach yn apelio at nifer o benaethiaid a chyfranogwyr. Serch hynny, nodwyd bod cyrraedd cynorthwywyr yn medru bod yn dalcen caled mewn rhai achosion gan fod gan y grŵp yma lai o brofiad o fynychu cyrsiau datblygiad proffesiynol ac roedd yn gallu ymddangos yn ddihyder ar brydiau. Adroddodd darparwyr a swyddogion awdurdodau bod ymwybyddiaeth o'r Cynllun yn isel ymysg penaeithiaid ac uwch reolwyr. Awgrymwyd gan ambell i ddarparwr ei bod hi'n medru bod yn her gwneud cyswllt gyda phenaethiaid: pwysleiswyd bod angen i unrhyw waith hysbysebu neu farchnata'r Cynllun Sabothol ddefnyddio amryw dulliau gan gynnwys cyhoeddusrwydd ar lefel genedlaethol a thargedu ysgolion ar lefel sirol er mwyn sicrhau bod y negeseuon yn cael eu cyfleu yn glir ac i'r unigolion perthnasol.

Prosesau gweinyddol

- 5.6 Mae sylwadau gan uwch reolwyr a phenaethiaid ysgolion yn awgrymu eu bod yn gwerthfawrogi'r ffaith nad yw'r Cynllun yn orgymhleth nac yn rhy llafurus o safbwynt trefniadau gweinyddol. Nodwyd bod y gwaith papur sydd ynghlwm â'r Cynllun yn gymharol syml ac mae'r ad-daliadau am gostau staff cyflenwi a chostau eraill yn cael eu talu'n gyflym.

Recriwtio

- 5.7 Mae recriwtio cyfranogwyr i'r Cynllun wedi bod yn llwyddiannus yn gyffredinol. Fodd bynnag, gorfu gohirio cwrs lefel uwch ym Mangor ddechrau 2013, ac mewn rhai ardaloedd mae recriwtio digon o gyfranogwyr i fynychu cyrsiau lefel uwch wedi bod yn her.

Mae diddordeb yn parhau yn uchel iawn ar gyfer y cyrsiau mynediad a sylfaen: *'fe allen ni lenwi mynediad a sylfaen yn hawdd'*, meddai un cydlynnydd.

- 5.8 Mae tair prif elfen i'r broses recriwtio cyfranogwyr i'r cyrsiau:
- gwybodaeth ganolog ar wefan a chylchlythyrau Llywodraeth Cymru;
 - deunyddiau marchnata a gyhoeddir gan y darparwyr (gwefannau gydag astudiaethau achos a chlipiau fideo; taflenni); a
 - chyswllt rhwng ymgynghorwyr iaith Gymraeg y consortia/a'r ysgolion.
- 5.9 Daeth yn glir o'r cyfweiliadau gyda chyfranogwyr, darparwyr a swyddogion y consortia bod y broses recriwtio, ac yn arbennig rôl yr awdurdod lleol wrth gefnogi recriwtio, yn amrywio o ardal i ardal. Er na astudiwyd y sefyllfa ym mhob awdurdod yn fanwl, roedd cyfweiliadau gyda sampl yn cynnig tystiolaeth mai prin yw'r cynllunio strategol ar lefel sirol er mwyn targedu ysgolion a chyfranogwyr. Cefnogwyd y farn hon gan ddarparwyr.
- 5.10 Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo ar bapur i gefnogi'r Cynllun a chwarae rhan wrth adnabod a monitro ysgolion a chyfranogwyr yn eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg blynyddol. Serch hynny, mae'r amcanion a welir yn y Cynlluniau hyn yn gallu bod yn ben-agored, gyda chyfeiriadau at *'barhau i dargedu ysgolion'* neu *'barhau i fentora'* heb osod targedau ar gyfer nifer y cyfranogwyr yn lleol neu nifer oriau'r gefnogaeth i'r Cynllun; o ganlyniad mae diffyg cysylltiad yn gyffredinol rhwng y Cynlluniau, gweithgareddau a gefnogir trwy Grant y Gymraeg mewn Addysg a rôl yr awdurdodau lleol yn y Cynllun.
- 5.11 Ymddengys bod y broses recriwtio yn gweithio'n effeithiol pan fo gan staff perthnasol yr awdurdod lleol gysylltiadau cadarn a gwybodaeth dda am flaenoriaethau eu hysgolion a'u bod, drwy hynny, yn medru cynllunio'n fanwl gyda dealltwriaeth o'r

rhesymau a chymhelliant yr ysgol dros ddanfôn cyfranogydd ar y cwrs. Nodwyd, fodd bynnag, bod awdurdodau yn rhydd i osod meini prawf ar gyfer recriwtio cyfranogwyr i'r cyrsiau: ar y cyfan, croesewir hynny ond teimlir y byddai arweiniad pellach am bwy fyddai'n elwa fwyaf o'r cwrs yn fuddiol.

- 5.12 Ategodd un o'r darparwyr y pwynt yma drwy esbonio eu bod hwythau hefyd yn holi cwestiwn allweddol i'w hunain wrth ddelio gyda cheisiadau:

'a ddylid blaenoriaethu'r ymarferwyr hynny o ysgolion lle mae ymroddiad, neu flaenoriaethau ysgolion lle nad oes dim diddordeb wedi bod yn y Cynllun hyd yma?' (Cynrychiolydd canolfan hyfforddi y Cynllun Sabothol)

- 5.13 Nododd rhai athrawon bro y byddent yn gwerthfawrogi rhagor o ganllawiau ynghylch dulliau recriwtio a chyfleoedd i ddysgu am ddulliau effeithiol gan gonsortia/awdurdodau lleol eraill.

- 5.14 Nododd y darparwyr fod amrywiaeth rhwng awdurdodau lleol yr oeddynt yn delio â hwy a bod rhai timau athrawon bro yn chwarae rôl flaenllaw yn y broses o recriwtio tra bod awdurdodau eraill ddim yn enwebu o gwbl. Roedd yn glir o'r cyfweiliadau bod ambell awdurdod yn gweithredu ar hyd braich a bod eu cyfraniadau yn cynnwys llythyru ac anfon deunyddiau marchnata at ysgolion yn unig. Dylid nodi bod y cyfnod a adolygwyd fel rhan o'r astudiaeth hon (Ionawr 2011-Rhagfyr 2012) wedi bod yn un o gryn newid mewn sawl ardal. Mae symud i weithio fel consortia wedi ychwanegu at faich gwaith a chyfrifoldebau nifer o swyddogion ac wedi golygu oedi wrth i swyddogaethau cael eu pennu.

- 5.15 Mae'r dasg o sicrhau bod y cyrsiau yn llawn wedi golygu llawer iawn o oriau o waith gweinyddol i awdurdodau lleol a darparwyr, yn cynnwys ffonio o amgylch ysgolion lle bo angen. Nodwyd bod cyfathrebu gydag ysgolion yn anodd yn gyffredinol gan fod cymaint o gystadleuaeth am eu sylw a'u hamser. Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Cynllun yn isel ymysg rhai

ysgolion er iddynt dderbyn gwybodaeth gyson gan sawl ffynhonnell, yn ôl swyddogion yr awdurdodau lleol.

- 5.16 Adroddwyd bod y cyswllt rhwng awdurdodau lleol a'r darparwyr yn anghyson. Nid oes swyddogion ym mhob awdurdod lleol sydd yn gyfrifol am y Cynllun ac sy'n gallu cysylltu gyda darparwyr. Ar y llaw arall ceir enghreifftiau lle mae cysylltiadau da wedi bodoli ers amser rhwng awdurdodau a darparwyr y cyrsiau ac mae ymdrechion i adeiladu ar y cysylltiadau hyn. Mewn rhai ardaloedd, mae athrawon bro yn mynychu rhai rhannau o'r cwrs neu hyd yn oed yn rhan o'r tîm sy'n darparu'r cwrs. Mae'r enghreifftiau hyn o gydweithio agos rhwng athrawon bro a darparwyr yn cynnig syniadau y gellid adeiladu arnynt yn y dyfodol fel ffordd o feithrin perthynas gyda chyfranogwyr.
- 5.17 Nodwyd gan athrawon bro bod recriwtio wedi bod yn fwy anghyson ar y lefel uwch, yn enwedig mewn awdurdodau yn y gogledd. Mae rhai yn teimlo bod penaethiaid yn amharod i ryddhau athrawon sydd yn addysgu TGAU a Safon Uwch a'u bod yn poeni am effaith y gallai cyfnod i ffwrdd o'r ysgol ei gael ar gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion yn yr ysgol.
- 5.18 Mae twf wedi bod yn nifer y cyfranogwyr o'r sector addysg bellach sydd yn mynychu cyrsiau, yn bennaf oherwydd cyflwyno'r cwrs byr yn Ebrill 2011. Roedd rhai cyrsiau byr yn ystod cyfnod y gwerthusiad wedi'u llenwi gan gyfranogwyr addysg bellach yn unig. Mae darparwyr yn adrodd bod manteision clir wrth fedru cysylltu gydag Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd er mwyn adnabod unigolion addas. Hefyd, nodwyd bod y cwrs byr newydd yn apelio at y garfan hon. Nodwyd bod rhai sefydliadau addysg bellach wedi datgan pryderon ynghylch rhyddhau aelodau staff i fynychu'r cwrs oherwydd ei bod yn medru bod yn anodd dod o hyd i staff cyflenwi addas.
- 5.19 Nododd sawl un yn ystod cyfweiliadau y byddent yn dymuno gweld ymgyrchoedd recriwtio a marchnata cenedlaethol er mwyn codi ymwybyddiaeth, egluro nodau ac amcanion y Cynllun a

gwella delwedd y cyrsiau yn llygaid penaethiaid.

Y cyrsiau

- 5.20 Roedd barn staff yr awdurdodau lleol yn gyson â sylwadau cyfranogwyr, ac yn ddieithriad, adroddont eu bod yn credu bod y cyrsiau yn cynnig hyfforddiant da ac addas. Nodwyd bod ambell i newid wedi bod yn y blynyddoedd diweddar (er enghraifft ychwanegu wythnos at hyd y cwrs mynediad a chynnig opsiwn cwrs byr ar y lefel uwch), oedd wedi cryfhau'r cynnig hyd yn oed yn fwy.
- 5.21 Manion oedd y pryderon a fynegwyd, a'r unig adborth negyddol a oedd yn gyson rhwng y darparwyr ac ambell i gyfranogydd oedd bod y baich asesu yn drwm. Nododd pedwar o athrawon a fu ar y cwrs sylfaen eu bod yn teimlo bod gormod o bwysau wedi bod ar asesiadau yn ystod eu cyfnod ar y cwrs. (Ni chodwyd y pwynt yma gan gyfranogwyr a fynychodd y cyrsiau lefel mynediad ac uwch.) Golyga'r ffaith bod cynnwys y cyrsiau yn drwm nad oes digon o amser i atgyfnerthu a phwyso a mesur yr hyn a ddysgwyd, ym marn rhai.

Cefnogaeth ar ôl mynychu'r cwrs

5.22 Mae cefnogaeth ar ôl y cwrs i'w gweld mewn nifer o wahanol ffyrdd:

- a) Ôl-ofalaeth gan yr awdurdod lleol/consortia rhanbarthol;
- b) Cefnogaeth gan ddarparwyr y Cynllun;
- c) Cefnogaeth gan yr ysgol/coleg;

Ceir isod ragor o wybodaeth ar y gwahanol fathau o gefnogaeth a chymorth ôl-gwrs.

Ôl-ofalaeth yr awdurdod lleol/consortia rhanbarthol

5.23 Yn dilyn y rhan fwyaf o gyrsiau, yr awdurdod lleol neu'r consortiwm rhanbarthol sydd â chyfrifoldeb am gynnig ôl-ofalaeth (yng nghyd-destun y cyrsiau uwch bloc, mae 3 diwrnod o ôl-

ofalaeth yn cael ei gynnig gan ddarparwyr y Cynllun). Nhw sydd yn penderfynu ar natur a dwyster yr ôl-ofalaeth, sydd yn amrywio o ardal i ardal. Mae'r gefnogaeth yn cynnwys:

- Ymweliadau penodol gan athrawon bro â'r cyfranogwyr a thracio ysgolion a monitro perfformiad yn ystod yr ymweliadau;
- Monitro yn ystod ymweliadau ac asesiadau arferol yr athrawon bro yn yr ysgolion;
- Deunyddiau ac adnoddau ychwanegol ar gael ar wefan neu borth yr athrawon bro;
- Rhai awdurdodau lleol yn talu am gwrs (a chyflenwi) un-dydd dilynol gan y darparwyr;
- Ôl-ofalaeth anffurfiol – hwyluso sesiynau/cyfarfodydd i dynnu cyfranogwyr ynghyd wedi'r cwrs i sgwrsio yn y Gymraeg a rhannu profiadau.

5.24 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi pecyn dilyniant yn rhoi canllawiau ar y camau ôl-ofalaeth. Eglurodd rhai cynrychiolwyr o awdurdodau lleol nad oedd ganddynt y capasiti i weithredu'r canllawiau hyn. Cyfeiriodd eraill at y ffaith bod pwysau gwaith athrawon bro yn ei gwneud hi'n anodd neilltuo'r amser i recriwtio a darparu cefnogaeth ôl-gwrs.

'Gafo ni becyn ôl-ofalaeth, ac yn cytuno gyda phopeth ynddo, ond oherwydd yr uno [fel consortiwm], ni heb gael yr amser i'w weithredu'. (Athrawes fro)

5.25 Cydnabuwyd gan yr holl staff awdurdod lleol a holwyd mai ôl-ofalaeth oedd y ddolen wannaf yn y Cynllun, a hyd yn oed yn yr ardaloedd hynny lle roedd yr ôl-ofalaeth yn gymharol ddwys (e.e. lle gwelir ymweliadau aml gyda'r cyfranogwyr, adnabod cyrsiau pellach, tracio canlyniadau) roedd eto deimlad nad oeddynt yn manteisio ar yr holl ddulliau posibl o ôl-ofal a fyddai'n addas. Nododd un athrawes fro, er enghraifft, y byddai'n hoffi petai swm o arian ar gael i dreialu dulliau anffurfiol o ôl-ofal fel rhaglenni cymdeithasol neu system i bartneru ysgolion Cymraeg a di-

Gymraeg. Cydnabuwyd hefyd mai prin iawn yw'r ôl-ofalaeth a gynigir i gyfranogwyr y cwrs mynediad: nid yw'r athrawon bro yn dueddol o'u hadnabod na gweithio gyda nhw, ac mae'n anodd tracio gan bod cynorthwyywyr yn symud dosbarth.

Cefnogaeth gan ddarparwyr y Cynllun

5.26 Mae rhai darparwyr ac awdurdodau lleol wedi treialu cyrsiau dilyniant byr neu nosweithiau cymdeithasol ar gyfer y cyfranogwyr. Er bod yr ewyllys yno i ddechrau, y tueddiad yw i nifer fechan yn unig fanteisio ar y cynnig unwaith i athrawon ailgydio mewn cyfrifoldebau gwaith yn yr ysgol. Hoffai nifer o'r cyfweleion weld astudiaethau achos neu senarios o ddulliau ôl-ofalaeth mewn ardaloedd eraill fel eu bod yn medru dysgu o'r modelau hynny.

Cefnogaeth gan yr ysgol/coleg

5.27 Gofynnwyd am farn y cyfranogwyr ar y gefnogaeth a dderbyniont o fewn eu sefydliad (ysgol neu goleg) a chan eraill. Atebodd y mwyafrif helaeth gan ddweud bod cefnogaeth o fewn eu sefydliad i'w datblygiad parhaus o ran addysgu Gymraeg neu ddwyieithog (43% yn gryf a 50% i raddau o'r 154 ymatebwr). Roedd lleiafrif bach (5% neu wyth cyfranogydd) wedi ateb nad oedd cefnogaeth iddynt yn eu sefydliad. Roedd un o'r rhain o goleg addysg bellach a'r lleill o ysgolion cynradd, ac o bob lefel o gwrs.

5.28 Holwyd hefyd os oedd y cyfranogwyr wedi wynebu rhwystrau wrth ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg ers cwblhau'r cwrs, ac roedd ychydig o dan chwarter wedi gwneud (34 allan o 117 a atebodd). Nid oedd unrhyw batrymau pendant yn ôl sector ond roedd y cyfranogwyr lefel sylfaen ychydig yn fwy tebygol o fod wedi wynebu rhwystrau. Diffyg hyder oedd y rhwystr pennaf i hanner y grŵp (17 allan o 34), ond nodwyd diffyg cyfleoedd (14 o ymatebwyr) o fewn eu sefydliadau a diffyg amser i baratoi sesiynau (15 o ymatebwyr) fel problemau hefyd. Atebodd y mwyafrif helaeth o'r rheini oedd wedi wynebu rhwystrau bod angen rhagor o hyfforddiant arnynt (32 allan o 34 a ymatebodd).

- 5.29 Roedd y grŵp o gyfranogwyr o'r cwrs lefel uwch a holwyd yn awyddus i barhau i wella eu sgiliau iaith. Awgrymodd rhai y gellid cynnig gwersi wythnosol fel grŵp i '*gadw pethau'n ffres*'. Awgrym arall oedd trefniant o secondiadau tymor o hyd i ysgolion (neu weithleoedd) cyfrwng Cymraeg i'r cyfranogwyr hynny oedd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg '*er mwyn cael y profiad 'trochi' sydd ei angen*'. Teimlwyd bod angen sicrhau cyfleoedd pellach i ymarfer a defnyddio'r iaith i'r rhai mewn lleoliadau (gwaith) di-Gymraeg.
- 5.30 Nododd nifer o gyfranogwyr yr awydd am ragor o hyfforddiant iaith. Roedd rhai ohonynt yn dymuno gweld cyrsiau iaith pellach yn dilyn y cwrs Sabothol, gan gyfeirio at yr angen am 'gontinwmm' o gyrsiau iaith i sicrhau cynnydd.
- 5.31 Awgrymwyd gan rai darparwyr y byddai gwefan neu borth digidol ar gyfer rhannu arferion da, cadw mewn cyswllt neu holi cwestiynau i ymarferwyr eraill o fudd i rai cyfranogwyr. Roedd eraill yn cwestiynu faint o amser sydd gan gyfranogwyr i barhau i wella'u sgiliau Cymraeg wedi iddynt ddychwelyd i'r ysgol.
- 5.32 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod angen mwy o eglurder a chysondeb o ran yr ôl-ofalaeth. Mae'r broses o ddychwelyd i'r ysgol neu goleg yn cael ei gweld fel elfen ar wahân neu ddilynol o'r Cynllun yn llygaid nifer o'r unigolion a gyfrannodd at yr adolygiad hwn. Efallai bod angen ystyried y cyfnod ôl-gwrs, yn hytrach, fel un rhan o'r broses gyfan a bod angen cytuno a chynllunio cefnogaeth briodol i gyfranogwyr o'r cychwyn cyntaf.

6 Casgliadau ac argymhellion

- 6.1 Yn gyffredinol, mae'r adolygiad wedi canfod darlun cadarnhaol o'r Cynllun Sabothol ymysg cyfranogwyr a rhanddeiliaid: mae mwyafrif helaeth y cyfranogwyr yn canmol y cyrsiau ac yn adrodd yn gadarnhaol ar eu cynnydd o safbwynt eu sgiliau iaith a'u defnydd o'r Gymraeg wedi iddynt ddychwelyd i'r ysgol neu goleg. Mae cyfranogwyr yn priodoli llwyddiant y Cynllun i ansawdd, dyfnder a dwyster y cyrsiau a ddarperir. O ran gweithrediad y Cynllun, unwaith eto roedd y farn gyffredinol yn gadarnhaol er bod rhai awgrymiadau wedi'u lleisio ynglŷn â ffyrdd y gellid newid neu wella'r cyrsiau.
- 6.2 Y brif neges gan yr holl gyfranwyr i'r ymchwil (cyfranogwyr, awdurdodau lleol ac uwch-reolwyr) oedd bod y Cynllun yn un gwerthfawr a bod yr angen am gyrsiau o'r fath yn parhau. Ymddengys bod y farn hon yn deillio o deimlad ymysg uwch-reolwyr, cyfranogwyr a swyddogion awdurdodau lleol bod prinder sgiliau iaith Gymraeg yn parhau i fod yn fater sydd angen sylw er mwyn galluogi ysgolion a cholegau i fedru cynyddu darpariaeth Cymraeg a dwyieithog.
- 6.3 Mae'r adolygiad wedi canfod bod cyfranogwyr a rheolwyr llinell wedi gweld deilliannau uniongyrchol ac anuniongyrchol o ganlyniad i'r Cynllun, er mai ond yn eithaf diweddar y mynychodd rhai ohonynt gwrs. Canfu'r gwaith maes hefyd dystiolaeth o newidiadau mewn arferion megis defnydd helaethach o Gymraeg achlysurol; mwy o hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn ysgrifenedig ac ar lafar; a mynd ati'n fwy systematig i fanteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol.
- 6.4 Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng y deilliannau caled a meddal a gyflwynwyd. Mae'r adroddiad hwn yn aml yn disgrifio deilliannau meddal sydd, i raddau, yn oddrychol – er enghraifft cynyddu hyder ac hunan-adrodd ar welliant mewn sgiliau. Cefnogwyd hyn gan sylwadau rhai athrawon bro a oedd yn egluro

eu bod wedi gweld cynnydd mewn sgiliau iaith Gymraeg yn ystod ymweliadau i ysgolion. Serch hynny, dylid pwysleisio na fu dadansoddiad o ganlyniadau disgyblion neu ysgolion cyn ac ar ôl i gyfranogwr fynychu'r cwrs, gan nad oedd yn fwriad cymharu cyrhaeddiad cyn ac ôl-gwrs fel mesur o draweffaith y Cynllun.

Ffactorau llwyddiant ac anawsterau

6.5 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu bod y Cynllun wedi diwallu anghenion y cyfranogwyr a'u hysgolion. Mae'r adolygiad yn tybio bod y ffactorau canlynol wedi chwarae rhan allweddol yn llwyddiant ac effeithiolrwydd y Cynllun:

- Mae'n seiliedig ar egwyddor glir – sef y syniad y dylid cynnig hyfforddiant a chefnogaeth ddwys i gyfranogwyr i'w galluogi i wella eu sgiliau Cymraeg (i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu i addysgu Cymraeg ail iaith), magu hyder wrth ddefnyddio'r iaith a chefnogi methodolegau addysgu. Mae hyn, yn ei dro, wedi ennyn diddordeb ystod eang o gyfranogwyr ac ysgolion o wahanol ardaloedd a gwahanol sefyllfaoedd.
- Mae'r holl randdeiliaid, yn gyfranogwyr, rheolwyr llinell a staff yr awdurdodau lleol yn ystyried bod yr hyfforddiant o safon uchel.
- Mae'r Cynllun wedi ei gynllunio mewn ffordd sy'n ei gwneud hi mor hawdd â phosibl i sefydliadau fanteisio arno, gyda gwaith papur syml, ac ad-daliadau am gostau cyflenwi ac unrhyw gostau cysylltiedig eraill.
- Mae'r cyrsiau yn dueddol o ddenu cyfranogwyr sydd â diddordeb mewn gwella eu Cymraeg ac o sefydliadau lle mae yna ymroddiad ymhlith yr uwch-dîm rheoli.

6.6 Er bod yr holl ymatebwyr (cyfranogwyr, rheolwyr llinell, yr awdurdodau lleol/consortia) yn croesawu'r gefnogaeth yn fawr, fe leisiodd lleiafrif o randdeiliaid bryderon ynghylch rhai agweddau o'r broses gynllunio. Mae rhai o'r pryderon hyn wedi'u hamlinellu isod.

- Yn ôl profiadau athrawon bro a swyddogion awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol, mae dal rhywfaint o ddiffyg ymwybyddiaeth o'r Cynllun, yn rhannol am fod gymaint o gystadleuaeth am sylw penaethiaid ysgolion a'i bod hi'n anodd cael negeseuon atynt.
- Cafwyd tystiolaeth o ddiffyg cynllunio ar lefel awdurdodau/ consortia mewn rhai ardaloedd a lleisiwyd pryderon gan rai awdurdodau nad oedd ganddynt y capasiti i fwrw ati i gynllunio recriwtio ac ôl-ofalaeth yn ddigonol.
- Roedd cytundeb ymysg rhanddeiliaid mai ôl-ofalaeth oedd y man gwan yn y Cynllun. Er bod y canllawiau diweddar gan Lywodraeth Cymru wedi bod o gymorth, roedd diffyg eglurder o hyd o ran dilyniant ôl-gwrs a gwaith monitro.
- Mae awydd am ragor o hyfforddiant gan y cyfranogwyr ac roedd nifer fawr yn adrodd y byddent yn dymuno dilyn cwrs pellach. Weithiau roedd y cyfranogwyr wedi rhagweld y broses o ddysgu'r iaith/gwella sgiliau iaith fel continwwm gan ddechrau gyda'r cwrs Sabothol ac yn ymestyn i gyfleoedd pellach yn dilyn hynny: mewn gwirionedd, nid yw'r Cynllun yn rhan o unrhyw lwybr o'r fath. Efallai bod y disgwyliadau neu'r dyheadau hyn yn amlygu camddealltwriaeth ymysg lleiafrif bach o gyfranogwyr ynghylch nodau'r Cynllun. Mae'r Cynllun Sabothol yn ceisio gwella sgiliau Cymraeg er mwyn cynyddu a chefnogi ansawdd darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Er bod tystiolaeth yn dangos bod y Cynllun wedi ysgogi rhai cyfranogwyr i fynychu dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion, nid yw'r Cynllun Sabothol yn gwrs iaith i'w gymharu gyda'r cyrsiau hynny.

Dulliau mesur traweffaith

- 6.7 Mae lle i gryfhau trefniadau monitro a mesur traweffeithiau'r Cynllun. Wrth gynnal gwerthusiadau o'r Cynllun Sabothol yn y gorffennol fe welwyd tuedd i ddibynnu yn helaeth ar adborth gan

gyfranogwyr sydd yn adrodd eu profiadau, eu lefel boddhad a'u defnydd o'r iaith Gymraeg yn dilyn y cwrs. Dyma'r dulliau a gymerwyd yn ystod yr adolygiad hwn a – heb os – mae'n cynnig tystiolaeth werthfawr ar sawl lefel. Mae'r pwyslais ar dystiolaeth ansoddol yn ein galluogi i adnabod nifer o lwyddiannau'r Cynllun (trwy lygaid cyfranogwyr unigol ac yng nghyd-destun eu hysgolion neu golegau) yn ogystal â'r rhwystrau a wynebwyd. Ond daw sawl ystyriaeth bwysig i'r amlwg:

- Ym mha gyd-destun y dylid mesur traweffaith y Cynllun yn y dyfodol? A ddylid parhau i ystyried traweffaith ar lefel y cyfranogydd / sefydliad unigol?
- A ddylid gosod pwyslais mwy uniongyrchol ar draweffaith y Cynllun Sabothol yng nghyd-destun Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg Lleol?
- Oes modd mesur cyfraniad y Cynllun, fel rhan o Gynlluniau Gwella Ysgolion, i godi safonau cyrhaeddiad dysgwyr?

6.8 Mae yna brosesau mewn lle i fonitro deilliannau'r Cynllun ar lefel y cyfranogydd / sefydliad. Mae modd ôl-syllu gan gyfeirio at ffurflenni cais ac adroddiadau cyn-gwrs i ddeall pa newidiadau a welwyd yn dilyn y cwrs o'u cymharu â'r amcanion gwreiddiol a nodwyd. Serch hynny, cyfres o enghreifftiau unigol o lwyddiannau/heriau'r Cynllun sydd gennym ni trwy'r dull hwn, yn hytrach na model sydd yn ein caniatáu i ystyried a thrafod traweffeithiau'r Cynllun yng nghyd-destun strategol ehangach. Teimlir bod gwaith pellach i'w wneud i ddatblygu'r fframwaith hwn yn llawn.

6.9 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn gofyn i awdurdodau fanylu ar eu *'cynllun i gefnogi defnydd strategol a systematig o gyrsiau Cynllun Sabothol iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru (pob lefel) gan athrawon o fewn eich awdurdod lleol'*. 'Strategol' a 'systematig', yn amlwg, yw'r geiriau allweddol yma.

6.10 Mae'n ofynnol, felly, i awdurdodau lleol ystyried sut y mae'r

Cynllun Sabothol yn cefnogi eu blaenoriaethau strategol ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg. Dylai awdurdodau lunio rhesymeg a meini prawf ar gyfer dewis neu dargedu cyfranogwyr mewn sefydliadau penodol. Nid yw'n glir ar hyn o bryd i ba raddau y mae'r rhan fwyaf o awdurdodau yn targedu ysgolion neu gyfranogwyr mewn ffordd sydd yn strategol ac yn gyson gydag amcanion eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg Lleol. Dylid annog awdurdodau i ystyried (a chofnodi) yr hyn y maent yn dymuno i'r Cynllun Sabothol ei gyflawni (i'r unigolyn a hefyd i'r sefydliad) er mwyn cyfrannu at y nod o wella safonau ac ehangu defnydd o'r Gymraeg. Os nad yw awdurdodau lleol – yn ogystal â cholegau addysg bellach a darparwyr addysg seiliedig ar waith – yn ystyried y cwestiynau hyn yn barod wrth gyd-weithio gyda darparwyr y cyrsiau, mae angen iddynt wneud hynny a dylai'r broses o fonitro Cynlluniau Strategol sicrhau bod hynny'n digwydd, cyhyd â phosib.

- 6.11 Hefyd, mae angen ystyried a oes ffordd mwy systematig o fesur a yw'r Cynllun wedi cyflawni'r hyn a ddymunir iddo ei wneud, gan adnabod dangosyddion ar gyfer llwyddiant y Cynllun ar lefel leol (e.e. darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn pynciau newydd / nifer oriau o Gymraeg ail iaith a ddarperir / nifer yr ysgolion sydd wedi cymryd rhan yn y Cynllun).
- 6.12 Mae angen tynhau ar y broses o gynllunio a recriwtio i'r Cynllun Sabothol, gan fynnu bod awdurdodau a chonsortia rhanbarthol yn gwneud cyswllt rhwng y rheini sydd yn mynychu'r cwrs a sut y disgwylir iddynt gyfrannu tuag at flaenoriaethau strategol lleol.

Argymhellion at y dyfodol

- 6.13 ***Targedu pwrpasol a strategol: dylai Llywodraeth Cymru annog awdurdodau lleol i adnabod dangosyddion ar gyfer llwyddiant y Cynllun sydd yn cefnogi blaenoriaethau eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.*** Un agwedd bwysig a ddaeth i'r amlwg yn yr ymchwiliad oedd y lefelau amrywiol o

dargeddu'n strategol gan yr awdurdodau lleol. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol yn defnyddio'r Cynllun Sabothol 'yn strategol a systematig' fel modd o gefnogi a gwireddu'r blaenoriaethau a bennir yn eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae hyn yn cynnwys sefydlu fframwaith monitro a mesur traweffaith sydd yn pwysleisio rôl yr awdurdod i gynnig arweiniad strategol wrth gynllunio a thargeddu cyfranogiad yn ogystal â dylanwad y Cynllun ar safonau cyrhaeddiad dysgwyr.

6.14 ***Mae angen gwella'r lefel o gyfathrebu rhwng awdurdodau lleol/consortia rhanbarthol a'i gilydd a gyda darparwyr y cyrsiau.*** Roedd enghreifftiau o arferion da o gydweithio agos ar draws consortia a rhwng awdurdodau lleol a'r darparwyr. Fodd bynnag roedd hyn yn ymddangos yn anghyson; adroddai rhai awdurdodau mai prin oedd y cyswllt gyda'r darparwyr a phrin oedd eu gwybodaeth am arferion ardaloedd eraill. Awgrymwyd rhannu astudiaethau achos o brosesau recriwtio ac ôl-ofalaeth a rhannu manylion cyswllt holl randdeiliaid y Cynllun. Mae'r bwriad i sicrhau y bydd consortia rhanbarthol yn gweithio gyda darparwyr yn y dyfodol i adnabod cyfranogwyr ar gyfer y cyrsiau Sabothol ac i ddarparu ôl-ofalaeth yn gyfle pwysig i gryfhau'r Cynllun.

6.15 ***Dylid cymryd camau pellach i godi ymwybyddiaeth ymysg penaethiaid o gyfleoedd a buddion y Cynllun Sabothol.*** Hyd yma mae galw wedi bod am y cyrsiau, ond cydnabuwyd bod nifer o'r rhai a fyddai'n gymwys ddim yn ymwybodol o'r cyfle. Roedd sawl ffactor y tu ôl i hyn, ond yn bennaf teimlwyd bod dal sylw penaethiaid yn un rhwystr allweddol. Teimlwyd y dylid cryfhau sianelau cyfathrebu a hyrwyddo a chreu mwy o ddeunyddiau marchnata ar gyfer sawl cyfrwng (e-bost, papur, cylchlythyrau ac ati). Un awgrym a gyflwynwyd oedd y dylid ystyried cyflwyno cwrs byr i benaethiaid ar y testun o ddwyieithrwydd mewn ysgolion. Mae'n bosibl y byddai cwrs o'r fath, maes o law, yn sbarduno galw pellach am leoedd ar gyrsiau gan ystod ehangach o ysgolion. Serch hynny, dylid sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau o'r fath yn gyson gydag ymdrechion i sicrhau bod

cyfranogwyr yn cael eu targedu mewn ffordd fwriadus sydd yn cefnogi Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar lefel leol.

- 6.16 ***Cryfhau a gwella ffocws y llwybrau ôl-ofalaeth.*** Roedd pryderon a / neu ddryswch am ddilyniant ar ôl y cyrsiau yn thema gyffredin drwy gydol y gwaith maes. Adroddwyd bod ôl-ofalaeth yn aml yn ddibynnol ar ymroddiad athrawon bro unigol ond bod prinder arian a chapasiti mewn sawl ardal yn rhwystro medru cynnig pecyn o ôl-ofalaeth llawn. Dylai pob awdurdod lleol sicrhau felly bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ddarparu cefnogaeth addas ac effeithiol i gyfranogwyr.

Arwyddocâd y casgliadau yng nghyd-destun y gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

- 6.17 Mae'r adrannau isod yn ystyried arwyddocâd ehangach y dystiolaeth o draweffaith y Cynllun Sabothol yng nghyd-destun y gwaith o werthuso'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae'n ymdrin â'r cwestiynau a gyflwynwyd yn Adran 2.3 yr adroddiad hwn sydd yn cysylltu'r adolygiad gyda'r Fframwaith Gwerthuso ar gyfer y rhaglen ymchwil yn fwy eang.

A yw'r prosiect wedi cyfrannu at y nod o ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg ymysg cyfranogwyr?

- 6.18 Fel y nodwyd ym Mhennod 4 yr adroddiad hwn, mae amcanion y Cynllun Sabothol yn cyfrannu'n glir at nodau strategol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Yn benodol, mae cyswllt uniongyrchol rhwng y Cynllun a Nod Strategol 4, sydd yn nodi bod '*sicrhau gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg sy'n darparu nifer ddigonol o ymarferwyr ar gyfer pob cyfnod addysg a hyfforddiant...yn hollbwysig o ran llwyddiant y Strategaeth hon*'. Nod y Cynllun yw datblygu sgiliau Cymraeg a meithrin hyder cyfranogwyr i fedru addysgu yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- 6.19 Mae'r Cynllun wedi'i deilwra er mwyn cynnig cyfleoedd i

gyfranogwyr ym mhob sector. Trwy addasu'r Cynllun a'i wneud yn berthnasol ar gyfer cyfranogwyr o'r Cyfnod Sylfaen i addysg bellach, mae cydnabyddiaeth o'r angen i ymateb i ofynion y gweithlu ar hyd y gwahanol gyfnodau addysg a hyfforddiant. Bydd elfennau eraill y gwerthusiad yn cynnig cyfle i ymchwilio unrhyw rwystrau a wynebir gan ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol wrth recriwtio ymarferwyr gyda'r sgiliau iaith Cymraeg angenrheidiol ar wahanol gyfnodau addysg statudol ac ôl-16.

6.20 Fel y nodwyd yn Adran 6.6 uchod, roedd teimlad ymysg nifer o gyfranogwyr y Cwrs Sabothol y byddent yn dymuno rhagor o hyfforddiant neu gyrsiau iaith pellach. Dylid ystyried a oes tystiolaeth o alw am hyfforddiant iaith parhaus ymysg y gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg yn fwy eang (yn ogystal â gallu'r Cynllun i ddiwallu unrhyw anghenion pellach) neu alwadau am wahanol fodelau o hyfforddiant i gefnogi sgiliau Cymraeg. Bydd y materion hyn yn derbyn sylw pellach fel rhan o elfennau eraill y rhaglen ymchwil.

Ym mha ffordd y mae'r Cynllun wedi gwella/cefnogi'r broses o gynllunio darpariaeth?

6.21 Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y Cynllun wedi galluogi ysgolion a cholegau i wella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan adnabod cyfleoedd i gyflwyno darpariaeth newydd neu i ehangu defnydd o'r Gymraeg yn achlysurol. Serch hynny, cesglir yn yr adroddiad hwn bod lle i gryfhau'r cysylltiadau rhwng y Cynllun Sabothol, Grant y Gymraeg mewn Addysg a Chynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Tra bod nifer o awdurdodau lleol wedi mesur sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr dros y blynyddoedd, gofynnwyd i bob consortiwm gynnal awdit cyson o sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu cyfredol fel rhan o waith Grant y Gymraeg mewn Addysg yn haf 2013.¹⁵ Bydd disgwyl i'r

¹⁵ Llywodraeth Cymru (2012). Grant y Gymraeg mewn Addysg 2013-14 - Canllawiau <http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/130110welshedgranten.pdf>

wybodaeth hon gael ei ddefnyddio wrth adnabod ymarferwyr i fynychu cyrsiau'r Cynllun ac er mwyn cynllunio hyfforddiant arall ar lefel lleol a rhanbarthol. Bydd elfennau eraill y rhaglen ymchwil yn ystyried sut y mae awdurdodau lleol yn cynllunio gweithgareddau i gefnogi'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus i gefnogi eu Cynlluniau Strategol.

A yw'r Cynllun yn plethu â/ategu rhaglenni eraill sydd yn gysylltiedig â'r Strategaeth?

- 6.22 Gwelwyd tystiolaeth o gysylltiadau rhwng y Cynllun Sabothol a gwaith yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd yn y sector addysg bellach. Mae Hyrwyddwyr wedi annog tiwtoriaid unigol i fynychu'r cwrs Sabothol, a hynny ar brydiau yn adlewyrchu cynlluniau colegau i ddatblygu darpariaeth mewn meysydd pwnc blaenoriaeth.
- 6.23 Gwelwyd hefyd enghreifftiau o dimau athrawon bro yn cydweithio gyda darparwyr y Cynllun Sabothol er mwyn cefnogi'r broses o recriwtio ymarferwyr i'r cyrsiau. Mae athrawon bro hefyd wedi mynychu rhannau o gyrsiau. Dengys hyn bod rhai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn awyddus i ddefnyddio'r Cynllun i ategu Cynlluniau Strategol lleol a chynlluniau i godi safonau drwy Grant y Gymraeg mewn Addysg. Bydd y rhaglen ymchwil i werthuso'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn ystyried i ba raddau y mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn adnabod cyfleoedd i ddefnyddio rhaglenni sydd yn gysylltiedig â'r Strategaeth i gefnogi'r blaenoriaethau a bennir yn eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a'u ceisiadau Grant y Gymraeg mewn Addysg.

A fyddai'r datblygiadau a welwyd mewn ysgolion a cholegau yn sgil y Cynllun Sabothol wedi digwydd beth bynnag?

- 6.24 Mae'r Cynllun Sabothol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i gyfranogwyr ddatblygu sgiliau, magu hyder a derbyn cyngor

arbenigol ar fethodolegau addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Dengys y dystiolaeth bod y Cynllun wedi gwneud gwahaniaeth i gyfranogwyr mewn ystod o ffyrdd, gan gynnwys defnydd mwy helaeth o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm ac yn achlysurol. Adroddwyd bod proffil y Gymraeg mewn ysgolion a cholegau hefyd wedi cynyddu.

- 6.25 Mae'r uchod yn codi cwestiynau ynghylch yr anawsterau sydd ynghlwm â phriodoli newid neu ddatblygiadau yn eu cyfanrwydd i un ffactor neu ymyrraeth – y Cynllun Sabothol yn yr achos hwn. Gellid casglu bod y Cynllun wedi cael effaith gadarnhaol ar sgiliau Cymraeg a defnydd o'r Gymraeg ond mae'n bwysig nodi bod cyfuniad o amgylchiadau a ffactorau eraill hefyd yn dylanwadu ar agweddau at y Gymraeg ac ethos ieithyddol sefydliadau. Mae bodolaeth y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg genedlaethol, Cynlluniau Strategol Lleol a datblygiadau cwricwlaidd (e.e. y Cyfnod Sylfaen, Bagloriaeth Cymru) yn enghreifftiau o ffactorau sydd yn medru dylanwadu ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, safonau a datblygiadau ym maes y gweithlu.
- 6.26 Wrth ymgymryd â'r rhaglen ymchwil i werthuso'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, rhaid cydnabod y cymhlethdod o ffactorau (e.e. fframweithiau newydd a gyflwynir i'r cwricwlwm, datblygiadau polisi addysg ehangach, lefel y galw am addysg Gymraeg yn lleol, polisiau a rheolaeth mewnol ysgolion, cyd-destun ieithyddol lleol) sydd yn bodoli ac sydd yn gorgyffwrdd. I ba raddau y mae'r gwahanol ffactorau hyn yn cefnogi neu'n dylanwadu ar ei gilydd? A oes dystiolaeth bod cyfuniadau o ffactorau yn helpu gwireddu nodau ac amcanion y Strategaeth? Sut y mae hyn yn amrywio yn ôl y cyd-destun lleol? Mae'r cwestiynau hyn yn cyflwyno themâu ehangach y byddwn yn dychwelyd atynt wrth fynd ati i archwilio elfennau eraill y rhaglen ymchwil.

Atodiad 1: Ystadegau mewn perthynas â'r arolwg o gyfranogwyr

Nodyn ar y sampl

Roedd 324 o gyfranogwyr wedi mynychu cyrsiau'r Cynllun ar bob lefel yn ystod y cyfnod dan sylw (Ionawr 2011-Rhagfyr 2012). Bwriadwyd yn wreiddiol gwahodd pob un o'r cyfranogwyr i lenwi holiadur ar-lein. Serch hynny, nid oedd cyfeiriadau e-bost cyfredol ar gael i 56 o gyfranogwyr ar y rhestr a gafwyd gan Lywodraeth Cymru. Anfonwyd e-bost ar y 19eg a'r 20fed o Chwefror 2013 at 268 o gyfranogwyr. Methwyd cyrraedd 43 o'r 268 drwy eu cyfeiriadau e-bost, ond ail anfonwyd at gyfeiriad cyffredinol eu hysgolion neu drwy wefan yr ysgol mewn 41 o'r achosion hynny. Roedd dau ohonynt, felly, wedi'u colli o'r sampl.

Fe allai hyd at 266 fod wedi derbyn yr e-bost yn eu gwahodd i gymryd rhan. Erbyn y 4ydd o Fawrth roedd 70 wedi ateb, felly penderfynwyd anfon nodyn atgoffa at y gweddill. Dechreuodd 162 ateb yr holiadur ond ni wnaeth pedwar ohonynt basio'r dudalen gyntaf (sef manylion cefndirol). Gwnaeth 158 ateb y cyfan neu bron bob cwestiwn. Y canran ymateb felly yw 59.4% (sef 158/266).

Lefel y cwrs

Tabl 1a: Cyfranogwyr ar y cyrsiau Sabothol rhwng Ionawr 2011 – Rhagfyr 2012 ac ymatebwyr i'r arolwg

Lefel	Nifer y cyfranogwyr	Canran o'r holl gyfranogwyr	Canran yr ymatebwyr	Nifer
Lefel uwch	115	35.5%	43%	68
<i>Lefel uwch - cwrs bloc</i>	69	21.2%	28.5%	45
<i>Lefel uwch - dysgu o bell</i>	16	5.0%	3.8%	6
<i>Lefel uwch - cwrs byr</i>	30	9.3%	10.8%	17
Lefel sylfaen	113	34.9%	40.5%	64
Lefel mynediad	96	29.6%	16.5%	26
	n=324			n=158

Ffynonellau: data Llywodraeth Cymru ac arolwg cyfranogwyr

O gymharu hyn gyda'r niferoedd a fynychodd gyrsiau yn y cyfnod Ionawr 2011 i Ragfyr 2012, gwelir bod cyfranogwyr y lefel mynediad wedi eu tangynrychioli yn yr atebion, er dylid nodi mai ymysg y grŵp yma oedd y nifer fwyaf o fylchau mewn manylion cyswllt.

Sector

Roedd mwyafrif y cyfranogwyr a fu'n rhan o'r arolwg o'r sector cynradd fel y gwelir o'r data yn y tabl isod. Cyfranogwyr o'r sector cynradd yn unig sydd yn mynychu'r cyrsiau lefel sylfaen a mynediad. Ceir traws-doriad o gyfranogwyr o wahanol sectorau yn mynychu'r cwrs uwch, a nodir yr ymatebwyr fesul sector yn Nhabl 4 yr adroddiad hwn.

Tabl 2a: Nifer yr ymatebwyr i'r holiadur fesul sector (holl gyrsiau)

Ym mha fath o sefydliad ydych chi'n gweithio? (Ymatebwyr yr holiadur)		
Sector	Canran	nifer
Ysgol gynradd	77.2%	122
Ysgol uwchradd	7.6%	12
Coleg	13.3%	21
Dysgu seiliedig ar waith	1.9%	3
		n=158

Ffynhonnell: arolwg cyfranogwyr

Lleoliad y cwrs

Cafwyd ymatebion gan gyfranogwyr o bob lleoliad, gyda lledaeniad yr ymatebion yn cyfateb yn fras i'r niferoedd a fynychodd gyrsiau yn y lleoliadau hynny.

Tabl 3a: Nifer yr ymatebwyr i'r holiadur fesul lleoliad y cwrs

Lleoliad eich cwrs		
Opsiynau Ateb	canran	nifer
Bangor	10.1%	16
Caerdydd	22.8%	36
Caerfyrddin	17.7%	28
Coleg Powys	3.2%	5
Aberystwyth	8.9%	14
Coleg Gwent	2.5%	4
Morgannwg	10.1%	16
Coleg Llysfasi	7.6%	12
Abertawe	7.6%	12
Coleg Glannau Dyfrdwy	9.5%	15
		n=158

Ffynhonnell: arolwg cyfranogwyr a data Llywodraeth Cymru

Atodiad 2 – Yr holiadur

EICH BARN AR Y CYNLLUN SABOTHOL

Mae gwerthusiad ar y gweill o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg - cynllun y buoch chi yn rhan ohono yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fel rhan o'r gwerthusiad rydym yn awyddus i glywed eich barn a byddwn yn ddiolchgar pe allech gwblhau'r holiadur hwn, a ddylai gymryd ryw 5 munud.

Mae'r arolwg yn cael ei gynnal ar ran Llywodraeth Cymru gan gwmni ymchwil Arad. Os hoffech fanylion pellach yna cysylltwch â [REDACTED] ar [REDACTED] neu [REDACTED]. A fydddech cystal â dychwelyd eich atebion erbyn dydd Gwener y 15fed o Fawrth? Bydd yr holl ymatebion yn cael eu trin yn gwbl gyfrinachol a ni fyddwn yn eu rhannu gydag unrhyw drydydd parti. Diolch yn fawr iawn.

YOUR VIEWS ON THE SABBATICALS SCHEME

An evaluation is underway of the Welsh Language Sabbaticals scheme, a programme you took part in during recent years. As part of this evaluation we are keen to hear your views and would be grateful if you could take the time to complete this questionnaire, which should take no more than 5 minutes.

The review is being carried out on behalf of the Welsh Government by Arad Research. If you require further information please contact [REDACTED] at Arad on [REDACTED]. Please note that the closing date for submission of responses is Friday 15th of March. Your response will be treated in the strictest confidence and no details will be forwarded to third parties. Thank you very much.

1. Eich enw / Your name

2. *Ym mha fath o sefydliad ydych chi'n gweithio? In which type of school or institution do you work?

Ysgol gynradd / Primary school

Ysgol uwchradd / Secondary school

Coleg / College

Dysgu seiliedig ar waith / Work based learning

Arall (nodwch isod) / Other (please specify)

3. Lleoliad eich cwrs / Location of your course

Bangor

Caerdydd / Cardiff

Caerfyrddin / Carmarthen

Coleg Powys / Powys College

Aberystwyth

Coleg Gwent / Gwent College

Morgannwg / Glamorgan

Coleg Llysfasi / Llysfasi College

Abertawe / Swansea

Coleg Glannau Dyfrdwy / Deeside College

- 4. Beth oedd lefel y cwrs? / At what level was the course?**
 Lefel uwch - cwrs bloc / Higher level - block course
 Lefel uwch - dysgu o bell / Higher level - distance learning
 Lefel uwch - cwrs byr / Higher level - short course
 Lefel sylfaen / Foundation Level
 Lefel mynediad / Entry Level
- 5. Beth wnaeth eich cymell i gymryd rhan yn y Cynllun Sabothol? (ticiwch bob un sy'n berthnasol) What prompted you to take part in the Sabbatical Scheme? (tick all that apply)**
 Penderfyniad personol (wedi gweld hysbyseb ayb) / Personal decision (having seen a notice etc)
 Anogaeth gan reolwr llinell / Encouragement from line manager
 Anogaeth gan ymgynghorwyr addysg neu athrawon bro'r sir / Encouragement from county education advisers or athrawon bro
 Cyfrifoldebau newydd / New responsibilities
 Nodwch sylwadau i gefnogi eich ateb / Please provide comments to support your answer
- 6. Pa baech wedi cael dewis, pa strwythur cwrs fyddai wedi bod orau gennych? Given the choice, which type of course would you have preferred?**
 Cwrs bloc – drwy'r dydd bob dydd am gyfnod / Block course - daily course over a period of time
 Diwrnod neu ddau yr wythnos dros gyfnod penodol / A day or two a week over a period of time
 Cwrs ar-lein, gyda thiwtor yn ymweld yn achlysurol / On-line course with occasional visits from a tutor
 Cwrs cyfunol, gyda rhai elfennau preswyl a gwaith ar-lein o bell / Combined course with some residential elements alongside on-line learning
 Dosbarth wythnosol wedi ei gynnal yn yr ysgol neu'n lleol e.e. ar ôl oriau ysgol
 Cyfres o weithdai ac aseiniadau ar themâu penodol / A series of workshops and assessments on particular themes
- 7. Sawl awr o addysgu cyfrwng Cymraeg/dwyieithog oeddech chi yn eu darparu CYN MYNYCHU'R cwrs Sabothol? How many hours of Welsh/bilingual teaching did you deliver BEFORE ATTENDING the Sabbaticals course?**
 Oriau cyfartalog bob wythnos (neu nodwch unrhyw fanylion pellach) / Average hours per week (or note any further details):
- 8. Sawl awr o addysgu cyfrwng Cymraeg/dwyieithog ydych chi'n eu darparu, ERS CWBLHAU'R cwrs Sabothol? How many hours of Welsh/bilingual teaching do you deliver now, SINCE COMPLETING the course?**
 Oriau cyfartalog bob wythnos (neu nodwch unrhyw fanylion pellach) / Average hours per week (or note any further details):
- 9. Nodwch yn y blwch isod unrhyw gynnydd neu newidiadau eraill ers cwblhau'r cwrs, er enghraifft gwneud mwy o ddefnydd**

o Gymraeg achlysurol neu ddefnyddio Cymraeg mwy cywir. Please use the box below to record any further progress or changes since completing the course, for example an increased use of occasional Welsh or more correct use of Welsh.

10. *Sut byddech yn graddio'r agweddau hyn o'r Cynllun? How would you rate the following aspects of the Scheme?

Gwych/Excellent Da/Good Gweddol/Fair Gwael/Poor
Amherthnasol/NA

Y cyfle i ddatblygu sgiliau iaith / The opportunity to improve Welsh-language skills

Y cyfle i ddysgu terminoleg arbenigol / The opportunity to acquire specialist terminology

Hyfforddiant ar fethodolegau addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog / Training on using Welsh-medium and bilingual teaching methodologies
Cefnogaeth ar ôl y cwrs (e.e mentora, cefnogaeth gan athrawon bro neu gan yr ysgol) / Post-course support (e.g mentoring, support from the school or from athrawon bro)

Y cyfle i gyflwyno sesiynau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog o flaen y grŵp / The opportunity to deliver Welsh or bilingual sessions in front of a group

Y cyfle i baratoi adnoddau / The opportunity to prepare resources

Nodwch sylwadau i gefnogi eich ateb / Please provide comments to support your answer

11. Amlinellwch pa adnoddau a gynhyrchwyd gennych ar y cwrs a nodwch sut y mae'r rhain yn cael eu defnyddio (os yn berthnasol). Outline the teaching resources you produced whilst on the course and note how these are utilised or note if not relevant).

12. Ydy eich sefydliad yn parhau i gefnogi eich datblygiad parhaus addysgu iaith Gymraeg / dwyieithog? Does your institution continue to support your on-going development of Welsh language / bilingual teaching?

Ydy yn gryf / Yes, strongly

Ydy i raddau / Yes, to an extent

Nac ydy / No

Ddim yn gwybod / Don't know

Nodwch sylwadau i gefnogi eich ateb / Please provide comments to support your answer

13. A ydych chi wedi wynebu unrhyw rwystrau wrth ddefnyddio eich sgiliau Cymraeg ers cwblhau'r cwrs? Have you encountered any barriers to utilising your Welsh language skills since completing the course?

Yes / No

14. Ydy'r canlynol wedi eich rhwystro chi rhag defnyddio eich sgiliau ers cwblhau'r cwrs? (Ticiwch bob un sy'n briodol) Have any of the following been a barrier to utilizing your new skills since completing the course? (Please tick all that apply).

Diffyg hyder yn fy sgiliau Cymraeg / Lack of confidence in my Welsh language skills

Diffyg cyfleoedd o fewn fy sefydliad / Lack of opportunities within my workplace

Diffyg amser i baratoi sesiynau / Lack of time to prepare sessions

Diffyg cefnogaeth / Lack of support

Arall (nodwch fanylion os gwelwch yn dda) / Other (please specify)

15. Oes angen mwy o hyfforddiant neu gefnogaeth arnoch? Do you need further training or support?

Oes / Yes

Nac oes / No

Os ateboch 'oes', nodwch pa fath neu lefel / If 'yes' please note what type or level

16. Diolch i chi am gwblhau'r holiadur hwn. Fel rhan o'r adolygiad efallai byddwn yn cysylltu â chi gydag ychydig yn rhagor o gwestiynau - a ydych yn fodlon i ni gysylltu â chi?

Thank you for completing this questionnaire. We may wish contact you with a few further questions - would you be willing for us to get in touch?

Ydw / Yes

Nac ydw / No

17. Os ateboch 'ydw' - sut ddylwn gysylltu â chi? If 'yes', how should we contact you?

Rhif ffôn neu ebost / Email or 'phone number

Cliciwch 'Anfon' i orffen ac i gyflwyno'ch atebion / Click 'Submit' to finish and submit your responses.

Atodiad 3: Astudiaethau Achos

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y cyfweiliadau gyda chyfranogwyr yn cael ei hystyried yng nghorff yr adroddiad. Caiff nodyn byr o brofiadau'r unigolion ei gyflwyno yma.

Cyfranogydd 'A', athro ysgol uwchradd wedi mynychu'r cwrs uwch bloc

- **20** awr o addysgu cyfrwng Cymraeg/dwyieithog cyn y cwrs; **25** awr ar ôl y cwrs.

Athro Bioleg yw 'A' a bellach yn addysgu gwyddoniaeth yn gyfan gwbl drwy'r Gymraeg - o flwyddyn 7 hyd at Safon Uwch. Mae'n dysgu ers 20 mlynedd. Mae tua 550 o blant yn yr ysgol. Saesneg yw iaith yr ysgol ond mae ffrwd Gymraeg ac erbyn hyn mae traean o blant blwyddyn 7 yn y ffrwd Gymraeg yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Hwn o'i gymharu â chwarter o ddisgyblion presennol blwyddyn 11. O ran y staff mae hyd at hanner yn deall Cymraeg o leiaf.

Penderfyniad personol oedd mynychu'r cwrs. Roedd yn dysgu rhywfaint trwy'r Gymraeg ynghynt, ond roedd yn awyddus i wella ei Gymraeg ac i fod yn fwy hyderus wrth ysgrifennu. Cafodd ei addysg drwy'r Saesneg yn yr 80au ac er ei fod yn siarad yr iaith yn rhugl, roedd e'n teimlo bod angen mwy o wybodaeth arno am strwythur a gramadeg y Gymraeg. Roedd e wedi siarad gyda rhywun yn y gorffennol oedd wedi mynychu'r cwrs, ond hefyd roedd posteri yn hysbysebu'r cyfleoedd yn yr ysgol yn ogystal â nifer fawr o e-byst yn dod o'r sir trwy'r tîm rheoli.

Roedd yn meddwl bod y cwrs yn 'ardderchog ym mhob agwedd' o ran cynnwys a thiworiaid. Mae'n llawer mwy ymwybodol erbyn hyn lle mae pobl yn baglu yn ieithyddol. Mae ei sgiliau iaith wedi gwella, ac mae'n llawer mwy hyderus yn enwedig yn ysgrifenedig. Mae e'n gweld mantais fawr i ddwyieithrwydd, ac yn gweld yr effaith ar unigolion. Mae'n rhy gynnar i ddweud os yw'r cwrs wedi cael dylanwad ar lefel cyrhaeddiad y disgyblion.

Cynigiodd y tiwtoriaid ail ymweld ag ef yn yr ysgol ond dyw e heb gysylltu nôl a'r coleg. Mae wedi derbyn tipyn o gefnogaeth gan dîm rheoli'r ysgol gan eu bod yn ymwybodol o bwysigrwydd dwyieithrwydd yr ysgol. Mae angen mwy o ddarpariaeth Gymraeg yn yr ysgol i ateb y galw.

Mae'n gweld bod adnoddau Cymraeg yn brin. Modd gweld lot o stff ar YouTube yn Saesneg, ond ddim yn Gymraeg yn anffodus.

Ar gyfer y dyfodol mae'n ystyried cwblhau cwrs gradd yn y Gymraeg gan ei fod wedi ennill nifer o gredydau wrth ddilyn y cwrs uwch. Teimlo'n bositif iawn ar ôl mynychu'r cwrs.

Cyfranogydd 'B', athrawes ysgol uwchradd wedi mynychu'r cwrs uwch byr

- **0** awr o addysgu cyfrwng Cymraeg/dwyieithog cyn y cwrs; **0** awr ar ôl.

Mae B yn bennaeth adran Saesneg mewn ysgol Gymraeg ers 2003 ond yn dysgu yn yr ysgol ers 1995.

Roedd B wedi astudio peth Cymraeg yn yr ysgol ac fe ddysgodd Gymraeg yn oedolyn. Ei chymhelliant am fynychu'r cwrs oedd ei bod hi eisiau datblygu ei gyrfa, ac awgrym y Brifathrawes oedd mynychu'r cwrs fel ei bod hi'n ymdopi'n well gyda dyletswyddau yn ymwneud â'r uwch dîm yn yr ysgol. Roedd hi'n ddihyder yn ysgrifenedig cyn y cwrs.

61

Roedd hi wedi mwynhau'r cwrs yn fawr ac yn dipyn gwell nag oedd hi'n ei ddisgwyl. Teimlodd bod lefel yr iaith ar y cwrs yn uchel, tra bod sgiliau Cymraeg y cyfranogwyr yn amrywio yn sylweddol. Serch hynny, teimla ei bod hi wedi llwyddo i ddilyn cynnwys y cwrs a bod ei dealltwriaeth a gramadeg wedi gwella'n fawr. Roedd y gwaith cartref wedi'i strwythuro'n benodol ar gyfer pob myfyriwr, ac ambell dro roedd tasgau yn uniongyrchol ar y gwaith roeddent yn ei wneud yn yr ysgol ar y pryd, felly roedd yn ddefnyddiol ac yn ymarferol.

Byddai wedi hoffi mwy o amser, cwrs hirach, a dilyniant ers cwblhau'r cwrs. Mae'n dysgu Saesneg drwy'r Saesneg, ond yn cael cyswllt yn Gymraeg gyda'r plant yn y dosbarth cofrestru, trwy addysgu ar y cwrs y Bac Cymreig, a chwrs PISA ers cwblhau'r cwrs Sabothol. Mae hi hefyd yn rheoli staff yr adran ac yn cydlynu gweithgareddau disgyblion. Mae wedi cymryd dyletswyddau rheoli ychwanegol ers cwblhau'r cwrs.

O ran sgiliau mae dipyn yn fwy hyderus ar lafar ac yn ysgrifenedig ers dilyn y cwrs. Gwneud cyflwyniadau i staff yr ysgol erbyn hyn.

Mae modd cadw mewn cysylltiad â'r tiwtoriaid dros e-bost, ond heb wneud gan ei bod yn derbyn llawer iawn o gefnogaeth oddi wrth yr adran Gymraeg - sy'n hapus i gynnig cyngor iddi a chywiro a golygu ei gwaith ysgrifenedig pan fo angen. Hefyd yn defnyddio meddalwedd arbennig i'w helpu gyda'i gwaith.

Mae'n rhwystredig ar adegau gyda threigladau, ac yn tueddu i anghofio'r rheolau - byddai'n hoffi cwrs *refresher* bob hyn a hyn. Hoffai bwysleisio ei bod yn ddiolchgar dros ben o gael y cyfle i fynychu'r cwrs. Wedi gwneud gwahaniaeth mawr iddi. Dyw hi byth yn poeni mewn cyfarfodydd erbyn hyn achos mae'n deall popeth sy'n mynd ymlaen ac yn gallu cyfrannu yn hyderus.

Cyfranogydd 'C', athrawes ysgol uwchradd mewn ysgol cyfrwng

Saesneg, wedi mynychu'r cwrs uwch bloc

- 4 awr o addysgu cyfrwng Cymraeg/dwyieithog cyn y cwrs; nawr yn defnyddio Cymraeg a Saesneg ym mhob gwrs.

Pennaeth ieithoedd modern mewn ysgol cyfrwng Saesneg yw C, lle mae tua hanner y staff yn Gymry Cymraeg. Dysgodd Gymraeg ar gwrs WLPAN.

Roedd ganddi gyfrifoldeb dros ddwyieithrwydd yn ei swydd flaenorol, ac fe wnaeth hi beilota cwrs NVQ Cymraeg ail iaith yn ei hysgol flaenorol.

Gweld hysbyseb yn ystafell yr athrawon wnaeth C, ac iddi hi'r apêl oedd cael ffocws ar iaith broffesiynol ac iaith yr ysgol a sut i siarad gyda rhieni a staff.

Meddyliai bod y cwrs yn arbennig o dda. Cwrs bloc 3 mis yn llawer iawn gwell na dysgu Cymraeg unwaith yr wythnos. Roedd y tiwtoriaid yn dda. Pedwar person oedd ar y cwrs, a phob un ohonynt ag anghenion gwahanol - C ar y gramadeg a'r lleill ar siarad. Rhoddodd y tiwtoriaid waith ysgrifenedig gwahanol iddynt yn dibynnu ar eu hanghenion a'u diddordebau. Mae'n credu y dylai'r cwrs fod yn orfodol i bawb gan gynnwys prifathrawon ac uwch staff sydd ddim yn dod o Gymru.

Ers cwblhau'r cwrs, mae'n addysgu dwy ferch yn ei dosbarth TGAU Almaeneg sy'n dysgu siarad Cymraeg, ac mae C yn gwneud tipyn o waith trwy gyfrwng y Gymraeg gyda nhw. Mae'n hoffi sialens wrth ddysgu plant. Mae'n annog plant yn y dosbarth i wneud pethau yn ddwyieithog e.e. blwyddyn 7 Ffrangeg, ac y mae'r plant yn ymateb yn bositif iawn. Mae hefyd yn hybu'r Gymraeg ym mhob dosbarth Ffrangeg ac Almaeneg.

Mae nawr yn gallu dilyn pob sgwrs yn y Gymraeg gyda'r staff Cymraeg, yn anffurfiol ac yn broffesiynol. Mae'n teimlo'n fwy o ran o gymuned yr ysgol. Fel ieithydd mae'n mwynhau gramadeg, ac wedi dilyn y cwrs mae'n deall mwy am reolau'r Gymraeg. Mae'r cwrs wedi helpu gyda'i gallu ysgrifenedig.

Mae wedi cael cynnig i gysylltu â'r Brifysgol dros e-bost ond heb wneud eto. Mae'r prifathro yn gefnogol a'r staff Cymraeg yn hapus iawn i siarad yn Gymraeg gyda hi, er y byddai'n hoffi cael mwy o hyfforddiant.

Cyfranogydd 'Ch', athrawes ysgol uwchradd, wedi mynychu'r cwrs uwch byr

➤ 21 awr cyn; 21 awr ar ôl.

Athrawes ymarfer corff mewn ysgol cyfrwng Cymraeg yw Ch a diffyg hyder yn ei Chymraeg oedd ei chymhelliant i fynychu'r cwrs. Er ei bod wedi bod trwy addysg Gymraeg fel disgybl, doedd hi ddim yn hyderus wrth siarad nac ysgrifennu Cymraeg. Treuliodd nifer o flynyddoedd yn dysgu mewn ysgol cyfrwng Saesneg cyn y swydd hon. Teimlai bod arni angen dysgu rheolau'r Gymraeg. Roedd athrawon eraill wedi gwneud y cwrs yn y gorffennol, ac yr oedd rhestr aros yn yr ysgol o athrawon oedd am fynd ar y cwrs.

Disgrifiodd y cwrs fel 'cwrs gwych gyda thiworiaid arbennig oedd yn egluro'n dda'. Roedd yn hawdd iawn gofyn cwestiynau iddynt ac roedd Ch yn teimlo'n gyffyrddus yn eu cwmni. Wedi mwynhau a dysgu cymaint.

Mae'n llawer iawn mwy hyderus erbyn hyn wrth farcio gwaith y plant - nid yn unig y cynnwys ond y Gymraeg hefyd. Dyw hi ddim yn poeni wrth siarad ag athrawon eraill, ac yn ffeindio ei hunan yn cywiro nid yn unig iaith y plant, ond ei hiaith ei hunan wrth iddi siarad. Mae hi nawr yn pwyntio pethau mas i athrawon eraill yn ogystal - a disgrifia hyn fel effaith 'ricochet' y cwrs. Mae hi'n argyhoeddiedig bod hyn wedi cael effaith ar sgiliau iaith Gymraeg y plant.

Ar ôl gorffen y cwrs mae'n deall ei bod yn gallu cysylltu â'r tiwtoriaid ond ddim wedi gwneud. Mae cwrs gloywi iaith ar e-bost yn yr ysgol, ac mae'n dilyn hwnna. Mae hefyd yn gofyn i aelod o'r adran Gymraeg edrych dros ei gwaith ysgrifenedig os ydy hi am anfon rhywbeth allan, ond wedi cael adborth i ddweud mai ychydig iawn o olygu sydd angen ar ei gwaith erbyn hyn. Wedi dweud hynna mae'n teimlo y bydd hi angen ryw fath o gwrs arall i atgyfnerthu. Ar lefel bersonol mae ganddi ddau o blant ei hunan ac yn credu eu bod nhw hefyd wedi elwa ers iddi fod ar y cwrs.

Cyfranogydd 'D', athrawes ysgol gynradd, wedi mynychu'r cwrs sylfaen

➤ 1 awr cyn; 4 a thri chwarter ar ôl.

Athrawes blwyddyn 1, rhan amser, yw D ac mae wedi bod yn ei swydd bresennol ers 1989.

Does neb yn siarad Cymraeg yn yr ysgol ond mae'r holl staff wedi bod ar gwrs Cymraeg y sir. Mae'r rhan fwyaf yn deall rhywfaint o Gymraeg. Clywodd am y cwrs gan ei phennaeth.

Pennaeth yr ysgol a awgymrodd y cwrs iddi: *'my Head teacher mentioned the course and when I looked into it I was excited at the possibilities and the professional development opportunities. I was given support and encouragement from the Head and the Athrawon Bro team'*.

Roedd y cwrs yn rhagorol meddai ond yn cynnwys llawer o waith caled. Roedd y tiwtoriaid i gyd yn gefnogol iawn. Roedd y cwrs yn dysgu Cymraeg i'r criw ond nid oedd yn eu dysgu i addysgu Cymraeg yn yr ysgol. Yr agwedd orau oedd gallu cymryd tymor cyfan i ffwrdd o'r ysgol a medru canolbwyntio'n llwyr ar y cwrs.

Adroddodd D bod y cwrs wedi cael effaith arni a'i bod nawr eisiau siarad Cymraeg gyda phawb, ond gan fod pawb yn yr ysgol i gyd ar yr un math o lefel, mae'n anodd iawn, ond hoffai wneud mwy.

Mae'n addysgu llawer mwy drwy gyfrwng y Gymraeg nag oedd cyn y cwrs a bellach yn deall

treigladau a llawer mwy o ramadeg Cymraeg. Teimlai bod cynnydd wedi bod yn ei chyfraniad yn yr ysgol. Eglurodd yn ei hymateb i'r holiadur, 'I use far more incidental Welsh in school. I use a far wider range of sentence patterns. I attend an evening class at Canolradd level and go to join in with Welsh conversation activities on a regular basis'. Hoffai feddwl ei bod wedi cael effaith ar lefel cyflawniad disgyblion, ond mae'n anodd iawn mesur.

Nid yw wedi cael unrhyw gefnogaeth gan ei hathrawes fro. Pan ofynnodd, dywedodd yr athrawes fro nad oeddent wedi cael gwybod y dylent roi cymorth i'r rhai a oedd wedi bod ar y cwrs. Mae'n mynychu dosbarth nos wythnosol ond mae'n ei chael yn anodd ar ôl diwrnod yn yr ysgol, er ei fod yn help i fagu hyder. Byddai cyrsiau byr dilynol yn fuddiol meddai, yn enwedig petai cyfle i dderbyn cefnogaeth bellach neu ddigwyddiadau rheolaidd gyda'r un grŵp o bobl a oedd ar y cwrs.

Cyfranogydd 'Dd', Dirprwy brifathro cynradd bellach wedi ymddeol, wedi mynychu'r cwrs sylfaen

- **1.5 awr cyn; 2 awr ar ôl (am dymor cyn ymddeol)**

Dirprwy brifathro sydd newydd ymddeol ar ôl 22 mlynedd mewn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg o tua 100 o blant yw Dd. Roedd ei bennaeth ac un athro arall yn gallu siarad tipyn o Gymraeg.

Ei gymhelliant oedd diddordeb yn yr iaith a chafodd anogaeth gan yr Athrawes Fro. Roedd eisoes wedi bod ar gyrsiau penodol i ddydsu rhai testunau trwy gyfrwng y Gymraeg ac wedi astudio cwrs lefel O yn y Gymraeg flynyddoedd yn gynharach.

Fe wnaeth 'fwynhau'r cwrs mas draw', ond roedd o'r farn bod y cymysgedd o alluoedd ymhlith y rhai oedd yn mynychu'r cwrs yn rhwystr, yn enwedig ar y dechrau. Roedd rhai yn ddechreuwr pur tra bod gan eraill gryn dipyn o ddealltwriaeth o'r iaith, ac un person hyd yn oed wedi pasio lefel A yn y Gymraeg. O'r dechrau ni wnaed unrhyw wahaniaeth rhwng pobl o wahanol alluoedd, er roedd y tiwtoriaid yn gefnogol iawn o bawb drwy'r amser.

Mae wedi ennill llawer iawn o hyder ers cwblhau'r cwrs, ac wedi gwneud cais am swyddi rhan-amser pan fyddant yn dweud bod rhywfaint o wybodaeth o'r Gymraeg yn ddymunol - ni fyddai wedi gwneud hyn cyn y cwrs. Yn dilyn y cwrs mae wedi cael cynnig swyddi addysgu cynorthwyol drwy asiantaeth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, ond hyd yn hyn mae wedi eu gwrthod gan ei fod yn dymuno cwblhau cwrs canolradd Gymraeg yn y coleg lleol yn gyntaf.

Ar ôl dychwelyd i'r ysgol roedd cynnydd yn nifer yr oriau roedd yn eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, cyfrannodd at ddwyieithrwydd yr ysgol trwy newid yr holl arwyddion Saesneg yn yr ysgol i rai dwyieithog, cyflwynodd eiriau Cymraeg mewn cyfarfodydd staff, bu'n gymorth i aelodau staff gyda gramadeg a bu'n arwain ei holl wasanaethau boreol yn y Gymraeg ar ôl y cwrs. Nid yw'n credu bod ei bresenoldeb ar y cwrs wedi cael effaith ar y disgyblion lefel cyrhaeddiad, ond mae'n credu bod agwedd disgyblion tuag at y Gymraeg wedi newid. Ond dim ond am dymor y bu nôl yn dysgu yn yr ysgol cyn ymddeol. Mae'n gobeithio y bydd athrawon eraill yn yr ysgol yn cael cyfle i fynd ar y cwrs.

Roedd yr ôl ofalaeth yn dda. Roedd athrawes fro yn dod mewn i'r ysgol bob 2 wythnos ac yn darparu llawer iawn o gymorth. Roedd hi hefyd yn un o'r tiwtoriaid ar y cwrs. Roedd y pennaeth yn gefnogol iawn.

Roedd y cwrs yn ddwys iawn ac yn heriol ac yn gofyn llawer o'r rheini ar y cwrs. Gosodwyd gwaith cartref bob dydd. Roedd llawer o'r gwaith yn waith grŵp, ac arweiniodd hyn at ffilmio dwy wers gan bawb. Mae hyn oll wedi helpu ei sgiliau iaith a'i hyder, ond ei fod wedi mewn gwirionedd wedi blino erbyn y diwedd!

Cyfranogydd 'E', Prifathro cynradd, wedi mynychu'r cwrs sylfaen

- 1 awr cyn; 0-1 ar ôl (bellach yn bennaeth nad yw'n addysgu)

Prifathro mewn ysgol gynradd gyda 122 o blant yw E. Mae'r ardal yn un Seisnigaidd iawn ac nid oes unrhyw siaradwyr Cymraeg ar y staff. Mae dau o'r athrawon wedi mynychu cwrs sabothol a 3 yn mynychu dosbarthiadau nos. Mae'r ymgynghorydd iaith hefyd yn cynnal sesiynau wythnosol i'r athrawon ar ôl ysgol.

Roedd ef wedi clywed am eraill oedd wedi bod ar y cwrs a'i gymhelliant oedd eisiau gwella ei sgiliau iaith. Er nad oes llawer iawn o Gymraeg ganddo mae ei rieni yn siaradwyr Cymraeg.

Roedd y cwrs yn dda iawn, ond nid yw'n hawdd, ac mae'n sicr wedi gwella ei Gymraeg. Byddai wedi gwerthfawrogi mwy o amser ar y cwrs. Roedd y tiwtoriaid yn dda iawn, ond nododd nad oedd rhai o'r myfyrwyr yn cydweld â'r holl diwtoriaid.

Bu newidiadau yn ei ddefnydd o'r Gymraeg, yn enwedig Cymraeg achlysurol e.e. gwasanaethau. Mae'n llawer mwy ymwybodol o'r iaith nawr. Mae'n credu bod y plant yn elwa ac eglurodd ei fod nawr yn gallu adnabod lefel 5 ac yn gallu cyfrannu at helpu'r disgyblion gyrraedd y lefel hon. Eglurodd hefyd yn yr holiadur bod, 'far more incidental Welsh and supportive influence on my school staff - I've been able to encourage one member of my staff to do the sabbatical and a further 4 members of staff to enrol on Welsh courses (evenings/ after school)'.

O ran ôl-ofalaeth eglurodd bod ganddynt ymgynghorydd rhagorol sy'n helpu gydag adeiladu sgiliau yn yr ysgol. Daeth grŵp o'r cwrs sabothol ato i arsylwi ei addysgu ond ni fu unrhyw gyswllt uniongyrchol eraill. Awgrymodd y Sir gynllun o efeillio ysgolion Saesneg ac ysgolion Cymraeg; ddaeth dim byd ohono yn anffodus.

Credai y byddai cwrs i bennaethiaid wedi bod yn ddefnyddiol iawn. Yn y dyfodol byddai'n hoffi petai yna gyrsiau gloywi undydd bob hyn a hyn gydag aelodau o'r grŵp gwreiddiol.

Cyfranogydd 'F', Athrawes ysgol gynradd rhan amser, wedi mynychu'r cwrs sylfaen

- 1.5 awr cyn; 1.5 ar ôl, ond yn adrodd bo mwy o hyder a sgiliau uwch

Athrawes ran amser blwyddyn 5 yw F ac mae'n arwain ar y pynciau ymarfer corff a Chymraeg yn yr ysgol. Mae 180 o blant yn yr ysgol ond neb arall ar y staff yn medru'r Gymraeg. Mae llawer iawn o Gymraeg achlysurol yn yr ysgol, ond yr athrawon yn ddihyder iawn.

Roedd hi'n awyddus iawn i wneud y cwrs sylfaen, a bu ar gwrs dysgu Cymraeg yn Llanbed 20 mlynedd ynghynt. Eglurodd ei chymhelliant fel, 'I became the coordinator and realised I wouldn't be able to achieve Level 5 in the school unless I improved myself'.

Disgrifiodd y cwrs fel un ardderchog, er credai bod rhai o'r tasgau yn dasgau yn ddibwynt ac amherthnasol. Roeddynt yn grŵp cymysg o 3 o athrawon iau a 9 o athrawon babanod / meithrin a daeth hyn yn dipyn o broblem wrth fwrw ati i greu sampl o ddwy wers gan bob aelod o'r grŵp. Byddai'n well os yw pob grŵp yn cynnwys naill ai athrawon iau neu fabanod.

Wedi'r cwrs mae F lawer yn fwy hyderus wrth siarad Cymraeg ac wrth ddefnyddio Cymraeg yn y dosbarth. Fodd bynnag, mae disgyblion yn ei chyrraedd ym mlwyddyn 5 gydag ychydig iawn o wybodaeth am y pethau sylfaenol yn y Gymraeg, ac mae F yn siomedig bod gan weddill y staff gyn lleied o wybodaeth o'r iaith. Mae unrhyw Gymraeg cyn blwyddyn 5 yn Gymraeg achlysurol yn unig. Mae'r ysgol yn canolbwyntio ar rifedd a llythrennedd ar hyn o bryd a'r gobaith yw y bydd y Gymraeg yn cael sylw yn y dyfodol.

O ran ôl-ofalaeth mae'n derbyn cefnogaeth gan y pennaeth. Mae'r sir yn darparu dim ond un

cwrs Cymraeg o hanner diwrnod ar gyfer pob athro bob blwyddyn (yn arfer bod pob tymor). Anfonodd y tiwtoriaid e-bost yn cynnig cymorth, ond nid yw F wedi manteisio ar hyn hyd yma. Nid yw'r athrawon bro yn ymweld â'r ysgol oherwydd diffyg cyllid.

Mae'n teimlo bod y cwrs wedi gwneud gwahaniaeth iddi hi yn bersonol, ond nid mewn gwirionedd i'r ysgol yn ei chyfanrwydd. Mynychodd gyfarfod safoni yn yr ysgol uwchradd yn ddiweddar a sylwodd bod rhai ysgolion yn yr ardal ymhell ar y blaen o ran sgiliau iaith Gymraeg. Hoffai weld mwy o aelodau staff yn mynd ar y cwrs

Cyfranogydd 'Ff', Athro ysgol gynradd, wedi mynychu'r cwrs sylfaen

➤ 1 awr cyn; 2 ar ôl

Athro blwyddyn 3 mewn ysgol gyda thua 155 o ddisgyblion yw Ff ac mae'n arwain ar Gymraeg yn yr ysgol. Nid oes siaradwyr Cymraeg ar y staff ond mae un aelod arall o'r staff â thipyn o wybodaeth o'r Gymraeg.

Gan ei fod yn arwain ar y Gymraeg roedd yn awyddus i fynd ar y cwrs. Roedd mynychu'r cwrs yn brofiad plaserus iawn. Dysgodd lawer - nid yn unig sut i addysgu'r Gymraeg fel pwnc, ond hefyd gramadeg a threigladau yr oedd wedi anwybyddu dros y blynyddoedd. Roedd y tiwtoriaid yn wych ac yn gefnogol iawn. Roedd ganddo ddigon o gyfleoedd i ddysgu gwersi i aelodau eraill y grŵp, a hefyd i arsylwi mewn ysgolion eraill. Eglurodd bod 'the opportunity to engage in teaching methodologies with other members of the course was a byproduct but very rewarding aspect of the course.' Fodd bynnag, gallai rhai o'r gweithgareddau ysgrifenedig ar y cwrs fod wedi bod yn fwy diddorol.

Dychwelodd i'r ysgol gyda'i wybodaeth o'r Gymraeg wedi gwella'n fawr, ac yn teimlo'n frwdfrydig iawn, ac mae bellach yn dysgu Cymraeg i flwyddyn 6. Mae bellach yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd ac yn ceisio siarad yr iaith mor aml â phosibl, ac yn defnyddio ei Gymraeg gydag aelodau eraill o'r staff pan fo hynny'n bosibl. Mae ei amser yn addysgu yn y Gymraeg wedi dyblu i 2 awr yr wythnos. Mae hefyd yn monitro'r defnydd o'r Gymraeg ar draws yr ysgol, e.e. wrth gynllunio ac mewn arddangosfeydd. Mae wedi sefydlu clwb Cymraeg yn yr ysgol yn ystod yr awr ginio, ac yn trefnu gweithgareddau yn cynnwys gemau ar iPads.

Anodd dweud os yw'r cwrs wedi gwneud gwahaniaeth i lefel cyrhaeddiad y disgyblion, ond mae Ff yn gobeithio y bydd ei frwdfrydedd yn cael effaith.

Mae'n ffodus fod ganddo ddigon o gyfleoedd i ymarfer y Gymraeg gan fod ei wraig yn siarad Cymraeg. Mae'n darllen cymaint o Gymraeg ag sy'n bosibl a hoffai fynd ar gwrs arall. Byddai'n gwerthfawrogi sesiynau dilynol a hoffai hefyd gyfarfod yn fwy rheolaidd gyda'r bobl a oedd ar y cwrs gydag ef i ymarfer. Mae'r ymgynghorydd yn ymweld â'r ysgol unwaith y mis, ac mae'r pennaeth yn gefnogol iawn.

Cyfranogydd 'G', Athrawes ysgol gynradd, wedi mynychu'r cwrs sylfaen

➤ 1 awr cyn; 2 awr ar ôl a mwy o Gymraeg achlysurol

Athrawes blwyddyn 2 mewn ysgol gyda thua 300 o ddisgyblion yw G ac mae wedi bod yno ers tua ugain mlynedd. Hi yw cydlynnydd y Gymraeg ond bach iawn o Gymraeg sydd ymysg y staff - mae un yn deall yr iaith.

Mae wedi ceisio dysgu Cymraeg mewn dosbarth nos yn y gorffennol ond wedi ei chael hi'n anodd. Mae ei phlant mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Cafodd ei hannog i fynychu'r cwrs hwn gan ei phennaeth.

Roedd y tiwtoriaid yn dda, ond roedd rhannau o'r cwrs yn drwm ac yn galed iawn, ac yn llawer i ffitio fewn i un tymor. Roedd hi'n croesawu'r cyfle i ddysgu patrymau gramadeg. Yr oedd yn llawer anoddach nag yr oedd hi wedi disgwyl.

Teimlai hefyd bod gormod o asesiadau ac roedd hefyd cymysgedd o allu ar y cwrs – byddai

66

wedi dymuno bod pawb ar y cwrs gyda thua'r un lefel o allu â hi.

Mae'n credu bod y cwrs wedi bod o fantais i'r ysgol ac iddi hithau. Mae'n siarad llawer mwy o Gymraeg achlysurol nawr, ac yn ceisio ennyn diddordeb eraill yn yr ysgol. Mae'n defnyddio'r patrymau iaith ddysgodd ar y cwrs bob dydd, ynghyd â syniadau o'r cwrs. Mae athrawon eraill yn gofyn ei barn ar faterion yn ymwneud â'r iaith.

Mae hefyd wedi sefydlu eisteddfod ysgol ar Ddydd Gŵyl Dewi ac wedi sefydlu tystysgrifau "Da chi'n siarad Cymraeg" ar gyfer yr ysgol gyfan. Yn deall llawer mwy o Gymraeg nawr nag o'r blaen, ac mae'r rheolau yn gwneud mwy o synnwyr er bod siarad Cymraeg yn dal i fod yn anodd iawn.

O ran ôl ofalaeth mae'r pennaeth yn gefnogol iawn ac mae'n cael cefnogaeth gan athrawes fro bob pythefnos. Mae'n edrych ymlaen at gyfarfod dilynol gydag aelodau eraill o'r grŵp ym mis Mehefin ond fe hoffai fwy o gyfleoedd ar gyfer gwaith dilynol. Mae'n ystyried cwrs arall yn y dyfodol.

Cyfranogydd 'Ng', Dirprwy athrawes ysgol gynradd, wedi mynychu'r cwrs sylfaen

- **1-2 awr** cyn; **2 awr** ar ôl.

Mae Ng yn ddirprwy ac yn dysgu blwyddyn 2 ers 20 mlynedd. Mae tua 400 o blant yn yr ysgol a hi sydd â gofal dros y Gymraeg ac addysg grefyddol. Yn yr ysgol mae'r athrawon i gyd yn hapus i ddysgu Cymraeg, a nifer ohonynt yn eithaf hyderus yn yr iaith. Cyn i Ng fynychu'r cwrs roedd un athrawes arall ac un cynorthwydd wedi gwneud cwrs Sabothol a thynnwyd ei sylw at y cwrs hwn gan yr Athrawes fro.

Mae ganddi lefel O Cymraeg a dilynodd gwrs WLPAN rai blynyddoedd yn ôl. Roedd ei gallu yn ddigon da cyn y cwrs ond roedd hi'n brin ei hyder.

Roedd y tiwtoriaid yn dda iawn, a'r grŵp yn dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd. Mwynheuodd y cwrs ac ar y dechrau roedd yn hawdd ond daeth yn anoddach. Roedd eraill yn gweld y cwrs yn anodd. Teimlai y dylid fod wedi mynd i'r afael â'r ystod o alluoedd cyn y cwrs gan fod yr ystod yn rhy eang - nid oedd rhai hyd yn oed wedi gwneud Cam 1 ac roedd Ng yn credu ei bod yn anghywir eu cynnwys ar yr un cwrs. Roedd yn teimlo hefyd bod gormod o bwysau asesïadau - yn enwedig pan oeddynt yn cael eu ffilmio.

Mae'n credu bod lefel cyrhaeddiad y plant wedi codi yn uniongyrchol o ganlyniad i'w brwdfrydedd e.e. gwelliant mewn galluoedd blwyddyn 2 wrth ddefnyddio'r person 1af a'r 2il berson, ac enwau benywaidd a gwrywaidd. Mae Ng yn gwthio am fwy. Mae'n defnyddio llawer mwy o Gymraeg yn awr yn y dosbarth ac yn ceisio pasio ymlaen syniadau o'r cwrs. Mae aelodau eraill o'r staff yn ceisio cynnwys mwy o Gymraeg y gwasanaeth ysgol ac ati. Mae'n awyddus i'w gwneud yn fwy amlwg yn weledol bod yr ysgol hon yn ysgol yng Nghymru. Mae Cymraeg bellach wedi'i amserlennu ar gyfer 10 munud y dydd ar gyfer yr ysgol gyfan, ac mae mwy o adnoddau ar gael i bawb.

Nid oes llawer o gefnogaeth wedi bod ar ôl y cwrs. Mae cyfarfod ar y gweill gyda gweddill y grŵp ym mis Mehefin, ac mae wedi cwrdd â rhai unigolion yn gymdeithasol. Dechreuodd ddosbarth nos yn y Gymraeg, ond nid oedd yn ei chael yn fuddiol. Byddai wedi hoffi pe bai'r brifysgol wedi cynllunio dilyniant ar gyfer dosbarthiadau gyda'r nos.

Byddai'n sicr yn argymhell eraill i fynychu'r cwrs.

Cyfranogydd 'H', Athrawes ysgol gynradd, wedi mynychu'r cwrs sylfaen

- **1-2 awr** cyn; **o leiaf 5 awr** ar ôl, ac 'mae elfen o Gymraeg ym mhob un o'm gwersi bellach'.

Mae H yn dysgu mewn ysgol gynradd o 75 o blant. Ysgol cyfrwng Saesneg yw hi ond mae Cymraeg ail iaith yn gryf ac mae tri athro yno sy'n Gymry Cymraeg.

Roedd H eisiau gwella ei gallu yn y Gymraeg ac roedd wedi clywed am y cwrs gan gydweithwyr eraill yn yr ardal oedd wedi mynychu. Roedd y cwrs yn wych a'r tiwtoriaid yn dda ac roedd yn addas o ran hyd.

Roedd yr elfen o baratoi adnoddau yn dda er bod y rhan fwyaf ohono ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a ddim mor berthnasol iddi – byddai wedi hoffi cael mwy o adnoddau wedi eu hanelu at y Cyfnod Sylfaen. Er hynny, eglurodd ar yr holiadur, *'I created 3 lessons during the course however when back in school the resources created are used in a number of lessons. I am able to re use each resource with different learning objectives. The skills which I developed whilst creating the resources are transferable across the curriculum'*.

Mae ei hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg wedi gwella ers y cwrs ac mae'n treulio mwy o amser yn addysgu Cymraeg ac mae cynnydd wedi bod yn ei defnydd o Gymraeg achlysurol. Ers mynychu'r cwrs mae wedi sefydlu sesiynau 'pymtheg munud sydyn o Gymraeg' ar draws yr ysgol. Teimlai bod ei disgyblion yn fwy brwdfrydig ynglŷn â'r iaith ac mae'n credu bod cyrhaeddiad y plant yn bendant wedi gwella.

Mae'r staff eraill a'r pennaeth sy'n siarad Cymraeg yn gefnogol iawn. Roedd hi ar fin mynychu diwrnod o ddilyniant yn y brifysgol ond byddai'n dymuno cael mwy o ddiwrnodau o ddilyniant a thynnu'r grŵp gwreiddiol nôl at ei gilydd.

Cyfranogydd 'I', Athrawes ysgol gynradd, wedi mynychu'r cwrs sylfaen

➤ **1 awr cyn; 1-2 awr ar ôl**

Mae I yn dysgu mewn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ond mae nifer o'r staff yn siarad Cymraeg. Mae'n rhannu ei hamser rhwng dysgu blwyddyn 4 a phlant ag anghenion arbennig.

Roedd hi wastad wedi bod eisiau gwneud cwrs tebyg i hwn ac mae wedi bod yn mynychu dosbarthiadau nos. Derbyniodd anogaeth gan yr athrawes fro. Mae ei phlant ei hun yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.

Roedd y cwrs yn 'wych' a hoffai petai wedi bod yn flwyddyn o hyd. Aeth y cwrs yn eithaf cymhleth yn eithaf cyflym. Roedd y tiwtoriaid yn dda ac roedd amrywiaeth o ddulliau addysgu. Roedd cydbwysedd da rhwng dysgu'r iaith yn academaidd a chanolbwyntio ar addysgu i siwtio anghenion ysgol gynradd. Y gwaith cwrs yn dda.

Wedi'r cwrs mae I yn fwy hyderus wrth ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd bob dydd ac mae'n deall llawer mwy. Mae'n defnyddio'r iaith yn y Dosbarth nawr, nid yn unig mewn gwersi Cymraeg ond drwy roi gwersi cyfrwng Cymraeg – e.e fe gyflwynodd wers mathemateg ar galendrau yn y Gymraeg, ac yn y gwersi Daearyddiaeth mae'n trafod yr enwau lleoedd a gwledydd yn Gymraeg. Mae hefyd mwy o Gymraeg ar furiau'r ysgol nawr ac mae I wedi newid o ddefnyddio gorchymnion dwyieithog ar yr iard i rai Cymraeg yn unig. Tybia bod ei defnydd o'r Gymraeg wedi mwy na dyblu, ac meddai bod 'lefel cyrhaeddiad y disgyblion yn sicr wedi cynyddu'.

Yn y gorffennol nid oedd Cymraeg yn cael ei ystyried yn gadarnhaol iawn yn yr Ysgol felly bu tro mawr ar fyd. Y dyddiau hyn mae'r Gymraeg yn llawer mwy o hwyl i'r plant. Mae agwedd y staff a'r plant tuag at y Gymraeg yn gwneud dysgu yn brofiad hapusach ac yn fwy cadarnhaol.

Mae wedi derbyn cefnogaeth gan yr athrawes fro a daeth tiwtor y cwrs i'r ysgol pan ofynnodd I am gymorth. Mae'r pennaeth yn gefnogol iawn ac mae athro arall ar fin dechrau'r cwrs. Roedd yn brofiad cadarnhaol iawn a hoffai fynychu cwrs pellach.

Cyfranogydd 'L', Athrawes ysgol gynradd, wedi mynychu'r cwrs sylfaen

➤ **2 awr cyn; 4 awr ar ôl.**

Mae L yn athrawes mewn ysgol gynradd fawr gyda 650 o blant. Mae wedi bod yno ers 8 mlynedd a hi yw'r cydlynnydd gwyddoniaeth a llythrennedd. Mae 5 o siaradwyr Cymraeg ar y staff.

Roedd gan L ddiddordeb mewn gwella ei Chymraeg. Mae ganddi ddiddordeb mewn dwyieithrwydd ac mae wedi cwblhau gwersi nos gyda'r bwriad y bydd yn ei galluogi i ddilyn cwrs MA mewn dwyieithrwydd. Yr athrawes fro awgrymodd y cwrs Sabothol; nid oedd wedi clywed amdano cyn hynny.

Disgrifiodd y cwrs fel un 'gwyb' gyda thiwtoriaid da a chefnogol, ac roedd yn braf cael y cyfle i ganolbwyntio'n iawn ar y Gymraeg. Roedd hi o fudd cael dysgu Cymraeg yn y Gymraeg. Eglurodd bod y cwrs yn 'eich dysgu i chi godi eich disgwyliaidau o'r hyn y gallwch ei wneud eich hun'. Fodd bynnag, credai y gallai'r cwrs fod wedi bod ar lefel ychydig yn uwch, gan ei bod hi a sawl un arall yn y grŵp eisoes wedi cyrraedd y safon yn y gorffennol.

Teimlai bod y cwrs yn canolbwyntio ar addysgu pob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg, ond mae amharodrwydd i ganiatáu hyn yn ei hysgol. Gan fod yr ysgol yn agos at y ffin â Lloegr, mae rhai rhieni a llywodraethwyr wedi dweud nad ydynt yn dymuno i'r plant i "siarad yr holl Gymraeg yma". Mae L yn credu'n gryf y dylai pob penaethiaid a dirprwy fynychu cwrs tebyg cyn eu caniatáu i arwain ysgol yng Nghymru.

Ar ôl cwblhau'r cwrs mae hi'n fwy hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys deall treigladau. Mae hi'n awr yn gweld y camgymeriadau a wnaed yn y gorffennol, ac mae'r cwrs wedi gwella ei haddysgu. Mae ei lefel hi o Gymraeg wedi gwella a gall drosglwyddo hyn i'r plant. Mae'n credu bod ei grŵp blwyddyn 4 wedi gwneud cynnydd rhagorol a bod eu lefel cyrhaeddiad wedi codi yn aruthrol. Mae eu darllen ac ysgrifennu yn dda ond nawr mae angen iddi weithio ar eu sgiliau llafar yn y Gymraeg.

Nid yw wedi derbyn digon o gefnogaeth ar ôl y cwrs o fewn yr ysgol. Mae'n rhwystredig bod ysgolion yn barod i anfon staff ar gyrsiau ond heb fod yn barod i gymryd y cam tuag at ddatblygu'r Gymraeg yn yr ysgol. Awgryma y dylai fod yna sesiynau 'demo' ar gyfer penaethiaid ac uwch staff iddynt gael gweld sut mae Cymraeg yn gweithio mewn ysgolion eraill. Yn ei hysgol hi mae'n credu bo'r pennaeth yn adlewyrchu barn rhieni a'r corff llywodraethol ac ar y cyfan mae'n credu bod ysgolion yn fodlon ar ddwyieithrwydd, ond nid â dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae wedi siarad â'r tiwtoriaid sawl gwaith, ac mae myfyrwyr o gyrsiau eraill wedi bod i'r ysgol i'w arsylwi. Daeth athrawon bro i'w gweld hi ar ôl y cwrs, ond nid ydynt wedi ei gwithio ymhellach. Byddai wedi gwerthfawrogi cyrsiau dilynol.

Cyfranogydd 'LI', Athrawes ysgol gynradd, wedi mynychu'r cwrs sylfaen

- **1 awr** cyn; **1 awr** ar ôl, ond mwy o Gymraeg achlysurol.

Mae gan LI ofal dros y cyfnod sylfaen mewn ysgol wledig fach, sydd â 40 o ddisgyblion a dau athro.

Roedd wedi manteisio ar hyfforddiant Cymraeg i athrawon ei hawdurdod lleol dros y blynyddoedd ond pan wnaeth y gwasanaeth peripatetig raddio'r ysgol i gategori oedd i dderbyn llai o gymorth gan yr athrawes fro, penderfynodd fynd ar y cwrs sabothol. Mi roedd tipyn o Gymraeg achlysurol yn yr Ysgol ond roedd yn rhaid i LI addysgu Cymraeg ar ei phen ei hun. Daw athrawes fro fewn unwaith y tymor.

Roedd yn gwrs heriol oedd yn cwmpasu llawer mewn amser byr. Roedd tipyn o'r gwaith ar yr unedau wedi eu pacio fewn tuag at y diwedd, ond teimlai bron bod ei hymennydd yn llawn erbyn y pwynt hwn. Roedd y tiwtoriaid yn wych a'r cwrs yn ddiddorol. Roedd llawer o waith cartref a pharatoi, a dim digon o amser i baratoi yn ystod y dydd. Gan fod LL yn byw yn bell o'r cwrs roedd yr amser hir iddi hi deithio i'r cwrs yn golygu bo llai o amser iddi hi fedru paratoi adref.

Roedd pwysedd i berfformio'n dda wrth ddarparu gwers sampl o flaen y gweddiill.

Nid oedd digon o adnoddau ar gael ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a theimlai nad oedd digon o sylw i anghenion athrawon Cyfnod Sylfaen ar y cwrs. Hoffai hefyd petai yna ddeunyddiau dysgu Cymraeg iddi yn ei llyfrgell leol.

Mae dipyn yn fwy hyderus gyda'r Gymraeg nawr, ond nid oes neb ar gael yn yr ysgol i wirio ei Chymraeg. Mae'n medru siarad peth Cymraeg i'r unig riant iaith gyntaf Cymraeg.

Mae'n awyddus i greu ethos ac amgylchedd Cymreig. Mae'r holl arddangosfeydd yn ddwyieithog erbyn hyn a chynhaliwyd Cymanfa Ganu ar Ddydd Gwyl Dewi am y tro cyntaf. Gobeithia Ll y bydd y plant yn adeiladu ar eu sgiliau iaith Gymraeg. Mae'n teimlo bod eu Cymraeg llafar wedi gwella'n sylweddol, ond dim ond 1 wers Gymraeg a addysgir bob wythnos o hyd.

Mae wedi derbyn llawer iawn o gefnogaeth gan yr athrawes fro a threfnodd y Sir aduniad i bawb o'r cwrs. Mae ei phennaeth yn gefnogol iawn. Mae dal yn nerfus am lefelu plant blwyddyn 2 ond bydd yn cael cymorth gan yr athrawes fro.

Mewn gwirionedd nid yw yn defnyddio'r holl Gymraeg a ddysgodd ar y cwrs ac yn ddelfrydol hoffai fynychu cwrs arall er mwyn atgyfnerthu yr hyn mae wedi ei ddysgu. Roedd yn awyddus i basio ymlaen y neges ' peidiwch anghofio amdanom ni!'

Cyfranogydd 'M', Cynorthwydd ysgol gynradd, wedi mynychu'r cwrs mynediad

- **1 sesiwn** cyn; **1 sesiwn** ar ôl, ond mwy o Gymraeg achlysurol.

Mae M yn gynorthwydd gyda'r dosbarth derbyn a blwyddyn 1. Cafodd ei annog i fynychu'r cwrs gan y pennaeth ac roedd hi'n awyddus i ddysgu mwy o Gymraeg.

Gwnaeth fwynhau'r cwrs ac roedd y tiwtoriaid yn dda. Roedd ganddi rai beirniadaethau fodd bynnag:

Cafodd llawer o amser y cwrs ei dreulio ar wneud arddangosfeydd ac adnoddau, ond yn ei hysgol hi dim ond gwaith y plant caiff ei arddangos felly doedd y poster / deunyddiau hyn ddim o ddefnydd iddi hi;

Er bod yr amser ar y cyfrifiadur yn dda, treuliyd gormod o amser yn cymharu gwefannau.

Byddai wedi gwerthfawrogi cael eu gwthio'n fwy i siarad Cymraeg.

Bellach mae ganddi fwy o hyder wrth ddefnyddio Cymraeg gyda'r plant ac mae'n mwynhau canu caneuon Cymraeg ac ati gyda hwy. Hi a'r cynorthwydd arall sy'n addysgu Cymraeg o fewn y grŵp blwyddyn yn bennaf ac mae'n credu ei bod wedi medru cyfrannu at gynnydd yng nghyrrhaeddiad y plant ac mae'r disgyblion dipyn yn fwy brwdfrydig am y Gymraeg. Mae'r arddangosfeydd bellach bron i gyd yn ddwyieithog ac mae'n defnyddio llawer mwy o Gymraeg achlysurol. Mae wedi cyflwyno brawddeg yr wythnos i'r ysgol gyfan ers bod ar y cwrs.

Mae'r athrawes fro yn help mawr a'r pennaeth yn gefnogol. Mae'n medru cysylltu â thiwtorïaid y cwrs ar e-bost. Hoffai os byddai modd mynychu diwrnodau *top-up* Cymraeg a byddai'n dwlu mynychu rhagor o hyfforddiant, er byddai amser yn broblem.

Cyfranogydd 'N', Cynorthwydd ysgol gynradd, wedi mynychu'r cwrs mynediad

- 2 awr cyn; 8 awr ar ôl.

Mae N yn gweithio fel cynorthwydd ar draws yr ysgol ac mae ei dyletswyddau yn cynnwys addysgu Cymraeg i flwyddyn 6. Mae 230 o ddisgyblion yn yr ysgol ac mae un aelod o'r staff yn rhugl yn y Gymraeg.

Mae ganddi Lefel A Cymraeg ond nid oedd wedi defnyddio'r iaith ers hynny. Newidiodd yrfa rai blynyddoedd nôl ac roedd hi'n dymuno dysgu geirfa fyddai'n addas ar gyfer plant ynghyd â gwella ei sgiliau iaith. Mae hefyd yn astudio am radd BA ar hyn o bryd.

Gwnaeth fwynhau'r cwrs ond teimlai bod agweddau ar goll – dylai fod mwy o bwyslais ar ganu a dysgu caneuon newydd. Gellid fod wedi defnyddio ystod ehangach o ddeunyddiau a gallai'r cwrs fod wedi bod yn fwy ymarferol – e.e. trwy gael ymweliad ag ysgol cyfrwng Cymraeg. Nid oedd y cwrs wedi cwmpasu pob dim a dylai fod wedi cynnwys rhagor o bynciau perthnasol a geirfa o amgylch y pynciau hynny.

Ers y cwrs mae'n defnyddio llawer mwy o Gymraeg, ac yn cael ei gweld fel person gwybodus am y Gymraeg yn yr ysgol. Mae wedi ailddarganfod llawer o'i sgiliau yn y Gymraeg ac mae ganddi fwy o ddealltwriaeth o'r iaith. Mae'n dysgu 5 munud o Gymraeg i sawl dosbarth bob dydd ac mae'n credu bod lefelau blwyddyn 6 wedi gwella. Sefydlodd Glwb Hwyl a Sbri ac mae wedi trefnu bod blwyddyn 6 yn ymweld â Llangrannog. Tu allan i'r dosbarth mae Cymraeg i'w weld yn fwy ar arddangosfeydd o amgylch yr ysgol. Mae N hefyd wedi cyflwyno system o docyn iaith i'r holl ysgol. Bu ymgyrch i annog athrawon i ddefnyddio mwy o Gymraeg achlysurol oherwydd y Cynllun gwella ysgol ynghyd â'i dylanwad hi ers mynychu'r cwrs - 'it's all about enjoying the language and being able to use it in the community'. Mae athrawon eraill bellach wedi gwneud cais i ddilyn cwrs.

Nid yw wedi derbyn unrhyw ôl-ofalaeth ffurfiol a'r unig gyswllt gyda'r ganolfan oedd pan ofynnwyd iddi gyflwyno i'r don nesaf ar y cwrs. Mae'r pennaeth yn gefnogol iawn ac yn awyddus iddi wneud y mwyaf o'i sgiliau newydd.

Hoffai fynychu ragor o gyrsiau Cymraeg yn y dyfodol ac yn ddelfrydol byddai yna gwrs ar lefel uwch i gynorthwyr. Hoffai roi ar goedd ei diolch i Lywodraeth Cymru am ddarparu'r cwrs a'r cymhellion.

Cyfranogydd 'O', Cynorthwydd ysgol gynradd, wedi mynychu'r cwrs mynediad

- Defnyddio Cymraeg yn achlysurol cyn ac ar ôl.

Mae O yn gynorthwydd gyda'r dosbarth derbyn ac wedi bod yn gweithio yn yr ysgol ddinesig hon ers 24 mlynedd.

Mae'r pennaeth o hyd yn annog y staff i ddefnyddio Cymraeg achlysurol ac roedd dysgu Cymraeg o hyd ar ei rhestr o bethau i'w gwneud. Pan gysylltodd y coleg a'r ysgol yn rhoi gwybod am y cwrs fe wnaeth fanteisio ar y cyfle.

Roedd y cwrs yn un da iawn gyda thiworiaid ardderchog. Credai y byddai cwrs preswyl wedi bod yn well er mwyn cael eu trwytho'n llwyr yn y Gymraeg am gyfnod o amser.

Ers mynychu mae O o hyd yn cyfarch y plant yn y Gymraeg ac yn eu hannog i ateb mewn brawddegau llawn. Mae'n defnyddio mwy o Gymraeg achlysurol a chredai bod lefel cyrhaeddiad y plant wedi gwell a'u bod yn ymateb yn dda yn y Gymraeg. Ers y cwrs hefyd mae O wedi cyflwyno gwobr 'siaradwr Cymraeg yr wythnos' drwy'r ysgol.

Mae cymorth ar gael gan y tiwtoriaid ar y ffôn neu e-bost os oes angen ac mae'n derbyn gwahoddiadau i ddigwyddiadau yn y coleg yn ymwneud â'r cwrs a dysgu Cymraeg. Hoffai wneud cwrs pellach.

Cyfranogydd 'P', Darlithydd Addysg Bellach, wedi mynychu'r cwrs uwch byr

- 0 awr cyn; 7 awr ar ôl.

Darlithydd mewn Technoleg Gwybodaeth yw P ac wedi bod yn dysgu yno ers 13 mlynedd.

Cyn y cwrs roedd yn cael trafferth gyda'i dreigliadau, ond yn eithaf hyderus ar y cyfan, ond yn teimlo bod angen gwella ei Gymraeg yn gyffredinol. Roedd yn gwybod am rai oedd wedi dilyn y cwrs yn y gorffennol, ac wedi bod yn awyddus i wneud y cwrs ers amser. Roedd wedi dweud wrth yr Hyrwyddwr Dwyieithog bod diddordeb ganddo mewn dilyn y cwrs.

Cwrs ardderchog a dim byd negyddol ganddo i ddweud am y cwrs. Y dysgu'n dda iawn a'r cymorth a'r adborth yn ffantastig; y staff yn wych. Roedd pawb yn cael eu trin fel unigolion ar y cwrs, a gwaith yn cael ei osod ar eu cyfer fel unigolion. Roedd y cwrs yn addas ar gyfer dulliau dysgu mewn addysg bellach, a chawsant gyfle i ddysgu o flaen y mynychwyr eraill. Hyd y cwrs yn iawn, a doedd dim problem cael ei ryddhau i fynd ar y cwrs nac i drefnu cyflenwi. Y coleg yn gefnogol iawn.

Ers y cwrs mae wedi dechrau dysgu Cymraeg i Oedolion ac yn dysgu ar y cwrs Bagloriaeth Cymru. Lle mae'r amser a'r cyfle, mae wedi rhoi mwy o bwyslais ar ddwyieithrwydd. Mae'n addysgu ychydig yn fwy yn y Gymraeg yn y dosbarth. Pan mae'n cael cyfle, mae'n dysgu yn ddwyieithog; ond yn aml yn gweithio gydag unigolion yn y dosbarth trwy'r Gymraeg. Yn tueddu defnyddio mwy o Cysill a Cysgair ers dilyn y cwrs.

Byddai wedi bod yn dda cael sesiynau dilyniant ar ôl y cwrs. Mae wedi derbyn e-byst gan y tiwtoriaid yn cynnig help ond heb ofyn am help hyd yn hyn. Pan siaradwyd gyda P nid oedd ei dystysgrif wedi cyrraedd ac roedd yn teimlo bod angen tystiolaeth ei fod wedi dilyn y cwrs.

Cyfranogydd 'Ph', Darlithydd Addysg Bellach, wedi mynychu'r cwrs uwch byr

- 3 awr cyn; 6 awr ar ôl.

Darlithydd mewn peirianeg trin tir yw Ph mewn campws lle mae llawer o Gymraeg. Mae'n dysgu rhai dosbarthiadau amaethyddiaeth trwy'r Gymraeg a rhai'n ddwyieithog. Mae adnoddau Cymraeg ar gael i bawb ar y cwrs os ydynt yn dymuno.

Roedd Ph wedi bod trwy addysg Gymraeg ei hun 30 mlynedd yn ôl. Roedd yn adnabod rhai oedd wedi bod ar y cwrs sabothol yn y gorffennol ac yn awyddus i fynd ar y cwrs ei hunan. Roedd ei rheolwr llinell hefyd yn awyddus iddo fynd a derbyniodd anogaeth yn ogystal gan yr Hyrwyddwr Dwyieithrwydd.

Roedd y cwrs yn dda iawn. Derbyniodd 'lot fawr o gymorth gan y darlithwyr' ac roeddynt yn pwyntio'r ymarferwyr i'r cyfeiriad iawn. Roedd tipyn o waith ar gyfieithu a deall gramadeg a rheolau'r Gymraeg. Credai Ph bod y cwrs wedi newid dros y blynyddoedd. Roedd yn arfer bod yn gwrs bloc dros 3 mis, ac ni fyddai wedi gallu mynychu cwrs oedd yn ei gymryd mas o'r coleg am gyfnod mor hir. Fel roedd hi roedd hi'n eithaf anodd dod o hyd i 'slot' o amser i fynychu, ond doedd dim problem trefnu cyflenwi tra'r oedd ar y cwrs.

Mae'n defnyddio mwy o Gymraeg wrth ei waith erbyn hyn ac yn cyfieithu llawer iawn o'r cynnwys. Mae ei ramadeg yn fwy cywir. Dyw Ph ddim yn teimlo bod newid wedi bod yn ei sgiliau iaith ar lafar. Mae'n hoffi meddwl bod safon iaith y myfyrwyr yn well ers iddo fynd ar y cwrs. Ers y cwrs hefyd mae'n aelod o fwrdd dwyieithrwydd y coleg sy'n cyfarfod bob mis.

O ran ôl-ofalaeth mae'n derbyn e-byst gan staff y brifysgol yn cynnig help os oes angen ond

nid yw wedi manteisio ar hyn eto. Mae'n cael tipyn o gefnogaeth a help oddi wrth yr Hyrwyddwr Dwyieithrwydd. Mae'n gweld manteision clir o fynychu'r cwrs, ac ar lefel bersonol mae wedi bod o help iddo gyda'i blant ei hun.

Cyfranogydd 'R', Darlithydd Addysg Bellach, wedi mynychu'r cwrs uwch bloc

➤ 18 awr cyn; 18 awr ar ôl.

Darlithydd BTEC mewn Gofal Dysgu a Datblygiad Plant i fyfyrwyr ifanc yw R ac mae'n addysgu'n ddwyieithog fel arfer ond eleni mae pawb sydd ar y cwrs yn gallu siarad Cymraeg.

Dysgodd siarad Cymraeg fel oedolyn pan symudodd i Gymru i fyw ac roedd yn poeni am safon ei Chymraeg ysgrifenedig. Pan roedd ar gwrs gloywi iaith yn y gorffennol, roedd tiwtoriaid ar gael i gywiro ei hiaith wrth iddi fynd ymlaen. Ond ar ôl i'r cwrs yna orffen, roedd angen rhywun arni i gywiro ei hiaith ac i'w hatgoffa o reolau gramadeg.

Fuodd na ddim anogaeth oddi wrth yr Hyrwyddwr Dwyieithrwydd iddi fynd ar y cwrs, ond roedd yn adnabod rhywun oedd wedi bod ar y cwrs a chlywodd amdano yn y coleg. Roedd wedi ystyried gwneud cwrs ers tipyn, ond roedd cwrs yn y gorffennol yn golygu gweithio ar ei phen ei hunan o bell, ac yr oedd yn well ganddi strwythur y cwrs yma - sef wythnos lawn ar y dechrau ac ar y diwedd, a diwrnodau unigol yn y canol. Roedd y rheolwyr yn hapus iawn iddi fynd ar y cwrs ac yn falch bod y staff am wella eu sgiliau iaith.

Roedd y cwrs yn dda iawn. Roedd yn gwerthfawrogi ei bod yn medru cael ymateb yn syth ar ei gwaith oddi wrth y darlithwyr, ac mi roedd yn hawdd gofyn cwestiynau iddynt unrhyw bryd. Roedd y cwrs yn addas ar gyfer darlithwyr addysg bellach; ac yr oedd hefyd yn addas ar gyfer y dysgu mae'n gwneud allan yn y gymuned.

Nid yw'n meddwl bod newid wedi bod yn ei sgiliau iaith ers mynychu'r cwrs, ond mae ganddi well ddealltwriaeth o ddysgu dwyieithog. Mae wedi dysgu llawer o ran y gwaith ysgrifenedig. Er hyn, mae nawr yn osgoi ysgrifennu yn y Gymraeg gymaint â phosibl oherwydd ei fod yn cymryd gymaint o amser i wneud yn siŵr fod y gwaith yn gywir. Mae'n fwy parod i addasu a thrio pethe newydd ers bod ar y cwrs. Mae'n gobeithio bod lefel cyrhaeddiad y myfyrwyr wedi gwella ers iddi fod ar y cwrs. Roedd sôn bod y coleg yn mynd i'w defnyddio hi fel model rôl i ddangos beth sy'n bosibl o ran dysgu Cymraeg, ond dyw hyn ddim wedi digwydd eto.

Os oes angen, ac os yw hi'n gofyn, mae cefnogaeth ar gael; ond does neb wedi amlinellu "dyma beth sydd ar gael". Nid oes cefnogaeth benodol gan yr Hyrwyddwr ar wahân i e-byst cyffredinol yn hysbysebu cyrsiau. Mae'n ffodus bod digon o gyfleoedd i siarad Cymraeg yn y coleg: 'mae'n iaith gymdeithasol a gallwch glywed yr iaith yn cael ei siarad ym mhobman'. Byddai wedi bod yn braf cael sesiwn dal i fyny ar ôl y cwrs er mwyn gweld awgrymiadau gan eraill oedd wedi bod ar y cwrs.

Yn ddiweddar mae wedi annog ffrind iddi sy'n athrawes gynradd i fynd ar y cwrs, ac yn awgrymu y dylai pawb wneud y cwrs.

Eitem 4.5



Department for
Digital, Culture
Media & Sport

Creu S4C ar gyfer y dyfodol

Adolygiad annibynnol

Euryn Ogwen Williams
Rhagfyr 2017



Creu S4C ar gyfer y dyfodol

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y
Cyfryngau a Chwaraeon
ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Mawrth 2018



©Hawlfraint y Goron 2018

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i visit nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd arnoch angen caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn enquiries@culture.gov.uk

ISBN 978-1-5286-0252-5

CCS0318202740 03/18

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffeibr a ailgylchwyd

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

Cynnwys

Rhagair	6
Crynodeb gweithredol	8
Tabl o argymhellion	10
Pennod 1: Darparu cynnwys o ansawdd uchel a gwasanaethu cynulleidfaoedd sy'n siarad Cymraeg	11
Pennod 2: Diogelu S4C ar gyfer y dyfodol	24
Pennod 3: Sicrhau S4C annibynnol ac effeithiol	30
Casgliad	36
Atodiad A: Cylch gorchwyl	38
Atodiad B: Cyfranwyr i'r ymgynghoriad	40

Rhagair

At yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Gofynnwyd i mi gynnal adolygiad annibynnol o S4C i archwilio ei gylch gwaith, dulliau ariannu a llywodraethiant. Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy adroddiad terfynol i'r llywodraeth, sy'n nodi fy nghanfyddiadau a'm hargymhellion.

S4C yw'r unig ddarledwr Cymraeg yn y byd. Mae ganddo safle unigryw o fewn tirwedd ddarledu'r Deyrnas Unedig, ac mae'n chwarae rhan allweddol o ran hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Mae'r adolygiad hwn yn cael ei gynnal yn ystod cyfnod cyffrous a heriol iawn i ddarledu. Mae'r sector yn mynd drwy newid heb ei debyg o'r blaen, a dewis sy'n rheoli'r farchnad, gyda rhagor o gynnwys o ansawdd uchel ar gael gan fwy o ddarparwyr, ar nifer gynyddol o amrywiol lwyfannau. Mae gan ddarledwyr sydd wedi hen ennill eu plwyf fel S4C, frandiau sefydlog a chyfoeth o brofiad, ond mae cynnwys o ansawdd uchel gan ddarparwyr byd-eang sydd â chyllidebau enfawr fel Netflix yn her i bob darledwr. Mae'n rhaid i ddarledwyr gwasanaeth cyhoeddus weithio gyda'i gilydd i oroesi, gan fanteisio ar bob cyfle i gydweithio a chreu partneriaethau, a defnyddio potensial arloesi digidol yn y cyfnod newydd hwn i'r byd darledu.

Darledu gwasanaeth cyhoeddus yw conglaen tirwedd y cyfryngau yn y DU. Mae ganddo rôl hanfodol i sicrhau bod cynulleidfaoedd y DU yn gallu cael mynediad at ystod eang o fathau gwahanol o gynnwys – o newyddion a materion cyfoes, i raglenni plant a rhaglenni dogfen. Un o'r prif heriau yw sicrhau bod darledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn addasu ac yn parhau'n berthnasol.

Fel yr unig ddarledwr Cymraeg, efallai mai S4C yw'r enghraifft orau o'r rheswm pam y dylem feithrin a diogelu darledu gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer y dyfodol.

Yr iaith Gymraeg yw un o'r ieithoedd byw hynaf yn Ewrop, ac mae'n rhan allweddol o ymwybyddiaeth a hunaniaeth Gymreig a Phrydeinig yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae'n iaith sy'n cael ei defnyddio bob dydd i sgwrsio a thrafod, yn iaith llenyddiaeth gyfoes, yn iaith busnes, chwaraeon a dathliadau cenedlaethol, yn ogystal ag iaith sy'n cael ei siarad mewn ardaloedd trefol a gwledig fel ei gilydd yng Nghymru ers cenedlaethau. Mae'r rôl hanfodol mae'n ei chwarae wrth gynnal a hyrwyddo'r iaith Gymraeg wrth galon pwrpas cyhoeddus unigryw S4C, gan adlewyrchu'r diwylliannau amrywiol sy'n defnyddio'r Gymraeg drwy ddarparu cynnwys o ansawdd uchel sy'n hygyrch i bawb.

Mae bodolaeth S4C yn sicrhau nad yw cynnwys Cymraeg yn cael ei wthio i gorneli tywyll yr amserlen ddarledu. Fodd bynnag, un o brif heriau S4C yn awr yw denu gwylwyr ar wahân i'r cynulleidfaoedd traddodiadol sy'n siarad Cymraeg, a sicrhau fod pawb yng Nghymru yn teimlo fod yr iaith yn perthyn iddyn nhw, boed nhw'n siarad llawer o Gymraeg, ychydig o Gymraeg neu ddim yn siarad Cymraeg o gwbl. Nid nod i S4C fel darledwr yn unig yw hyn. Fel y prif gorff sy'n cyllido a dosbarthu cynnwys Cymraeg, rhaid sefydlu'r nod hwn yn gadarn yng nghadwyn gyflenwi cynnwys S4C drwyddi draw.

Mae statws S4C fel darledwr annibynnol gwasanaeth cyhoeddus yn sylfaen i hyn. Mae'r adolygiad hwn yn ceisio diogelu'r annibyniaeth hon i'r dyfodol. Mae llawer iawn wedi newid ers i S4C ddechrau darledu ym 1982, ac mae angen gofyn y cwestiynau hyn nawr i sicrhau bod S4C mewn sefyllfa gadarn i barhau i wasanaethu cynulleidfaoedd sy'n siarad Cymraeg, yn ogystal â denu gwylwyr newydd.

Mae'r adolygiad annibynnol hwn yn ystyried tri mater allweddol, fel y nodir yn y cylch gorchwyl.

1. Cylch gwaith y gwasanaeth cyhoeddus a gallu S4C i ddarparu cynnwys o ansawdd uchel.
2. Diogelu S4C ar gyfer y dyfodol drwy ddulliau ariannu.
3. Sicrhau S4C annibynnol ac effeithiol drwy ei strwythur llywodraethiant.

Rwyf wedi ymgynghori a siarad gydag ystod eang o randdeiliaid, o S4C a'i bartneriaid i blant ysgol a gwylwyr unigol. Cefais gefnogaeth gan swyddogion o'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sef: Amy Forbes (fel Ysgrifennydd yr Adolygiad), Maria Alexandri a Ffion Williams. Rwy'n ddiolchgar iawn iddyn nhw am eu gwaith caled a'u treiddgarwch. Er imi gael y cymorth parod hwn, hoffwn bwysleisio fy mod yn cymryd cyfrifoldeb llwyr dros yr adolygiad hwn.

Rwy'n gwneud cyfres o argymhellion i fynd i'r afael â'r cylch gorchwyl a osodwyd gan y llywodraeth yn yr adolygiad hwn. Gobeithiaf y byddwch yn cytuno y bydd yr argymhellion hyn yn arfogi S4C yn well ar gyfer sialens yr oes fodern.

Euryn Ogwen Williams

Cadeirydd, Adolygiad Annibynnol o S4C

Crynodeb gweithredol

Ym mis Awst 2017, penodwyd Euryng Ogwen Williams gan y llywodraeth yn gadeirydd yr adolygiad annibynnol o S4C. Cafodd yr adolygiad annibynnol hwn ei sefydlu gan y llywodraeth i sicrhau bod S4C yn parhau i chwarae rhan hanfodol fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, a bod dyfodol cadarn a llwyddiannus i'r sianel wrth barhau i ddarparu cynnwys o ansawdd uchel i gynulleidfaedd sy'n siarad Cymraeg.

Cynhaliodd y cadeirydd adolygiad manwl dros gyfnod o dri mis, yn archwilio cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C, y dulliau ariannu a'i strwythurau llywodraethu. Nodir ei ganfyddiadau a'i argymhellion mewn tair pennod.

Pennod 1: Darparu cynnwys o ansawdd uchel a gwasanaethu cynulleidfaedd sy'n siarad Cymraeg.

Mae'r bennod gyntaf yn edrych ar gylich gwaith gwasanaeth cyhoeddus presennol S4C, ac yn ystyried os gallai newidiadau i'r cylch gwaith, a'r ffordd y mae S4C yn ei gyflawni, helpu i gynyddu gwerth cyhoeddus y sefydliad.

Daw'r adolygiad i'r casgliad y gallai, ac y dylai S4C wneud mwy i ddarparu rhagor o werth cyhoeddus. Fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, mae angen i S4C addasu i'r amgylchedd ddarlledu gyfnewidiol sy'n golygu defnyddio'r gwasanaethau newydd digidol ac ar-lein i ehangu ei orwelion a'i apêl, nid yn unig yng Nghymru ond yn y Deyrnas Unedig a thramor. Byddai moderneiddio'r cylch gwaith yn caniatáu i S4C roi blaenoriaeth i arloesi digidol ochr yn ochr â darlledu llinol fel ei flaenoriaeth strategol, yn cynnwys datblygu hyb digidol gyda'r gallu i gynhyrchu cynnwys digidol. Fodd bynnag, yn fwy na dim ond newid gofynion y cylch gwaith, mae angen i S4C arloesi a mentro mwy i gyflawni ei gylich gwaith yn fwy effeithiol. Fel rhan o hyn, dylai S4C fuddsoddi mwy o egni i ddatblygu partneriaethau: gyda'r BBC, y sector annibynnol, a gyda rhanddeiliaid ledled Cymru i chwarae rhan fwy rhagweithiol mewn cynlluniau ehangach i hyrwyddo'r Gymraeg.

Pennod 2: Diogelu S4C ar gyfer y dyfodol

Mae Pennod 2 yn ystyried dulliau ariannu presennol S4C. Yn unol â'r cylch gorchwyl, nid yw'r adolygiad yn ystyried lefelau ariannu ar gyfer S4C.

Mae'r dadleuon parhaus ynglŷn â lefelau ariannu digonol ar gyfer S4C yn tynnu sylw oddi ar y mater hollbwysig, sef sicrhau bod sylfaen sefydlog a thryloyw i ddulliau ariannu S4C. Ariennir S4C yn bennaf drwy ffi'r drwydded, gyda chymorth grant bychan ychwanegol gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r arian mae S4C yn ei gael drwy ffi'r drwydded yn sefydlog tan 2021/22, fodd bynnag, fel sy'n gyffredin gyda phopeth a ariennir gan y llywodraeth, mae'r cymorth grant ar gyfer S4C yn gallu newid. Mae'r diffyg sicrwydd hwn mewn perthynas â'r cymorth grant wedi achosi pryder mawr ac ansicrwydd i S4C a'r rhanddeiliaid, ymhell y tu hwnt i effaith y symiau perthnasol mewn gwirionedd. Yr unig ffordd o gael dull ariannu sefydlog ar gyfer S4C yw drwy ei ariannu'n gyfan gwbl drwy ffi'r drwydded. Dylai penderfyniadau ariannu S4C fod yr un fath â threfniant ariannu ffi drwydded y BBC o 2022/23 ymlaen. Yn ogystal, dylai'r llywodraeth adolygu dull ariannu S4C fel rhan o'r trafodaethau rheolaidd ynglŷn â setliad ariannu ffi'r drwydded gyda'r BBC. Byddai hyn yn rhoi'r un sefydlogrwydd a sicrwydd i S4C â'r BBC, rhoi'r rhyddid i wneud y dewisiadau creadigol a masnachol angenrheidiol i ffynnu a llwyddo. At hynny, fel corff sy'n cael swm sylweddol o arian o'r pwrs cyhoeddus,

dylai S4C geisio darparu rhagor o werth am arian lle bynnag y bo'n bosibl, gan ddefnyddio ei faint a'i adnoddau i archwilio pob llwybr masnachol, buddsoddi a gwneud y mwyaf o incwm masnachol. Ni ddylid ystyried hyn fel beirniadaeth o waith S4C ar hyn o bryd, ond cydnabyddiaeth bod angen i'r sefydliad ymateb i'r newidiadau sy'n digwydd yn gyflym yn y byd cyfryngau.

Pennod 3: Sicrhau S4C annibynnol ac effeithiol

Mae'r bennod olaf yn edrych ar sut i sicrhau bod S4C, fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn yr iaith Gymraeg, yn hyblyg, yn edrych i'r dyfodol ac yn llwyr atebol i ddarparu gwerth i'r cyhoedd yn briodol a chymesur.

Mae angen i S4C fod yn eofn ac ychydig yn fentrus wrth gyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Bydd angen gweledigaeth ac arweiniad clir, a daw'r adolygiad hwn i'r casgliad mai'r unig ffordd i wneud hyn yw disodli Awdurdod S4C gyda bwrdd unedol sy'n cynnwys rheolwyr gweithredol yn ogystal ag aelodau anweithredol. Hefyd, dylid rhoi ystyriaeth i'r ffordd y gellid cryfhau'r atebolrwydd a'r sialens allanol: i roi eglurder i'r trefniadau presennol ar gyfer rheoleiddio a llywodraethiant S4C, ac ystyried a fyddai'n briodol i benodi'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol fel archwilydd allanol S4C i wella tryloywder a goruchwyliaeth seneddol ar y ffordd mae S4C yn gwario arian cyhoeddus.

Tabl o'r argymhellion

Argymhelliad
Pennod 1: Darparu cynnwys o ansawdd uchel a gwasanaethu cynulleidfaoedd sy'n siarad Cymraeg
<p>Argymhelliad 1</p> <p>Dylai'r llywodraeth ddiweddararu cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C i gynnwys gwasanaethau digidol ac ar-lein, a chael gwared ar y cyfyngiadau darlledu daearyddol presennol. Bydd hyn yn caniatáu S4C i ehangu ei orwelion a chynnig cynnwys ar ystod eang o lwyfannau newydd drwy'r Deyrnas Unedig a thu hwnt.</p>
<p>Argymhelliad 2</p> <p>Dylai S4C sefydlu hyb digidol mewnol i ddatblygu a gwella ei ddylanwad digidol, yn ogystal â chreu sylfaen i glwstwr digidol yn y Gymraeg.</p>
<p>Argymhelliad 3</p> <p>Dylai S4C sefydlu partneriaeth iaith gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i helpu cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.</p>
Pennod 2: Diogelu S4C ar gyfer y dyfodol
<p>Argymhelliad 4</p> <p>Dylai S4C gael ei ariannu'n gyfan gwbl gan ffi'r drwydded o 2022/23 ymlaen, gyda'r holl benderfyniadau am ariannu yn y dyfodol yn cael eu gwneud fel rhan o'r trafodaethau am setliad ariannu ffi drwydded y BBC.</p>
<p>Argymhelliad 5</p> <p>Dylai'r llywodraeth ystyried diwygio'r gofynion cymeradwyo presennol i roi mwy o ryddid i S4C i fuddsoddi a chynhyrchu refeniw masnachol.</p>
Pennod 3: Sicrhau S4C annibynnol ac effeithiol
<p>Argymhelliad 6</p> <p>Dylid disodli Awdurdod S4C gyda bwrdd unedol newydd sy'n cynnwys cyfarwyddwyr gweithredol a chyfarwyddwyr anweithredol.</p>
<p>Argymhelliad 7</p> <p>Dylai'r llywodraeth ystyried a yw trefniadau archwilio ariannol presennol S4C yn addas, gan gynnwys a fyddai'n briodol penodi'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn archwilydd allanol S4C.</p>

Pennod 1: Darparu cynnwys o ansawdd uchel a gwasanaethu cynulleidfaoedd sy'n siarad Cymraeg

S4C: y darlledwr iaith Gymraeg

“Heb os, S4C yw un o gonglfeini hanfodol ein diwylliant yng Nghymru ac y mae ei werth o ran cryfhau ein hunaniaeth a'n diwylliant, ynghyd â hyrwyddo'r Gymraeg, ers ei sefydlu yn 1982, yn ddiamheuol werthfawr a phellgyrhaeddol.”

-- Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn y Gymraeg yw S4C, sy'n darparu ystod eang o gynnwys Cymraeg (chwaraeon, drama, ffeithiol ac adloniant) ar lwyfannau traddodiadol a digidol. Mae S4C yn diffinio ei hun fel cyhoeddwr-darlledwr nad yw'n cynhyrchu ei raglenni ei hun, ond sy'n comisiynu ei holl gynnwys gan y sector cynhyrchu annibynnol, yng Nghymru yn bennaf.

Sefydlwyd S4C gan Ddeddfau Darlledu 1980 ac 1981, a dechreuodd ddarlledu yng Nghymru yn 1982, felly S4C yw'r trydydd darlledwr hynaf yn y Deyrnas Unedig (ar ôl y BBC ac ITV, ac fe'i lanswyd y diwrnod cyn Channel 4). Fe'i adeiladwyd ar y syniad cadarn a ddatblygodd yng Nghymru dros y ddegawd flaenorol, sef y dylai'r iaith Gymraeg gael presenoldeb ei hun yn y cyfryngau i helpu a datblygu'r iaith mewn ffordd fwy hygyrch a chynhwysol.

Yn 1982, roedd tirwedd y cyfryngau yn wahanol iawn o'i gymharu â heddiw. Dim ond pedair sianel analog oedd ar y teledu, ac roedd S4C yn rhannu ei slot daearol gyda Channel 4, a oedd yn darlledu i weddill y Deyrnas Unedig y tu allan i Gymru.

Mae'r defnydd a wneir o'r cyfryngau ac arferion gwylwyr wedi newid yn llwyr dros y 35 mlynedd diwethaf. Mae datblygiadau enfawr ym maes arloesi technolegol wedi newid y ffordd mae pobl yn gwylio a chael mynediad at y cynnwys. Mae darlledwyr llinol traddodiadol yn parhau i fod â lle blaenllaw ar y tirwedd, ond mae cynnydd y cynnwys digidol yn ddi-baid ac yn aflonyddgar. Mae twf cyflym fideos ar alw a gwasanaethau ar-lein, gormodedd sbectwm a dyfeisiau symudol wedi newid arferion gwylio, yn ogystal ag ehangu disgwyliadau gwylwyr a'r math o gynnwys y mae'r defnyddwyr eisiau (er enghraifft, cynnwys byr a rhyngweithiol).

Effaith a chylch gwaith cyhoeddus


Diffinnir cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C mewn deddfwriaeth sylfaenol ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i S4C ddarparu 'gwasanaethau rhaglenni teledu o ansawdd uchel y bwriedir iddynt fod ar gael i'w derbyn yn gyfan gwbl neu'n bennaf gan aelodau'r cyhoedd yng Nghymru'.¹ Hefyd mae S4C yn gaeth i'r cwotas a osodwyd gan Ofcom ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes,

¹ Adran 204(2) Rhan 3 ac Atodlen 12, Rhan 2 paragraff 3, Deddf Cyfathrebiadau 2003.

cynyrchiadau gwreiddiol, cynyrchiadau annibynnol, rhaglenni Ewropeaidd, rhaglenni annibynnol Ewropeaidd, cynyrchiadau diweddar, is-deitlau, sain ddisgrifio ac arwyddo (fel y nodir mewn manylder ym mhennod 3).²

Yn 2016/17 gwariodd S4C £67 miliwn ar gynnwys Cymraeg. O ran cyrhaeddiad, gwelwyd gostyngiad bychan yn y cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog yn y DU a thu allan i Gymru yn 2016/17, ond gwelwyd cynnydd yng Nghymru ac ymysg siaradwyr Cymraeg yng Nghymru (gweler ffigur 1 isod).³

Ffigur 1: Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog S4C ers 2013/14⁴



Diwygio'r cylch gwaith

“Ni ellir parhau gyda S4C fel sianel deledu yn unig, yn hytrach mae'r iaith Gymraeg angen darlledwr cenedlaethol annibynnol a hynny ar draws y platfformau darlledu gwahanol.”

-- Mentrau Iaith Cymru

Awgrymodd nifer o'r rhai a gyfrannodd i'r adolygiad nad yw'r cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus yn y ddeddfwriaeth yn addas i'r pwrpas mwyach oherwydd nad yw'n ddigon hyblyg i gymryd arferion gwyllo cyfoes i ystyriaeth a gallai, yn ddiangen, atal S4C rhag darparu cynnwys mewn ffordd sy'n bodloni gofynion y gynulleidfa. Mae adroddiad diweddar Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ddyfodol S4C yn cefnogi'r farn hon.⁵

² Adroddiad Ymchwil Blynyddol ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (PSB) 2017, Ofcom.

³ Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol S4C ar gyfer 2016/17.

⁴ Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol S4C ar gyfer 2016/17.

⁵ Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2017), *Dyfodol S4C: Tu Allan i'r Bocs*.

Yn benodol, fe awgrymwyd bod dwy agwedd o gylch gwaith S4C nad ydynt yn adlewyrchu gweithgareddau cyfredol S4C na'r tirwedd ddarlledu sy'n newid.

1. Nid yw cyfeirio at 'gwasanaethau rhaglenni teledu' yn unig yn rhoi unrhyw ystyriaeth i ddarparu cynnwys drwy wasanaethau digidol ac ar-lein.
2. Nid yw ei gwneud yn ofynnol i S4C ddarparu rhaglenni 'y bwriedir iddynt fod ar gael yn gyfan gwbl neu'n bennaf i aelodau'r cyhoedd yng Nghymru' yn cymryd cynulleidfaoedd sy'n siarad Cymraeg y tu allan i Gymru i ystyriaeth, neu na ellir cyfyngu cynnwys digidol i Gymru yn unig.

Beth yw barn gwylwyr S4C?

Fel rhan o'r adolygiad, mynychais **ddau ddigwyddiad i wylwyr S4C** yn Llangefni a'r Fenni er mwyn clywed eu barn nhw am wasanaethau S4C.⁶ Rhoddodd y sesiynau hyn gipolwg gwerthfawr ar beth yw barn pobl am raglenni S4C a sut maent yn cael mynediad at y cynnwys. Roedd yn ddiddorol clywed bod pobl yn gwylio amrywiaeth eang o gynnwys Cymraeg. Yn benodol, cafodd rhaglenni Cyw i blant ganmoliaeth, tra bod y gwylwyr ifanc yn teimlo nad oedd digon o raglenni addas ar eu cyfer nhw (er roedd Hansh yn boblogaidd). Roedd y mwyafrif o'r gwylwyr y bûm yn siarad â nhw yn defnyddio fideos ar alw a chyfryngau cymdeithasol ochr yn ochr â theledu i wylwyr rhaglenni.

Hefyd, **ymwelais ag ysgolion yn Ynys Môn a Chaerdydd** a siarad â disgyblion 12-15 oed – y genhedlaeth gyfan gwbl ddigidol gyntaf. Roedd ein trafodaeth yn cyd-daro'n berffaith â chanfyddiadau arolwg Ofcom Plant a Rhieni: Adroddiad ar Agweddau a Defnydd o Gyfryngau 2017⁷ a oedd yn edrych ar sampl o 500 o bobl ifanc rhwng 12-15 oed yn y DU. Darganfu Ofcom bod gan 83% eu ffôn clyfar eu hunain a bod gan 55% eu tabled neu lechen eu hunain. Mae 91% yn gwylio rhaglenni ar deledu am bron i 14.5 awr yr wythnos tra bod 68% yn gwylio rhaglenni ar ddyfeisiadau eraill. Mae 99% ohonynt ar-lein am bron i 21 awr yr wythnos ac mae 90% ohonynt yn defnyddio YouTube. Eu ffôn symudol yw'r ddyfais y byddent yn gweld ei eisiau fwyaf. Dyma'r cyfeiriad fydd yn datblygu o ran sut defnyddir y cyfryngau yn y ddegawd nesaf ac mae'n cadarnhau'r farn y bydd teledu llinol yn ogystal â llwyfannau digidol yn hanfodol i S4C yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Mi wnaethon ni hefyd **gynnal arolwg ar-lein a drwy'r post o wylwyr S4C** (mewn cydweithrediad â S4C) i edrych ar fodlonrwydd y gwylwyr a'u harferion gwylio.⁸ Credaf fod y darganfyddiadau hyn yn dangos yn glir bod arferion a chanfyddiadau'r gynulleidfa yn newid, a bod angen i S4C wella ar ei gynnwys digidol ac ar-lein.

- Mae **23%** o wylwyr S4C yn gwylio o leiaf 1 awr o fideos ar alw neu gynnwys ar-lein bob dydd, tra dim ond **6%** sy'n gwylio o leiaf 1 awr o gynnwys S4C drwy fideos ar alw neu ar-lein bob dydd.
- Mae **34%** o wylwyr S4C yn gwylio cynnwys byr S4C ar BBC iPlayer o leiaf unwaith y mis, tra dim ond **19%** sy'n gwylio cynnwys byr S4C ar Clic (fersiwn S4C o BBC iPlayer).

⁶ Cynhaliwyd y digwyddiad yn Llangefni ar 26 Hydref 2017 ac roedd 72 o bobl yn bresennol. Cynhaliwyd y digwyddiad yn Y Fenni ar 7 Tachwedd 2017 ac roedd 65 o bobl yn bresennol.

⁷ Ofcom (2017), *Plant a Rhieni: Adroddiad ar Agweddau a Defnydd o Gyfryngau*.

⁸ Panel Cyfryngau Cymru, ymchwil gan TRP Research, cafodd 462 o wylwyr S4C eu holi ar-lein a thrwy'r post ym mis Medi a mis Hydref 2017.

Mae angen y rhyddid ar S4C i allu gwasanaethu cynulleidfaoedd sy'n siarad Cymraeg yn y ffordd mae'n gweld orau mewn marchnad ddarlledu sy'n gynyddol gystadleuol ac amrywiol. Hefyd fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus modern, rhaid iddo ddefnyddio gwasanaethau digidol ac ar-lein newydd i ymestyn ei gyrhaeddiad ac apelio at wylwyr. Er bod S4C wedi cymryd rhai camau i addasu i'r farchnad a datblygiadau technolegol, cytunaf â'r rhai hynny sy'n dadlau bod y cylch gwaith yn hen ffasiwn, a bod hynny wedi ei atal rhag llwyr ailwampio ac adfywio ei hun, arloesi a chymryd risgiau mewn amgylchedd digidol. Bydd moderneiddio'r cylch gwaith yn dileu'r tyndra hwn ac yn caniatáu i S4C ail-unioni ei ffocws i flaenoriaethu arloesedd digidol ochr yn ochr â darlledu llinol fel ei flaenoriaeth strategol.

Ar ben hynny, mewn cyfnod lle mae 43% o wylwyr wythnosol S4C y tu allan i Gymru,⁹ dylai S4C allu darparu cynnwys heb y cyfyngiadau daearyddol presennol i ddarparu rhaglenni 'yn gyfan gwbl neu'n bennaf' i bobl yng Nghymru.

O ganlyniad i hyn, deuthum i'r casgliad y dylai'r llywodraeth ddiweddarau'r cylch gwaith er mwyn i S4C allu darparu ei gynnwys ar amrywiaeth ehangach o lwyfannau, a hynny yng Nghymru, ledled y DU a thramor. Mae hyn hefyd yn cefnogi cynnig S4C yn ei ddogfen weledigaeth ddiweddar, Gwthio'r Ffiniau.¹⁰

Mae'n werth nodi bod cylch gwaith darlledwyr eraill gwasanaeth cyhoeddus wedi cael eu diwygio dros y blynyddoedd er mwyn ymateb i ddatblygiadau technolegol. Er enghraifft, diwygiodd y llywodraeth gylch gwaith Channel 4 drwy Ddeddf yr Economi Digidol 2010 er mwyn ei annog i ddarlledu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar draws amrywiaeth ehangach o lwyfannau, gan gynnwys fideos ar alw a gwasanaethau digidol.¹¹ Credaf fod yr amser wedi cyrraedd i sicrhau bod cylch gwaith S4C yn cael ei ddiwygio hefyd. O ystyried cyflymder newidiadau yn y farchnad ac mewn technoleg, mi fyddwn hefyd yn awgrymu y dylai'r llywodraeth adolygu cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C yn rheolaidd.

Argymhelliad 1

Dylai'r llywodraeth ddiweddarau cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C i gynnwys gwasanaethau digidol ac ar-lein, a chael gwared ar y cyfyngiadau darlledu daearyddol presennol. Bydd hyn yn caniatáu S4C i ehangu ei orwelion a chynnig cynnwys ar ystod eang o lwyfannau newydd yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt.

Ehangu cynnwys digidol

“Yn ychwanegol at fuddsoddi mewn rhaglenni, mae'n rhaid i S4C barhau i archwilio, arbrofi a buddsoddi mewn llwyfannau newydd er mwyn sicrhau bod cynnwys Cymraeg ar gael i'r gynulleidfa Gymraeg ar y platfformau diweddaraf, ac felly yn cystadlu gyda darlledwyr eraill ar yr un telerau.”

-- Dr Elain Price, Non Vaughan Williams ac Iwan Williams
Adran Cyfathrebu a'r Cyfryngau, Prifysgol Abertawe

Felly, mae archwaeth gref am gynnwys Cymraeg ar-lein, ac mae S4C wedi gweithredu i ymateb i'r galw hwn sy'n newid yn gyson, er enghraifft, drwy sefydlu gwasanaeth fideo ar alw yn 2006, ac yna'r ap

⁹ Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol S4C ar gyfer 2016/17.


¹⁰ S4C (2017), Gwthio'r Ffiniau.

¹¹ Adran 22 Deddf yr Economi Digidol 2010.

S4C Clic ar gyfer y ffôn clyfar a'r llechen yn 2011, a chydweithio gyda'r BBC i ddangos cynnwys S4C ar BBC iPlayer, gweithio gydag Amazon Fire a Samsung i integreiddio ap S4C, a lansio YouView a chreu cynnwys wedi'i deilwra'n arbennig ar y cyfryngau cymdeithasol.

O ganlyniad, mae presenoldeb S4C ar-lein wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn 2016/2017, roedd 18 miliwn o sesiynau gwyllo cynnwys S4C ar Facebook a Twitter, a 7.6 miliwn o sesiynau gwyllo cynnwys S4C ar S4C Ar-lein a BBC iPlayer.¹²

Ffigwr 2: Sesiynau gwyllo rhaglenni S4C ar S4C Ar-lein a BBC iPlayer¹³



Fodd bynnag, dylai a gallai S4C wneud mwy. Awgrymodd cyfranwyr i'r adolygiad hwn bod anghysondebau a diffyg cyfeiriad i strategaeth ddsbarthu a marchnata digidol bresennol S4C. Dylai'r cynnwys digidol fod wrth galon popeth y mae S4C yn ei wneud. Dylai fod wedi'i sefydlu'n gadarn ar draws y busnes, gyda S4C yn gweithio ochr yn ochr â'i bartneriaid cynhyrchu annibynnol i ychwanegu gwerth. Byddai cylch gwaith mwy modern (fel y nodir yn argymhelliaid 1) yn rhoi mwy o ryddid i S4C arloesi a chystadlu, yn ogystal ag ymateb yn gyflym ac effeithiol i'r dechnoleg sy'n newid a thueddiadau'r farchnad.

Oherwydd bod S4C yn llai (o'i gymharu â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill), mae'n golygu bod ganddo'r hyblygrwydd i roi blaenoriaeth i gynnwys digidol, ac mae natur cyflym ac iteraidd creu cynnwys digidol yn addas iawn i fodel mewnol. Felly, gallai sefydlu hyb digidol mewnol roi'r cyfle i S4C gynyddu ei ôl troed digidol a helpu i lywio effeithlonrwydd. Dylai strategaeth S4C ar ddsbarthu a chynnwys digidol gael ei harwain gan yr hyb digidol, gan archwilio gwasanaethau a llwyfannau newydd ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd, yn cynnwys plant ac unigolion sy'n dysgu Cymraeg.

¹² Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol S4C ar gyfer 2016/17.

¹³ Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol S4C ar gyfer 2016/17.

Nid yw S4C yn cynhyrchu unrhyw gynnwys llinol na digidol yn fewnol ar hyn o bryd, a does dim i rwystro S4C rhag datblygu'r capasiti i gynhyrchu cynnwys mewnol. Mae'r sector annibynnol aeddfed ac ITV Cymru yn darparu ystod eang o raglenni ar gyfer amserlen linol S4C, ac oherwydd bod effaith economaidd a chreadigol S4C yng Nghymru wedi'i seilio ar gomisiynu'r gwaith yn allanol, mi fyddai'n drafferthus tu hwnt ac yn hynod gostus mi dybiwn, i ddatblygu capasiti mewnol ar gyfer creu cynnwys i'r gwasanaeth llinol o fewn S4C.

Ni fyddai'r un broblem yn codi wrth ddatblygu capasiti digidol mewnol ar gyfer cynhyrchu cynnwys, ond byddai'n newid mawr. Yn benodol, byddai angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r effaith ar y sector annibynnol wrth ddatblygu hyn. Fodd bynnag, mae'n well annog datblygu a chynhyrchu cynnwys digidol mewn clystyrau, a dylai rôl S4C fod yn gatalydd a ffocws i gynhyrchwyr a datblygwyr cynnwys Cymraeg yng Nghymru drwyddi draw. Yn sylfaenol, gallai hyb digidol mewnol gefnogi'r ddarpariaeth o ran cynnwys Cymraeg o ansawdd uchel ar draws yr holl lwyfannau, ac yn enwedig os yw'n gysylltiedig â phrosiectau hyb rhanbarthol y llywodraeth, megis Bargaen Ddinesig Rhanbarth Bae Abertawe, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru neu hyb digidol arfaethedig rhanbarth Caerdydd, i gefnogi twf clystyrau digidol.

Diogelu cynnwys Cymraeg ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Dywedodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru wrthyf bod cynnwys S4C yn chwarae rôl bwysig o ran diffinio hunaniaeth a diwylliant Cymru, yn ogystal â hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn cyflawni prosiect uchelgeisiol i ddigideiddio archif BBC Cymru ar hyn o bryd, a bydd ar gael i'r cyhoedd gael mynediad ati mewn hybiau digidol yng Nghaerfyrddin, Wrecsam a Chaerdydd. Mae sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at gynnwys yn rhwyddach yn allweddol i hyrwyddo'r iaith, a byddaf yn annog S4C a'r Llyfrgell Genedlaethol i weithio gyda Llywodraeth Cymru i archwilio sut y gellir digideiddio cynnwys Cymraeg S4C i fod ar gael i'r cyhoedd.

Argymhelliad 2

Dylai S4C sefydlu hyb digidol mewnol i ddatblygu a gwella ei ôl troed digidol, yn ogystal â chreu sylfaen i glwstwr digidol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyflawni'r cylch gwaith newydd

"Mae rhaid i S4C, dwi'n meddwl, gymryd ambell i risg."

-- Elfed Roberts
Prif Weithredwr, Eisteddfod Genedlaethol Cymru

Byddai moderneiddio cylch gwaith S4C a chreu galluedd digidol mewnol yn rhoi'r rhyddid i S4C wneud penderfyniadau strategol ynglŷn â chyfeiriad y gwasanaethau a'r cynnwys y mae'n ei gomisiynu a'i ddsbarthu.

Ers 2010, mae S4C wedi gweithio'n galed i amddiffyn ei safle fel sefydliad, ac awgrymodd llawer o'r cyfranwyr i'r ymgynghoriad hwn fod hyn ar draul cydweithio ag eraill ar brosiectau i hyrwyddo'r iaith Gymraeg mewn cyfnod o newid cyflym. Mae'n rhaid i S4C allu ymateb ar fyrder, peidio â bod ofn methu,

mentro gyda symiau bychan o arian, yn ogystal â pheidio â bod mor hierarchaidd o ran prosesau. Nid yw'r dull presennol wedi atal datblygiad presenoldeb llwyddiannus ar y cyfryngau cymdeithasol, ond mae'n rhaid iddo wneud mwy a chymryd y cam nesaf i ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd.

Mae rhai cyfranwyr i'r adolygiad hwn yn dadlau y byddai angen rhagor o gyllid petai cylch gwaith S4C yn cael ei ddiweddarau. Nid wyf yn cytuno gyda'r asesiad hwn. Fel yr awgrymwyd gan nifer o randdeiliaid, mae angen i S4C newid ei ffordd o wneud pethau a'i ragolwg strategol i gyflawni'r cylch gwaith newydd, yn hytrach na chael rhagor o gyllid. Mae bachu ar y cyfleoedd o ran datblygiadau digidol, ochr yn ochr â chael y gorau o'r partneriaethau newydd a rhai sydd eisoes wedi'i sefydlu, yn ogystal â gwneud y mwyaf o incwm masnachol, wrth galon hyn. (Tra bod lefelau cyllido y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn, mae pennod 3 yn ystyried dulliau cyllido yn fanylach).

Canfyddadwyedd: Chwilio a mynediad

Mynegodd rhai cyfranwyr i'r adolygiad hwn bryderon ynglŷn ag amlygrwydd S4C ar y ddewislen rhaglenni electronig (EPG) a theledu clyfar. Nid oes ateb syml i'r broblem hon, ac yn wir, gosododd Deddf yr Economi Ddigidol 2017 ddyletswydd ar Ofcom i gynnal adolygiad o gyfundrefn amlygrwydd EPG erbyn 2020. Er hynny, credaf y bydd y diwygiadau a amlinellir gennyf yn argymhelliad un a dau yn helpu rhoi'r gallu a'r cyfarpar sydd eu hangen ar S4C i drawsnewid y bygythiad hwn a'i wneud yn gyfle. Gyda chylch gwaith wedi'i foderneiddio a ffocws digidol newydd, gall S4C archwilio ffyrdd i wella ei ganfyddadwyedd, a gwneud ei gynnwys yn fwy hygyrch i ystod eang o gynulleidfaoedd ar draws gwahanol lwyfannau. Mae cryfder S4C yn unigryw a syml, sef cynnwys Cymraeg, ac rwy'n annog S4C i ddilyn pob llwybr i adeiladu amlygrwydd a gwelededd y cynnwys hwnnw.

Partneriaethau

“Byddai S4C hyderus ac annibynnol, sy'n rhydd i weithio ar draws yr holl gyfryngau digidol, gyda gweledigaeth glir, egni newydd, yn ogystal â phartneriaeth strategol gyda sefydliadau eraill, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, yn cael effaith anferthol ar ddyfodol yr iaith Gymraeg a'r nod i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.”

-- Yr Athro Ruth McElroy a Hywel Wiliam
Y Gyfadran Diwydiannau Creadigol, Prifysgol De Cymru

Un o'r prif themâu gan nifer fawr o'r cyfranwyr i'r adolygiad yw bod yn rhaid i S4C fuddsoddi mwy mewn partneriaethau, gan gryfhau'r rhai sydd eisoes yn bodoli a chreu rhai newydd. Tynnodd amryw o'r rhanddeiliaid sylw at yr angen i S4C newid agwedd a chydabod nad yw partneriaeth o reidrwydd yn fygythiad i annibyniaeth. Roedd rhai yn beirniadu S4C am beidio â manteisio ar gyfleoedd i weithio'n effeithiol gydag eraill hyd yn oed. Mae S4C yn pontio dau faes penodol, ar un llaw darlledu a chynnwys digidol ac, ar y llaw arall, yr iaith Gymraeg. Yn y ddau faes, mae gwybodaeth ddofn, a llawer o arbenigedd a phrofiad mewn gwahanol sefydliadau lle mae cyfleoedd i S4C greu partneriaethau cadarn ac egniol er budd pawb.

Yn yr adran hon, rhoddir ystyriaeth i bartneriaethau S4C, y ffordd mae'r rhain wedi bod yn gweithio, ac ystyried a oes lle i'w cryfhau ymhellach.

Perthynas S4C â'r BBC

Y bartneriaeth bwysicaf sydd gan S4C ar hyn o bryd yw'r un gyda'r BBC. Mae S4C yn cael £74.5 miliwn o ffi'r drwydded, a ddsberthir gan y BBC. Pennir y lefel hon yng Nghytundeb Fframwaith y BBC, ac mae wedi'i sicrhau tan 2021/22.¹⁴ Mae'r Cytundeb Fframwaith yn nodi bod gan S4C a'r BBC amcan a dyhead ar y cyd: 'rhaid i'r BBC ac S4C rannu'r un nod o gydweithio er mwyn cadw a diogelu annibyniaeth y ddau'.

Mae partneriaeth gref yn llesol i'r ddau ddarlledwr, gan roi iddynt y gallu i rannu adnoddau ac arbenigedd i wella'r ddarpariaeth. Trwy gydweithio, gall y BBC ac S4C wthio effeithlonrwydd a gwerth am arian, a gweithio gyda'i gilydd i wneud y gorau o amlygrwydd a chyfuno eu dylanwad ar y farchnad fyd-eang.

Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddodd S4C a'r BBC Gytundeb newydd Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd,¹⁵ a ddisodlodd cytundeb gweithredol blaenorol 2013-17. Mae'r cytundeb partneriaeth newydd yn enghraifft dda o gydweithio effeithiol: mae'r ddau ddarlledwr yn gweithredu mewn marchnad gystadleuol, ond yn cydnabod bod nifer o feysydd y gallant ddarparu rhagor o werth am arian i'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded drwy gydweithio.

Mae'r cytundeb yn nodi ymrwymiad y ddau ddarlledwr i weithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd Cymraeg yn ystod cyfnod Siarter Brenhinol newydd y BBC tan 2028. Hefyd, mae'n cadarnhau bod y Bwrdd Partneriaeth ar y cyd rhwng BBC Cymru Wales a swyddogion gweithredol S4C, sydd â'r nod o ganfod a datblygu cyfleoedd ar gyfer gwneud arbedion a chydweithio strategol a chreadigol rhwng y ddau ddarlledwr, yn parhau. Mae hyn yn cynnwys trefniadau ffurfiol i sicrhau bod y ddau sefydliad yn gallu craffu ar sut mae'r bartneriaeth yn gweithio.

Mae'r bartneriaeth strategol a chreadigol unigryw hon yn pontio tri prif faes:

a) Ariannu S4C o ffi'r drwydded

Fel sefydliad sy'n cael arian o ffi'r drwydded yn uniongyrchol gan y BBC, mae'r cytundeb yn nodi'r dulliau atebolrwydd i'r BBC gael sicrwydd bod yr arian yn cael ei ddefnyddio'n gywir ac effeithlon wrth ddarlledu neu ddsbarthu gwasanaethau eraill S4C. Mae hyn yn cynnwys yr amod bod S4C yn cyflwyno adroddiad sicrwydd ariannol i'r BBC bob chwe mis.

b) Partneriaeth greadigol a golygyddol

Rhaid i'r BBC ddarparu o leiaf 10 awr o raglenni teledu Cymraeg i S4C i'w darlledu yn rhad ac am ddim. Mae'r cytundeb yn nodi sut bydd y BBC ac S4C yn gweithio gyda'i gilydd i gytuno ar gynllun blynyddol ar gyfer cynnwys rhaglenni. Hefyd, mae'r BBC ac S4C yn comisiynu dramâu a chynnwys ffeithiol ar y cyd (fel Y Gwyll ac Un Bore Mercher), ac maent wedi gweithio gyda'i gilydd i gael hawliau ar y cyd i ddarlledu cystadlaethau chwaraeon megis Rygbi Pro14 a Phencampwriaeth Rygbi y Chwe Gwlad gydag ITV.

Un o brif elfennau'r bartneriaeth greadigol yw darpariaeth cynnwys newyddion y BBC ar gyfer ei ddarlledu ar S4C. Rwy'n ymwybodol o ddau bryder sydd wedi bodoli ers tro am ansawdd y newyddion sy'n cael ei ddarlledu ar S4C. Yn gyntaf, mae pryderon nad yw cynnwys newyddion Cymraeg yn dod

¹⁴ Cytundeb Fframwaith y BBC: Cytundeb rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (2017).

¹⁵ Cytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd rhwng y BBC ac S4C (2017).

o ddigon o ffynonellau amrywiol oherwydd bod y cyfan yn cael ei gynhyrchu gan y BBC (ac yn cael ei ddarlledu ar BBC Cymru Fyw, BBC Radio Cymru ac S4C). Yn ail, clywais bryderon nad yw newyddion S4C yn ddigon gwahanol, er enghraifft, dywedodd un cyfrannwr i'r adolygiad mai "newyddion y BBC ar S4C" ydoedd. Gwnaethpwyd cymhariaeth gyda Channel 4 ac ITV News sy'n wahanol iawn i'w gilydd er eu bod yn cael eu cynhyrchu gan ITN.

Nid oedd neb y bûm yn siarad â nhw yn taflu amheuaeth ar gywirdeb na geirwiredd cynnwys newyddion S4C, ond dylai'r BBC ac S4C ystyried sut mae'n mynd i'r afael â'r pryderon hyn fel rhan o'u trafodaethau golygyddol (wrth gyswrtu bod annibyniaeth olygyddol S4C). Mae'n werth nodi bod arbenigrwydd a gwasanaethu cymunedau amrywiol cenhedloedd a rhanbarthau'r DU yn ddibenion cyhoeddus allweddol i'r BBC yn ei Siarter Brenhinol newydd, felly rwy'n gobeithio y bydd y BBC yn delio â'r mater hwn mewn modd cadarnhaol.

c) Partneriaeth weithredol ehangach

Mae'r cytundeb newydd yn gwneud yn siŵr y bydd cynnwys S4C yn parhau i fod ar gael ar BBC iPlayer tan 2028, sef hyd y cytundeb, sy'n galluogi S4C i barhau i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Hefyd, mae S4C a'r BBC wedi cytuno i gydleoli a rhannu gwasanaethau technegol yng nghanolfan ddarlledu newydd y BBC yng Nghaerdydd o 2019 ymlaen.

Perthynas gyda'r sector cynhyrchu annibynnol

Ochr yn ochr â'r BBC, mae gan S4C berthynas hirsefydlog gyda'r sector cynhyrchu annibynnol yng Nghymru. Mae sector cynhyrchu annibynnol ddynamig yn hanfodol ar gyfer dyfodol S4C. Mae'n cynhyrchu rhaglenni o ansawdd uchel iawn sydd wedi ennill gwobrau, a thrwy hynny'n helpu S4C i gystadlu am gynulleidfaoedd mewn marchnad fyd-eang a darparu cyswllt hanfodol rhwng S4C a'r gymuned Gymraeg.

Pan sefydlwyd S4C roedd ganddo ddyletswydd statudol i gaffael rhaglenni ar delerau masnachol, ac o ganlyniad tyfodd nifer o gwmnïau bychain ledled Cymru yn gyflym i gystadlu am y gwaith ym mlynnyddoedd cynnar S4C.¹⁶ O'r ddyletswydd hon daeth diwydiant cynhyrchu newydd i fod a ddaeth yn glust a llygaid i S4C yn y cymunedau Cymraeg ac ymestyn effaith economaidd S4C mewn gwahanol rannau o Gymru. Yn wir, mae'n cael ei dderbyn yn gyffredinol ar draws y diwydiannau creadigol yng Nghymru mai buddsoddiad S4C oedd un o'r ffactorau pwysicaf wrth sefydlu Cymru fel canolfan o bwys ar gyfer cynhyrchu ffilmiau a rhaglenni teledu yn annibynnol. Mae'r sector yn dal yn bwysig o ran creu swyddi mewn gwahanol rannau o Gymru ac yn gymorth i S4C i ddarlledu cynnwys sy'n lleol ei naws, ac mae'r berthynas yn ganolog i effaith economaidd sylweddol S4C ar draws Cymru a'r DU – mae ymchwil annibynnol a gomisiynwyd gan S4C yn dangos bod pob £1 sy'n cael ei wario gan S4C yn creu cyfanswm gwerth o £2.09.¹⁷

Mae'r sector gynhyrchu yng Nghymru wedi newid yn aruthrol dros y blynyddoedd, wrth i gwmnïau uno a symud i farchnadoedd gwahanol. Mae'r newidiadau strwythurol hyn wedi helpu i sefydlogi'r diwydiant a chynnal safon allbwn S4C, ond dywedodd llawer o gyfranwyr i'r ymgynghoriad wrthyf fod dibyniaeth S4C ar y cwmnïau mawr wedi gwthio'r cwmnïau cynhyrchu bychain i'r ymylon, ac maent yn teimlo fel petai S4C yn eu hanwybyddu ac yn ffafrio'r cwmnïau mawr sy'n fwy pwerus.

¹⁶ Adran 48 (3) Deddf Darlledu 1981 (wedi'i diddymu a'i disodli ers hynny gan adran 58 Deddf Darlledu 1990).

¹⁷ Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol S4C ar gyfer 2016/17.

Roedd S4C yn arfer gweithio ar sail cylch comisiynu 4-5 mlynedd ar gyfer cynhyrchu, ac roedd rhai cyfranwyr i'r adolygiad yn dadlau ei fod yn rhoi cwmnïau llai, nad oedd ganddynt y capasiti i weithio i amserlenni mor hir, dan anfantais ymarferol. Er y gallai'r strategaeth hon ddarparu gwell gwerth am arian mewn rhai meysydd, mae'n rhaid i S4C edrych ar ffyrdd o fynd i'r afael â'r bwloch hwn, a mabwysiadu strategaeth gomisiynu fwy cynhwysol sy'n dylanwadu'n effeithiol ar y cyfoeth o syniadau, sgiliau a thalent newydd sydd gan gwmnïau cynhyrchu bychain, yn ogystal â'r cwmnïau mwyaf amlwg.

Ochr yn ochr â hyn, mae swyddogaeth Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC) fel corff sy'n cynrychioli'r sector yng Nghymru. Dylai perthynas S4C â TAC fod wrth galon y berthynas gyda'r sector cynhyrchu annibynnol, ond dywedodd cynhyrchwyr llai wrthyf fod cysylltiad uniongyrchol S4C â'r cwmnïau cynhyrchu mawr yn gwtio TAC i'r ymylon mwy a mwy, a'i fod wedi cyfyngu ar ei allu i gynrychioli ei holl aelodau'n effeithiol. Mae angen i'r ddau barti fod yn fwy cynhwysol a chwarae eu rhan yn meithrin a dathlu talentau a syniadau newydd, oherwydd byddai partneriaeth gref rhwng S4C a TAC yn golygu cynhyrchu cynnwys o ansawdd uwch hyd yn oed, gyda'r posibilrwydd o ddarparu gwerth cymdeithasol, economaidd a diwylliannol amlwg yng Nghymru. Rhaid i S4C a TAC gymryd camau mawr a rhagweithiol i ennill hyder cwmnïau cynhyrchu bychain unwaith eto, ac ailsefydlu rôl TAC fel brocer effeithiol rhwng S4C a'r gymuned gynhyrchu yng Nghymru.

Yn fwy cyffredinol, dywedodd nifer o gwmnïau cynhyrchu annibynnol bod S4C yn micro-reoli'r broses gomisiynu cynhyrchu, sy'n arwain at ddyblygu gwaith, rhwystredigaeth a chostau uwch. Yn ogystal, awgrymodd mentrau digidol bychain bod diffyg tryloywder yn y ffordd y gallant gynnig i gynhyrchu cynnwys digidol i S4C. Er mwyn bod yn bartner gwell, dylai S4C symud i ffwrdd o gyfyngiadau hierarchaidd a bod yn fwy tryloyw ac yn sefydliad y gellir ymddiried ynddo. Rwyf hefyd yn gobeithio y bydd yr hyb digidol newydd a argymhellir uchod yn annog S4C i feddwl mwy am ei gynnig digidol, yn ogystal â'r ffordd y gallai sefydlu perthnasau mwy cadarn gyda chynhyrchwyr digidol eraill.

Ochr yn ochr â gwella ei berthnasau presennol, dylai S4C archwilio ffyrdd eraill y gallai gefnogi'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Maes pwysig sy'n barod i'w ddatblygu yw perthynas S4C gydag awduron. Rhannodd grŵp o awduron amlwg yng Nghymru eu pryderon nad yw ecosystem S4C a oedd yn meithrin a datblygu awduron newydd dros y blynyddoedd yn bodoli bellach. Yn y byd analog, S4C oedd y prif gatalydd ar gyfer talent creadigol a phroffesiynol yng Nghymru. Yn y byd digidol, dylai ystyried addasu ei ffordd o weithio drwy gymryd rhan weithgar mewn partneriaethau gyda sefydliadau eraill, yn benodol, Cyngor Celfyddydau Cymru, Theatr Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru, Llenyddiaeth Cymru, Radio Cymru ac eraill ar ystod o brosiectau gwahanol i ddatblygu talent ysgrifennu creadigol ar gyfer y dyfodol o fewn fframwaith o hawliau sy'n briodol yn y byd digidol.

Hyrwyddo'r iaith Gymraeg

“Mae gan S4C gyfraniad allweddol i'w wneud er mwyn hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg i gyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.”

-- Y Coleg Gymraeg Cenedlaethol

Mae Cymru'n wlad ddwyieithog, ac mae gan yr iaith Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru. I gefnogi hyn, yn 2016 ymrwymodd Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.¹⁸ Mae gan y Mentrau Iaith Lleol, sef partneriaethau sy'n cynnwys mudiadau gwirfoddol lleol, sefydliadau

¹⁸ Llywodraeth Cymru (2017) Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg.

addysg a busnesau a sefydlwyd ledled y wlad ac a gefnogir gan Lywodraeth Cymru a llywodraeth y DU i hyrwyddo'r iaith Gymraeg ran allweddol i'w chwarae i gyrraedd y nod hwn.

Mae S4C yn chwarae rôl hanfodol o ran adlewyrchu diwylliant a'r gymdeithas Gymreig, yn ogystal â hyrwyddo'r iaith; a'r adolygiad hwn yw'r lle cywir i ystyried sut mae S4C yn cyd-daro â pholisi iaith Llywodraeth Cymru.

Dylanwad S4C ar yr iaith Gymraeg

Cynhaliwyd prosiect ymchwil pedair blynedd ym Mhrifysgol Bangor oedd yn edrych ar effaith gwyllo Cyw (gwasanaeth S4C i blant) ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg mewn plant 2-5 oed o gartrefi di-Gymraeg

Canfu'r ymchwilwyr bod plant a oedd yn gwyllo Cyw yn perfformio'n well mewn profion iaith Gymraeg, ei fod yn cynyddu eu hymwybyddiaeth o eirfa Gymraeg, ac y gallant adnabod rhai patrymau iaith hyd yn oed. Roeddynt yn argymhell y gellir cynnwys rhaglenni teledu Cymraeg yn y cwricwlwm a strategaethau ehangach i hyrwyddo'r iaith Gymraeg.¹⁹

Yn ein harolwg ar-lein a thrwy'r post o wylwyr S4C, gwelais fod tystiolaeth gref i gefnogi'r syniad bod S4C yn bwysig i'r iaith Gymraeg:

- Roedd 95% o wylwyr S4C yn cytuno'n gryf bod S4C yn chwarae rôl bwysig o ran cadw'r iaith Gymraeg yn iaith fodern a pherthnasol.
- Roedd 94% o wylwyr S4C yn cytuno'n gryf bod S4C yn chwarae rôl bwysig o ran datblygu hunaniaeth a diwylliant Cymreig.

Mae'r tebygrwydd clir rhwng amcanion cynllun Llywodraeth Cymru ac S4C yn gyfle gwych i archwilio ffyrdd y gall S4C weithio gydag eraill i symud yr iaith Gymraeg yn ei blaen. Ceir nifer o sefydliadau cenedlaethol sydd â'r un nod yn gyffredin, sef hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae gan S4C rôl gadarn i'w chwarae yn hyn o beth, a dylai ddangos y ffordd drwy sefydlu partneriaeth o sefydliadau blaenllaw a all ddefnyddio eu maint i ddod ag adnoddau a dyheadau ynghyd i gyfrannu'n sylweddol tuag at gael miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

Mae gan S4C eisoes bartneriaethau ffurfiol gyda nifer o sefydliadau blaenllaw fel BBC Radio Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Yr Urdd, Into Film a Theatr Genedlaethol Cymru, ond dylai geisio cryfhau'r rhain a chreu partneriaethau eraill i fod yn gatalydd i effaith rhwydwaith drwy weithredu ar y cyd. Byddai'r bartneriaeth hon gyda Llywodraeth Cymru yn gosod strwythur i S4C ac eraill i gyflawni'r neges ieithyddol, a byddai'n cryfhau perthynas S4C gyda'i gynulleidfa, yn ogystal â darparu cyfleoedd i archwilio arbedion posibl yn sgil cydweithio yn well gyda sefydliadau eraill.

¹⁹ Prifysgol Bangor (2017), Exploring minority language input sources as means of supporting the early development of second language vocabulary and grammar, 2011-2015. Ar gael yn:

<https://www.cambridge.org/core/journals/applied-psycholinguistics/article/exploring-minority-language-input-sources-as-means-of-supporting-the-early-development-of-second-language-vocabulary-and-grammar/FE8145EF906B547A53127874FCB42D95>

Cafodd y syniad o osod S4C yn ganolog i genhadaeth ieithyddol Llywodraeth Cymru gefnogaeth sylweddol gan y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid. Dylid sefydlu'r bartneriaeth erbyn diwedd 2018, gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar brosiectau cenedlaethol uchelgeisiol. Dylai S4C, Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill ddwyn eu hadnoddau ynghyd i gyflawni prosiectau ac ymyriadau effeithiol i hyrwyddo'r iaith. Dylai hyn gynnwys cydlynu gweithgareddau a digwyddiadau i godi proffil yr iaith, a gweithio gyda'i gilydd ar ymgyrchoedd sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg i gynulleidfaoedd newydd.

“Mae gan S4C swyddogaeth bwysig nid yn unig fel darparwr adloniant, hyrwyddwr trafodaeth a chyfrwng gwybodaeth ond fel drych i ddatblygiad y genedl a phobl Cymru.”

-- Mudiad Meithrin

Mae'n bwysig i ystyried y bartneriaeth hon fel prosiect hirdymor sy'n diwallu'r anghenion sydd heb eu cyflawni. Er enghraifft, ni ddylai S4C a BBC Radio Cymru ddisgwyl mesur eu llwyddiant gyda chynnydd cyflym o ran eu ffigyrau cynulleidfa. Dim ond os bydd ymrwymiad o lefel uchaf y naill sefydliad a'r llall i nodau ac amcanion y bartneriaeth y bydd hyn yn gweithio, yn ogystal â derbyn yr egwyddor “gorau chwarae cyd chwarae”. Ni fydd hyn yn hawdd, ond mae'r buddion posibl yn enfawr os gallwn warchod yr iaith Gymraeg ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Wrth gwrs, ni ddylai'r bartneriaeth hon danseilio statws S4C a'r goblygiadau presennol fel darlledwr annibynnol gwasanaeth cyhoeddus, na chyfrifoldeb llywodraeth y DU dros ddarlledu ychwaith.

Awgrymodd lleiafrif bychan o gyfranwyr i'r adolygiad y dylid datganoli'r cyfrifoldeb dros S4C i Lywodraeth Cymru. Mae safbwynt llywodraeth y DU yn glir, sef bod darlledu yn fater a gedwir yn ôl, a bydd yn parhau i gael ei reoleiddio ar lefel y DU. Ystyriwyd y mater dadleuol hwn yn ofalus yn adroddiad Comisiwn Silk ar ddatganoli yn 2014²⁰ a chadarnhaodd llywodraeth y DU ei sefyllfa bresennol yng Nghytundeb Dydd Gŵyl Dewi 2015.

Dyma'r ymagwedd gywir. Yn fy marn i, mae'r galw am ddatganoli cyfrifoldeb dros S4C yn tynnu sylw oddi ar y blaenoriaethau strategol hanfodol y dylai S4C ganolbwyntio arnynt, nid yn unig i wasanaethu cynulleidfaoedd yng Nghymru, ond cynulleidfaoedd Cymraeg yn y DU a thramor.

Argymhelliad 3

Dylai S4C sefydlu partneriaeth iaith gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i helpu cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gael 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

²⁰ Paul Silk (2012 & 2014), Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Rhan I a II).

Defnyddio'r Gymraeg gyda meddalwedd adnabod llais

Mae meddalwedd adnabod llais yn dod yn fwyfwy cyffredin yn y byd darlledu a chynnwys digidol. Mae darparwyr cynnwys a llwyfannau fel Amazon, Google, Apple, Microsoft a Samsung wedi sefydlu cynorthwywyr rhith i helpu defnyddwyr ar eu systemau. Wrth i'r dechnoleg hon ymsefydlu, bydd defnyddwyr yn dod i ddisgwyl meddalwedd adnabod llais fel norm i'w tywys drwy'r system.

Fel rhan o'r adolygiad, siaradais a grŵp o bobl ifanc Cymraeg yn eu harddegau am y ffordd maent yn defnyddio'r cynnwys. Pan ofynnais pa iaith y byddant yn disgwyl ei defnyddio mewn deng mlynedd, atebodd pob un yn unfrydol "Cymraeg, wrth gwrs". Mae gan y genhedlaeth newydd hon o siaradwyr Cymraeg ddisgwyliadau am y gallu i ymgysylltu â chynnwys yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd.

Mae'r Gymraeg eisoes ar gael fel dewis iaith ysgrifenedig ar raglenni a dyfeisiau Apple, Google a Microsoft, ond mae'n rhaid gweithredu i sicrhau bod yr holl ddarparwyr a'r llwyfannau gwahanol yn cynnig dewis iaith Gymraeg. Dylai S4C weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i adnabod cyfleoedd i'r Gymraeg ddod yn un o'r opsiynau iaith ar feddalwedd adnabod llais. Dylid gweithredu yn awr i sicrhau nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei gadael ar ôl wrth i'r dechnoleg ddatblygu.

Pennod 2: Diogelu S4C ar gyfer y dyfodol

“Fedrith S4C a’i gyflenwyr ddim parhau heb sicrwydd cyllideb a modelu ariannu sy’n glir ac yn gynaliadwy.”

-- Rondo Media

Cwmpas yr adolygiad

Cyn dweud mwy am yr hyn a ganfuwyd gennyf a’r argymhellion sy’n dilyn o hynny, credaf fod angen egluro bod cylch gorchwyl yr adolygiad yn gofyn yn benodol i mi archwilio dulliau ariannu presennol S4C. Ni fydd yr adolygiad hwn yn ystyried lefelau ariannu ar gyfer S4C. Yn amlwg, dyma’r ffordd gywir i ymdrin â’r mater, gan mai dyletswydd yr Ysgrifennydd Gwladol yw penderfynu bod lefelau ariannu S4C yn ddigonol i gyflawni ei gylch gwaith.

Er bod lefelau ariannu y tu allan i gwmpas yr adolygiad, roedd rhai cyfranwyr yn dadlau y dylai S4C gael yr un faint o arian ag yr oedd yn ei gael cyn 2010, ond credai eraill y gallai gael llai o arian petai’n canolbwyntio ar gynnwys digidol. Yr unig sylw sydd gennyf ar y mater hwn yw fy mod yn cytuno â’r mwyafrif o’r cyfranwyr a ddywedodd mai’r peth pwysicaf i S4C yw sefydlogrwydd a thryloywder o ran cyllid.

Dulliau ariannu S4C


Yn ystod y deng mlynedd gyntaf, roedd S4C yn cael ei ariannu’n llwyr gan yr Awdurdod Darlledu Annibynnol (IBA), ar sail fformiwla ariannu a gytunwyd gan yr IBA, S4C, Channel 4, ITV a’r Swyddfa Gartref. Roedd y fformiwla wedi’i sefydlu ar referniw net hysbysebu cwmnïau ITV, oedd hefyd yn gwerthu hysbysebion ar ran Channel 4 ac S4C. Er bod y lefel ariannu yn amrywio o un flwyddyn i’r llall fel yr oedd y referniw hysbysebu yn newid, roedd digon o sefydlogrwydd i S4C allu cynllunio ymlaen llaw. Rôl y llywodraeth oedd dyfarnu rhwng S4C a’r IBA os nad oedd yn bosib cytuno ar setliad ariannu, ond ni fu’n rhaid iddynt arfer y pŵer hwn o gwbl.

Wrth i’r gwasanaethau newydd ar deledu lloeren a theledu daearol dyfu, daeth y model ariannu hwn yn anghynladwy oherwydd nid oedd modd rhagweld y referniw hysbysebu. O dan Ddeddf Darlledu 1990, daeth yr IBA yn Gomisiwn Teledu Annibynnol (ITC), sefydliad newydd oedd yn trwyddedu pob darlledwr masnachol, a symudwyd yr holl arian cyhoeddus ar gyfer S4C i Drysorlys EM yn ei gyfanrwydd. Gosodwyd y lefel ariannu ar sail yr hyn a dderbyniwyd dan yr hen drefn yn ystod blwyddyn olaf yr IBA, a rhoddwyd chwyddiant ar ben hynny. Ochr yn ochr â hyn, rhoddwyd y pŵer i S4C godi ei referniw hysbysebu ei hun (a oedd dros £10 miliwn ar y pryd). Parhaodd y ddwy ffrwd ariannu yma am bron i ugain mlynedd.

Yn fwy diweddar, mae S4C wedi bod drwy gyfnod o ddiwygio ariannol. Fel llawer o wasanaethau eraill a ariennir yn gyhoeddus, cwtogwyd arian S4C yn sgil Adolygiad o Wariant 2010. Hefyd, rhoddodd Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 gyfrifoldeb ar yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) i sicrhau bod S4C yn cael ei ariannu’n ‘ddigonol’ i gyflawni ei gylch

gwaith.²¹ Yn 2013, trosglwyddwyd arian S4C bron yn gyfan gwbl o Drysorlys EM i ffi'r drwydded. Hefyd, mae'r llywodraeth yn darparu cymorth grant blynyddol bychan gan DCMS. Yn 2016/2017, daeth tua 92% o arian cyhoeddus S4C o arian ffi'r drwydded (sef £74.5 miliwn) ac roedd cymorth grant DCMS tua 8% o gyfanswm arian cyhoeddus S4C (sef £6.762 miliwn).

Ffigwr 3: Ffrydiau ariannu cyhoeddus S4C



Sefydlogrwydd ariannu

Awgrymodd rhai cyfranwyr i'r adolygiad bod angen rhagor o eglurder ynglŷn ag ystyr ariannu 'digonol' (fel y nodir yn Neddf Cyrff Cyhoeddus 2011). Fodd bynnag, yn fy marn i, mae'r trafodaethau am lefelau ariannu digonol yn tynnu sylw oddi ar y gwir fater, sef sicrhau bod sylfaen gadarn a thryloyw i ariannu S4C. Mae hyn yn ailadrodd y pwyntiau allweddol a wnaethpwyd gan yr Undeb Darlledu Ewropeaidd (EBU) yn ei egwyddorion ariannu cyhoeddus ar gyfer y cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus:²²

- **Sefydlog a digonol:** Ffynhonnell ariannu sefydlog a rhagweladwy, sy'n cwmpasu'r cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus yn llawn yn oes y cyfryngau digidol.
- **Annibynnol o ymyrraeth wleidyddol:** Ddim yn ddibynnol ar gymwynas wleidyddol, a thrwy hynny'n hyrwyddo ymddiriedaeth y cyhoedd mewn cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a'i rôl fel gwasanaeth sydd yn wir angenrheidiol.
- **Teg a chyfiawnadwy:** Teg a chyfiawnadwy yn wrthrychol i'r cyhoedd ac i'r farchnad.
- **Tryloyw ac atebol:** Mekanwaith ariannu agored a phendant sy'n dal y cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn atebol i'w gynulleidfa.

²¹ Adran 31 Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011.

²² Dr Richard Burnley (2017), Public Funding Principles for Public Service Media.

Yn 2015, cytunodd y llywodraeth â'r BBC y byddai S4C yn cael £74.5 miliwn o ffi'r drwydded ar gyfer pob blwyddyn ariannol o gytundeb ariannu ffi'r drwydded 2017/18 -2021/22. Nodir y cytundeb hwn yng Nghytundeb Fframwaith y BBC.²³ Mae'r ffrwd ariannu hwn yn sefydlog a thryloyw, ac mae'n rhoi'r sicrwydd ariannol i S4C gynllunio ymlaen llaw.

Fodd bynnag, nid yw'r cymorth grant ychwanegol mae S4C yn ei gael gan y DCMS yn sefydlog. Fel sy'n berthnasol i unrhyw arian a geir gan y llywodraeth, mae'n gallu newid yn dilyn yr adolygiad o wariant, y gyllideb a blaenoriaethau'r llywodraeth, sy'n newid drwy'r amser. Dyna ddigwyddodd yn Adolygiad Gwariant 2015, pan gafodd S4C lai o arian gan y llywodraeth er bod arian ffi'r drwydded ar gyfer S4C wedi aros yr un fath.

Felly, mae defnyddio arian y llywodraeth fel dull atodol i ariannu cylch gwaith craidd darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn achosi anhawster oherwydd bod y lefel sicrwydd y gallai ei ddarparu yn gyfyngedig. Yn fy marn i, mae'r diffyg sicrwydd hwn ynglŷn â'r arian gan y llywodraeth wedi achosi pryder i S4C a'r rhanddeiliaid sydd y tu hwnt i effaith yr arian dan sylw. Yn ei dro, mae hyn wedi tynnu sylw oddi ar yr heriau mae S4C yn eu hwynebu go iawn heb fod angen. (fel y nodir ym mhennod 1).

Mae angen sicrwydd ar S4C o ran ei ddulliau ariannu i wneud y penderfyniadau creadigol a masnachol angenrheidiol i ffynnu mewn marchnad ddarledu sy'n fwyfwy cystadleuol. Ar ôl ystyried ystod eang o safbwyntiau rhanddeiliaid, rwyf wedi dod i'r casgliad mai'r unig ffordd o gyflawni hyn yw cael gwared ar yr ansicrwydd y mae cymorth grant y DCMS yn ei achosi, ac i S4C gael ei arian cyhoeddus yn gyfan gwbl drwy ffi'r drwydded.

Mae setliad ariannu presennol ffi'r drwydded ar gyfer S4C wedi'i bennu yn y Cytundeb Fframwaith tan 2021/22, ac nid wyf yn argymhell i newid y setliad hwn. Yn hytrach, rwy'n argymhell bod y penderfyniadau ynghylch ariannu S4C yn cael eu gwneud ochr yn ochr â setliad ariannu ffi drwydded y BBC. Dylai'r llywodraeth adolygu dulliau ariannu S4C fel rhan o drafodaethau rheolaidd y llywodraeth am setliad ariannu ffi'r drwydded gyda'r BBC, sydd fel arfer yn digwydd bob pum mlynedd (yn ddiabynnol ar hyd Siarter y BBC). Bydd cyfnod nesaf cytundeb ffi'r drwydded yn dechrau yn 2022/23. Mae S4C eisoes yn cael ei ariannu'n bennaf gan ffi'r drwydded, felly ni fyddai angen gwneud unrhyw newidiadau strwythurol i'r broses ariannu gyfredol.

Mae'r Cytundeb Fframwaith yn nodi, yn dilyn cwblhau'r adolygiad o S4C, bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (ar ôl ymgynghori ag S4C a'r BBC) osod y broses ar gyfer pennu'r swm o arian a gaiff S4C o ffi'r drwydded ar gyfer y cyfnod 2022/23 – 2027/28.²⁴ Felly, byddai fy argymhelliad yn mynd law yn llaw â'r gofyniad hwn ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol. Ni fyddai newid o'r fath yn tanseilio dyletswydd statudol yr Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau bod S4C yn cael ei ariannu'n ddigonol, oherwydd byddai'r llywodraeth yn parhau i gadw'r pŵer i weithredu ei phenderfyniadau ynglŷn ag ariannu digonol drwy ei thrafodaethau am y setliad ariannu gyda'r BBC.

Byddai aliniad llawn gyda ffi'r drwydded yn rhoi sicrwydd ariannol i S4C am oddeutu pum mlynedd ar y tro. Golyga hyn yr un lefel sicrwydd â'r BBC, ac mae'n cael gwared ar y dryswch sy'n atal S4C rhag wynebu'r heriau o'i flaen.

Gwn fod S4C a rhai o'i gefnogwyr yn credu bod cael arian gan y llywodraeth (yn ychwanegol at arian ffi'r drwydded) yn amddiffyn annibyniaeth S4C. Nid wyf yn cytuno â'r farn hon, ac ni allaf weld sut y gallai arian gan y llywodraeth amddiffyn annibyniaeth S4C y tu hwnt i oblygiadau pendant y Cytundeb Fframwaith.

²³ Cymal 39(3) Cytundeb Fframwaith y BBC.

²⁴ Cymal 39(4) Cytundeb Fframwaith y BBC.

Fel yr amlinellir ym mhennod 1, mae gan S4C berthynas glos ac unigryw gyda'r BBC, ac yn ddiweddar, cyhoeddodd y ddau ddarlledwr gytundeb partneriaeth sy'n nodi'r ffordd y byddant yn gweithio gyda'i gilydd yn strategol, yn greadigol ac yn weithredol i ddarparu gwerth cyhoeddus i gynulleidfaedd Cymraeg am y ddegawd nesaf. Mae'r amcan cyffredin (a nodir yn y Cytundeb Fframwaith), sef i weithio gyda'i gilydd i oruchwyllo a diogelu annibyniaeth y naill a'r llall, wrth galon hyn.²⁵ Credaf fod darparu arian cyhoeddus i S4C yn gyfan gwbl drwy ffi'r drwydded yn cydymffurfio ag ysbryd a neges y cytundeb partneriaeth newydd, a bydd yn cefnogi dyfodol llwyddiannus i S4C.

Argymhelliad 4

Dylai S4C gael ei ariannu'n gyfan gwbl gan y ffi drwydded o 2022/23 ymlaen, gyda'r holl benderfyniadau am ariannu yn y dyfodol yn cael eu gwneud fel rhan o'r trafodaethau am setliad ariannu ffi drwydded y BBC.

Gweithgaredd masnachol

“Fel cyrff cyhoeddus eraill, rydym yn cydnabod y pwysau i wneud y gorau o fuddsoddiad cyhoeddus. Mae S4C mewn sefyllfa well nac unrhyw gorff arall i wneud hyn, a dylid ei ganiatáu i gynhyrchu incwm masnachol, fel y bo'n briodol.”

-- Cyngor Celfyddydau Cymru

Ar hyn o bryd, mae gweithgareddau masnachol S4C yn cael eu cyflawni drwy gangen fasnachol fychan (S4C Masnachol) y mae S4C yn berchen arni'n gyfan gwbl. Yn ôl adroddiad blynyddol diweddaraf S4C, mae ei strategaeth fasnachol yn cynnwys gwerthu gofod hysbysebu a nawdd, datblygu'r brand meithrin Cyw, a gweithio gyda phartneriaid yn y sector gynhyrchu i archwilio cyfleoedd i gydgyhyrchu a gwerthu rhaglenni. Ers 2010, mae cynrychiolaeth o Awdurdod S4C wedi bod ar Fwrdd Masnachol S4C, ac mae'r Bwrdd Masnachol hefyd yn darparu adroddiadau ysgrifenedig i'r Awdurdod yn rheolaidd.

Fodd bynnag, mynegodd nifer o'r cyfranwyr i'r adolygiad bryderon nad oes cysylltiad digon cryf rhwng yr Awdurdod ac S4C Masnachol i wneud y defnydd gorau o'r cyfleoedd masnachol yn ogystal â buddsoddi refeniw masnachol i fusnes craidd S4C. Er bod S4C Masnachol yn adrodd i'r Awdurdod, nid yw'r gweithgaredd masnachol wedi'i sefydlu o fewn cyfeiriad strategol S4C. Rwy'n cytuno'n gryf gyda'r farn hon, ac rwy'n awgrymu bod S4C yn archwilio ffyrdd i ddod â mentrau masnachol wrth galon y gwasanaethau cyhoeddus, gyda strategaeth fasnachol sy'n cael ei gwthio o'r canol gan yr Awdurdod.

Hefyd, byddaf yn annog S4C i ystyried y ffordd y gellir defnyddio'r refeniw a gynhyrchir gan S4C Masnachol yn y ffordd orau posibl i'w fuddsoddi mewn prosiectau newydd a gwneud yr elw mwyaf. Yn benodol, credaf ei bod yn bwysig i S4C archwilio ffyrdd gwahanol o gynhyrchu ffrydiau incwm newydd drwy ddsbarthu cynnwys, yn arbennig ar lwyfannau digidol. Gyda swm sefydlog o arian cyhoeddus, mae angen i S4C ddefnyddio ei egni a syniadau newydd i weithio mewn ffordd arloesol i ychwanegu gwerth masnachol i'r sefydliad.

Roedd rhai cyfranwyr i'r adolygiad hefyd yn awgrymu y dylai S4C weithio gyda chynhyrchwyr annibynnol i wneud rhagor o ymdrech ar y cyd i gynhyrchu incwm masnachol o'u cynnwys drwy ddsbarthu'n rhyngwladol. Cytunaf y dylai hwn fod yn faes i S4C ganolbwyntio arno. Mae sefyllfa S4C fel darlledwr iaith leiafrifol mewn cymuned ddwyieithog yn bwynt gwerthu unigryw, a bydd ei fformatau o werth mewn gwledydd eraill gyda sefyllfa debyg.

²⁵ Cymal 39(2) Cytundeb Fframwaith BBC

Credaf hefyd y dylai S4C a chynhyrchwyr annibynnol ganolbwyntio ar gyfleoedd i gyd-ariannu a chyd-gynhyrchu prosiectau, yn enwedig ar gyfer cynnwys digidol. Roeddwn yn dadlau ym mhennod 1 bod angen i S4C newid ei ffocws strategol i flaenoriaethu cynnwys digidol ochr yn ochr â'i wasanaethau darlledu llinol traddodiadol. Mae'r maes cynnwys digidol yn barod i gael buddsoddiad masnachol. Er enghraifft, ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddodd y llywodraeth fuddsoddiad o £21 miliwn i greu rhwydwaith newydd o hybiau technolegol rhanbarthol i gefnogi twf y cwmnïau a chlystyrau digidol arloesol yn y DU. Bydd un o'r hybiau hyn yng Nghaerdydd, ac o bosibl gallai fod yn gyfle gwych i S4C fuddsoddi mewn datblygiadau digidol newydd.

Mae S4C yn cael swm sylweddol o arian cyhoeddus, ac mae'n atebol i dalwyr ffi'r drwydded a'r trethdalwyr i ddarparu gwerth am arian a gwasanaethau o safon uchel. Yn fy marn i, dylai S4C ddefnyddio ei faint a'i adnoddau i archwilio pob llwybr masnachol posibl, a cheisio cynyddu referniw masnachol i'w ail-fuddsoddi yn ei wasanaethau a darparu hyd yn oed rhagor o werth i'r cyhoedd. Wrth reswm, mae'r BBC yn enghraifft dda o sut y gallai'r model hwn weithio'n ymarferol, ac ni allaf weld unrhyw reswm pam na allai S4C gymryd camau breision ac amlwg i wella ei gynneg masnachol fel yr unig ddarlledwr iaith Gymraeg yn y byd. Hoffwn nodi, gan fod S4C fel y BBC yn cael cymhorthdal sylweddol gan y wladwriaeth, y dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'w holl fentrau masnachol o ran yr effaith ar y farchnad ehangach.

Mae S4C yn dadlau bod ei allu i gyflawni gweithgareddau masnachol yn gyfyngedig ar hyn o bryd oherwydd y cyfyngiadau a nodir mewn deddfwriaeth. O dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, mae'n rhaid i S4C ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i geisio cymeradwyaeth i gyflawni rhai gweithgareddau masnachol. Rhaid i unrhyw gymeradwyaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol gael ei nodi ar ffurf gorchymyn.²⁶ Nid yw'r broses hon yn atal S4C rhag ymgymryd â gweithgaredd masnachol (er enghraifft, cyflwynodd yr Ysgrifennydd Gwladol orchymyn yn 2008 i ganiatáu S4C i fuddsoddi mewn menter ddigidol), ond mae S4C yn dadlau fod hon yn broses hir a chymhleth sydd ddim yn gydnaws â model busnes darlledwr modern. Dywedodd rhai cyfranwyr i'r adolygiad y gallai'r broses hon eisoes fod wedi cyfrannu at golli allan ar rai cyfleoedd masnachol hyd yn oed.

Mae'n bwysig cofio, fel corff cyhoeddus sy'n cael arian gan y llywodraeth ac arian o ffi'r drwydded, ei bod yn briodol i S4C fod yn destun rhywfaint o oruchwyliaeth gan y llywodraeth. Yn yr achos hwn, y peth pwysicaf yw sicrhau bod yr oruchwyliaeth hon yn ymarferol a chymesur, ac nad yw'n cyfyngu'n ormodol ar allu S4C i gystadlu a llwyddo.

Yn gynharach yn y bennod hon, roeddwn yn dadlau bod yr ansicrwydd ynglŷn â diffiniad dull ariannu digonol yn tynnu sylw S4C oddi ar y gwir heriau mae'n ei wynebu. Credaf fod problemau tebyg yn codi mewn perthynas â gweithgaredd masnachol hefyd. Er bod y broses o geisio am gymeradwyaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn ymddangos yn gymhleth, rwy'n cytuno gyda rhai cyfranwyr i'r adolygiad a awgrymodd bod y broses wedi rhoi esgus i S4C beidio â rhoi blaenoriaeth strategol i gynhyrchu referniw masnachol. Serch hynny, rwy'n cytuno y gellir symleiddio'r broses i gefnogi S4C i arloesi a gwneud y penderfyniadau masnachol sydd eu hangen arno i lwyddo mewn tirwedd gyfryngol sy'n newid yn gyflym.

²⁶ Adran 206 Deddf Cyfathrebiadau 2003.

Ar y sail hon, rwy'n argymhell bod y llywodraeth yn ystyried sut y gellir llacio ychydig ar y gofynion presennol i gymeradwyo gweithgareddau masnachol S4C i roi mwy o ryddid iddo fuddsoddi a chynhyrchu refeniw masnachol. Byddai rhagor o ryddid masnachol yn caniatáu S4C i gynhyrchu incwm masnachol o'r cynnwys a'r buddsoddiadau, darparu mwy o werth i'r cyhoedd, cryfhau sefydlogrwydd ariannol S4C, a bod yn gyson â'r ffordd y mae darlledwyr eraill gwasanaeth cyhoeddus yn gweithredu.

Argymhelliad 5

Dylai'r llywodraeth ystyried diwygio'r gofynion cymeradwyo presennol i roi mwy o ryddid i S4C i fuddsoddi a chynhyrchu refeniw masnachol.

Pennod 3: Sicrhau S4C annibynnol ac effeithiol

“Dylai S4C gadw ei annibyniaeth fel darlledwr, gan barhau i fod yn annibynnol ar y BBC a’r llywodraeth, a bod yn dryloyw o ran llywodraethiant ac atebolrwydd. Yr egwyddorion craidd ar gyfer unrhyw strwythur llywodraethiant yw tegwch, tryloywder ac atebolrwydd.”

-- PACT

Llywodraethiant ac atebolrwydd

Mae’r gymuned Gymraeg yn hoff o’i sefydliadau, ond nid yw’n gwrthwynebu newid. Fel cymdeithas yng Nghymru a thu hwnt, mae wedi cofleidio newid technolegol, ond mae rhai o’i sefydliadau wedi ei chael hi’n anodd addasu i bwysau a straen y chwyldro digidol. Mae S4C wedi gwneud peth ymdrech i addasu, ond yn dilyn fy nhrafodaethau yn ystod yr adolygiad, cefais yr argraff fod llawer o bobl yn teimlo bod y sefydliad ychydig ar ei hôl hi. Fy nod yn yr adolygiad hwn yw creu’r amgylchedd lle mae S4C yn gallu bod ar y blaen fel sefydliad. Mae hyn yn dechrau gyda llywodraethiant a rheoleiddio.

Yn yr adran hon, byddaf yn nodi’r drefn bresennol o ran llywodraethiant ac atebolrwydd, ynghyd â’r hasesiad o’r newidiadau angenrheidiol i gael S4C modern sy’n gweithredu’n effeithiol. Wrth wneud hynny, rwyf hefyd yn canolbwyntio ar yr angen i S4C gadw ei annibyniaeth weithredol a golygyddol mewn amgylchedd digidol byd-eang – rhywbeth a bwysleisiwyd gan yr holl gyfranwyr i’r adolygiad hwn.

Awdurdod S4C

Gelwir bwrdd llywodraethu anweithredol S4C yn Awdurdod S4C. Penodir yr aelodau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn dilyn ymgynghori gyda Swyddfa Cymru a Llywodraeth Cymru. Hysbyseb ir y swyddi gwag yn gyhoeddus a gwneir penodiadau yn ôl trefn penodiadau cyhoeddus.

Mae’r Awdurdod yn goruchwyllo strategaeth a rheolaeth ariannol S4C, ynghyd â sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â’i ddyletswyddau rheoleiddiol.²⁷ Nid yw’r Awdurdod yn rheoli S4C o ddydd i ddydd, ac nid yw’n ymwneud â phenderfyniadau golygyddol na chomisiynu, mae’r cyfrifoldebau rheoli hyn wedi’u dirprwyo i’r tîm gweithredol. Yn ogystal, mae aelodau o’r tîm gweithredol yn mynychu cyfarfodydd yr Awdurdod. Bwriad y strwythur hwn yw sicrhau bod Awdurdod S4C yn cadw hyd braich o benderfyniadau’r tîm gweithredol, yn arbennig mewn perthynas â chynnwys.

O’r trafodaethau a gefais yn ystod yr adolygiad hwn, daeth yn amlwg nad oes gan yr Awdurdod y strwythur cywir ar hyn o bryd i sbarduno cynnydd a newid. Roedd model yr Awdurdod yn gweithio’n dda pan oedd S4C yn cael ei reoleiddio gan yr IBA, a’r Awdurdod yn canolbwyntio ar oruchwyliaeth strategol. Fodd bynnag, pan ddiddymwyd yr IBA yn 1992, cymerodd yr Awdurdod gyfrifoldebau rheoleiddiwr ac yr oedd yn chwifio’r faner yn ogystal â rheoleiddio (yn debyg i Ymddiriedolaeth y BBC gynt). Yna, trosglwyddwyd y rhan fwyaf o’r cyfrifoldebau rheoleiddio o’r Awdurdod i Ofcom yn sgil Deddf Cyfathrebiadau 2003. Yn 2011, yn dilyn cyfnod pan oedd y ffin rhwng yr Awdurdod a’r

²⁷ Nodir dyletswyddau Awdurdod S4C yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 a Deddfau Darlledu 1990 a 1996.

swyddogion gweithredol yn fwy annelwig, rhannwyd y swyddogaethau i strwythur dwy haen, gyda Bwrdd yr Awdurdod a Bwrdd Rheolaeth Strategol y swyddogion gweithredol ar wahân. Yn fy marn i, mae hyn wedi creu dryswch ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am wneud beth. Er y dylai'r dyletswyddau fod wedi'u rhannu'n bendant mewn egwyddor, yn ymarferol ceir anghysondeb ac ansicrwydd, yn enwedig o ran cael bwrdd rheoli gweithredol sydd hefyd yn gyfrifol am strategaeth, ochr yn ochr â'r Awdurdod. Rhennir y farn hon gan nifer a gyfrannodd i'r adolygiad.

Deuthum i'r casgliad nad yw'r strwythur dwy haen yn ddelfrydol i sicrhau annibyniaeth olygyddol a gweithredol i S4C yn y tirwedd cyfryngol presennol. Yn gynharach, roeddwn yn dadlau fod angen i S4C fod yn ddewr a mentro i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, llwyfannau newydd a chreu syniadau newydd. Mae angen arweiniad a gweledigaeth glir ar gyfer hynny, a chredaf mai sefydlu un bwrdd sy'n cynnwys swyddogion gweithredol ac aelodau anweithredol yw'r unig ffordd ymlaen. Byddai'r strwythur hwn yn helpu i gyflawni un weledigaeth, gyda chydbwysedd a gwiriadau effeithiol, yn ogystal ag ymrwymiad ar lefel gweithredol o'r cychwyn cyntaf.

Ar y sail hon, rwy'n argymhell y dylid disodli Awdurdod S4C gyda bwrdd unedol newydd, sy'n cynnwys aelodau gweithredol ac aelodau anweithredol, sydd â'r gallu i symud ymlaen â blaenoriaethau newydd S4C. Dylai'r dull hwn adlewyrchu egwyddorion llywodraethiant da, fel y nodir yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol Cyngor Adrodd Ariannol y DU.²⁸ Yn fy marn i, byddai hyn yn ffordd llawer mwy effeithiol a chadarn o arwain y sefydliad mewn cyfnod pan fo angen arweiniad cryf i dywys S4C drwy heriau'r dyfodol..

Dylai'r aelodau gweithredol a'r aelodau anweithredol, fel ei gilydd, gael swyddogaethau a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n glir (lle mae'r aelodau gweithredol yn rheoli a'r aelodau anweithredol yn craffu a chynghori). Dylai'r mwyafrif o aelodau'r bwrdd fod yn gyfarwyddwyr anweithredol i herio'r prif swyddog a'r tîm gweithredol yn effeithiol. Dylai'r cyfarwyddwyr anweithredol fod yn grŵp amrywiol o bobl gydag amrywiaeth cryf o sgiliau, profiad a chefnidiroedd gwahanol. Bydd bwrdd cytbwys ac amrywiol yn allweddol i sicrhau llwyddiant S4C. Dylid penodi'r aelodau anweithredol yn yr un modd ag aelodau cyfredol yr Awdurdod – sef gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon mewn ymgynghoriad ag eraill. Yna, dylai'r aelodau anweithredol benodi aelodau gweithredol y bwrdd.

Dylai'r bwrdd unedol newydd fod yn gyfrifol am gyflawni cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C, gan sicrhau ei fod yn cwrdd â'i ddyletswyddau rheoleiddiol. Hefyd, dylai arolygu penodiadau uwch swyddogion gweithredol, rheolaeth ariannol a chwynion gan y cyhoedd.

Argymhelliad 6

Dylid disodli Awdurdod S4C gyda bwrdd unedol newydd sy'n cynnwys cyfarwyddwyr gweithredol a chyfarwyddwyr anweithredol.

Fframwaith rheoleiddio

Tynnodd fy nhrafodaethau â chyfranwyr i'r adolygiad sylw at y cryn ansicrwydd sy'n bodoli ynglŷn â threfniadau rheoleiddio S4C, a hoffwn gymryd y cyfle hwn i egluro'r mater.

²⁸ Y Cyngor Adrodd Ariannol (2016), Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU.

Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS y pŵer i adolygu a yw S4C yn cyflawni ei gylch gwaith cyhoeddus, a chyfarwyddo Awdurdod S4C i gymryd camau adfer petai'n methu â chyflawni'r cylch gwaith.²⁹ Hefyd, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer i gymeradwyo Awdurdod S4C, drwy orchymyn, i ddarparu gwasanaethau newydd petai'n cwrdd ag amodau penodol.³⁰

Hefyd, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer i gymeradwyo Awdurdod S4C, drwy orchymyn, i ddarparu gwasanaethau newydd petai'n cwrdd ag amodau penodol.

Nodir fframwaith rheoleiddio S4C yn Neddf Darlledu 1990, Deddf Darlledu 1996 a Deddf Cyfathrebiadau 2003. Trosglwyddwyd y mwyafrif helaeth o'r swyddogaethau rheoleiddio i Ofcom drwy Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, ac mae cyfrifoldebau hunanreoleiddio Awdurdod S4C bellach yn llawer llai.

Mae gan Ofcom gryn brofiad a hygredd, yn ogystal â dyletswydd statudol gyffredinol i ystyried barn a buddiannau'r rhai sy'n byw mewn gwahanol rannau o'r DU.³¹ Mae Ofcom yn sicrhau hyn drwy gael Pwyllgor Cynghori pwrpasol ar gyfer pob un o'r cenhedloedd, a chynrychiolwyr ar y Panel Cynnwys a'r Panel Defnyddwyr. Hefyd, disgwylir i weinidogion Cymru benodi'r cynrychiolydd cyntaf o Gymru ar brif Fwrdd Ofcom yn 2018 fel rhan o ymrwymiaid datganoli ehangach y llywodraeth.

Nid yw'r cynllun statudol yn ei gwneud yn ofynnol i S4C gael ei drwyddedu gan Ofcom, ond mae'r cynllun statudol yn gosod nifer o'r un goblygiadau ag y mae darlledwyr sy'n dal trwydded yn gaeth iddynt. Yn gryno, mae gan Ofcom eisoes lawer o'r un pwerau i reoleiddio S4C ag sy'n berthnasol ar gyfer y darlledwyr y mae'n eu trwyddedu.

Mae gan Ofcom ddyletswydd i:

- asesu cydymffurfiaeth S4C â chwotâu a osodir gan yr Awdurdod ac Ofcom, gan gynnwys cynhyrchu annibynnol, cynhyrchu gwreiddiol, newyddion a materion cyfoes (gweler tabl 1 isod);
- monitro cydymffurfiaeth ac ystyried cwynion mewn perthynas â chodau Ofcom, yn cynnwys y Cod Darlledu (sy'n ymdrin â materion megis safonau, tegwch a bod yn ddiudedd);
- adrodd ar berfformiad S4C yn erbyn ei oblygiadau yn ei Adroddiad Ymchwil Blynyddol ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (PSB) 2017.

Gall Ofcom osod dirwyon o hyd at £250,000 ar S4C am beidio â chydymffurfio â chwotâu.³² Hefyd, gall Ofcom osod dirwyon mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â'r cod safonau, y cod tegwch a chyfarwyddiadau o ran materion tegwch a'r cod mynediad. Yn ogystal, mae gan Ofcom y pŵer i osod dirwyon sy'n berthnasol i gydymffurfiaeth S4C â goblygiadau hysbysebu a nawdd, dyletswyddau S4C i gyhoeddi ei weithdrefn gwynion, goblygiadau S4C i fonitro ei raglenni, gofynion S4C i gydymffurfio â goblygiadau rhyngwladol, a chydymffurfiaeth S4C mewn perthynas â gwasanaethau rhaglenni fideo ar alw.

²⁹ Adran 339-340, Rhan 3 Deddf Cyfathrebiadau 2003.

³⁰ Adran 205, Rhan 3 Deddf Cyfathrebiadau 2003.

³¹ Adran 3 (4)(l) Deddf Cyfathrebiadau 2003.

³² Sylwer nad yw'r gallu i osod dirwy yn berthnasol i gwotâu rhaglenni Ewropeaidd o dan gydymffurfiaeth AVMSD gyda'r cod ar gomisiynu rhaglenni.

Tabl 1: Cwotâu S4C³³

Maes	Cwota blynyddol	Perfformiad yn 2016
Newyddion cenedlaethol a rhyngwladol – drwy'r dydd	200 awr	273 awr
Newyddion cenedlaethol a rhyngwladol – Brig (1800-2230)	150 awr	206 awr
Materion cyfoes – drwy'r dydd	60 awr	97 awr
Materion cyfoes – Oriau brig (1800-2230)	30 awr	52 awr
Cynyrchiadau gwreiddiol – drwy'r dydd	80%	83%
Cynyrchiadau gwreiddiol – Oriau brig (1800-2230)	90%	100%
Cynyrchiadau annibynnol – drwy'r dydd	25%	94%
Rhaglenni Ewropeaidd*	50%	97%
Cynyrchiadau annibynnol Ewropeaidd*	10%	88%
Gwaith diweddar*	50%	70%
Is-deitlo	53%	81%
Sain ddisgrifiad	10%	10%
Arwyddo	5%	5%

*Gofynion rhaglenni Ewropeaidd – Mae'r cwotâu yn berthnasol i'r Gyfarwydddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (AVMS) sy'n gofyn bod y mwyafrif o'r rhaglenni ar bob sianel yn rhai Ewropeaidd (yn cynnwys o'r DU) a rhaid bod o leiaf 10% yn gynyrchiadau annibynnol. O'r rhain, rhaid i'r mwyafrif bod wedi cael eu cynhyrchu o fewn y pum mlynedd ddiwethaf.

I alluogi Ofcom i gyflawni'r dyletswyddau hyn, mae S4C yn talu ffi reoleiddio ac yn darparu gwybodaeth i Ofcom mewn perthynas â'r goblygiadau hyn.

Mae cyfrifoldebau Awdurdod S4C yn fwy cyfyngedig na hyn. Nodir yn adroddiad blynyddol 2016/17 S4C: 'Mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb statudol i ganfod y farn gyhoeddus am y rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar S4C ynghyd ag effeithiau rhaglenni ar agwedd ac ymddygiad y gwylwyr ac yn ogystal y math o raglenni y byddai aelodau'r cyhoedd yn dymuno eu gweld ar S4C. Mae'r Awdurdod hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod darpariaethau priodol yn bodoli er mwyn galluogi gwylwyr i gwyno i S4C am raglenni'r sianel'. Yn ogystal, mae gan Awdurdod S4C ddyletswydd i sicrhau bod S4C yn cwrdd â'i ofynion gwasanaeth cyhoeddus a dyletswydd i baratoi datganiadau ar bolisi rhaglenni.

Fodd bynnag, nid yw'r fframwaith cyfredol hwn o reidrwydd yn glir i randdeiliaid allanol. Awgrymodd nifer o gyfranwyr i'r adolygiad wrthyf, oherwydd bod swyddogaeth reoleiddio'r BBC wedi symud i Ofcom, y dylai fod yn berthnasol i S4C hefyd. Symudodd swyddogaeth reoleiddio'r BBC i Ofcom i gael rheoleiddiwr cadarn i sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth a phwrpas cyhoeddus, ac mae'n briodol, fel corff sy'n cael swm sylweddol o ffi'r drwydded ac arian cyhoeddus, bod S4C yn cael ei ddwyn i gyfrif am gyflawni ei gylch gwaith hefyd.

Wrth ystyried pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, a chyfrifoldebau rheoleiddio presennol Ofcom dros S4C, fel y nodir uchod, credaf fod y fframwaith reoleiddio cyfredol yn darparu llwybr clir o ran atebolrwydd ar gyfer S4C. Fodd bynnag, hoffwn nodi y dylai bwrdd unedol newydd ar gyfer S4C (yn unol â'r argymhelliad uchod) gymryd rôl ragweithiol a chadarn i sicrhau bod S4C yn atebol am gyflawni ei oblygiadau a'i gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus.

³³ Gweler Atodlen 12 Deddf Cyfathrebiadau 2003.

Hefyd, awgrymodd rhai cyfranwyr i'r adolygiad y dylai S4C, fel darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, gael trefniant trwyddedu. Tra byddai hyn yn unioni S4C â darlledwyr eraill mewn egwyddor, ni fyddai'n newid cyfrifoldebau rheoleiddio presennol Ofcom yn sylweddol. Felly, rwyf wedi dod i'r casgliad nad oes angen gwneud trefniadau ychwanegol mewn perthynas â rheoleiddio, ac ni fyddai'n ychwanegu gwerth i S4C nac Ofcom.

Yn y pen draw, credaf fod y trefniadau rheoleiddio presennol yn effeithiol ar y cyfan. Er hynny, rwy'n annog S4C i weithio gydag Ofcom i ystyried dulliau o wneud mwy i hysbysu rhanddeiliaid ynglŷn â natur eu cyfrifoldebau rheoleiddio unigol.

Atebolrwydd

Mae S4C yn gorff cyhoeddus ac yn atebol i'r Senedd am ei reolaeth ariannol. Mae'n rhaid i S4C gyflwyno ei adroddiad blynyddol a'i gyfrifon gerbron y Senedd bob blwyddyn, a phrif weithredwr S4C yw'r swyddog cyfrifyddu sy'n atebol i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Hefyd, mae S4C yn atebol i Bwyllgor Dethol DCMS a'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig.

Fel corff sy'n cael ei ariannu gan y ffi drwydded, mae'n rhaid i S4C gytuno ar y trefniadau atebolrwydd gyda'r BBC i roi'r sicrwydd i'r BBC fod yr arian mae'n ei ddarparu yn cael ei ddefnyddio'n gywir ac effeithlon wrth ddarparu a darparu gwasanaethau eraill S4C.³⁴ I gefnogi hyn, mae cytundeb partneriaeth newydd y BBC â S4C yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu adroddiad sicrwydd ariannol i'r BBC bob chwe mis.³⁵

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) yn gweithredu ar ran y Senedd i graffu ar y ffordd y caiff arian cyhoeddus ei wario. Mae hyn yn cynnwys monitro gwariant nifer o gyrff cyhoeddus ac asesu a ddilyniir egwyddorion gwariant cyhoeddus y DU, (rheoleidd-dra, priodoldeb, gwerth am arian ac ymarferoldeb).

Nid oes gan yr NAO rôl archwilio ffurfiol ar gyfer S4C. Fodd bynnag, oherwydd bod S4C yn cael arian cyhoeddus, mae gan yr NAO fynediad at wybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol S4C mewn perthynas ag economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Nodir hyn yn y cytundeb partneriaeth newydd rhwng y BBC a S4C.

*'Yn amodol ar y darpariaethau statudol perthnasol sy'n ymwneud â'r gofynion archwilio ar S4C, bydd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol fynediad at gyfraniad ffi'r drwydded a ddarperir i S4C ar gyfer darparu Gwasanaethau S4C at ddibenion cynnal archwiliadau i werth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd S4C wrth ddefnyddio ei adnoddau er mwyn cyflawni ei swyddogaethau.'*³⁶

Yn sgil Cytundeb Fframwaith a Siarter newydd y BBC, sefydlwyd yr NAO fel archwilydd allanol y BBC, gyda Phapur Gwyn y llywodraeth yn nodi y byddai hyn yn darparu 'elfen gryfach o graffu sy'n wirioneddol allanol' i'r sefydliad.³⁷ Credaf fod y ddaid hon yn berthnasol i S4C fel corff sy'n cael cryn dipyn o arian cyhoeddus hefyd, yn arbennig o ystyried fy argymhelliad blaenorol y dylai S4C gael bwrdd unedol gydag atebolrwydd allanol cryfach

³⁴ Cymal 39(5) Cytundeb Fframwaith y BBC.

³⁵ Cymal 4.5 Cytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd rhwng y BBC ac S4C (2017).

³⁶ Cymal 4.7 Cytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd rhwng y BBC ac S4C (2017).

³⁷ Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (2016), BBC ar gyfer y dyfodol: Darlledwr o fri.

Yn ôl statud, mae'n rhaid i S4C benodi archwilydd allanol i archwilio ei ddatganiad cyfrifon ar hyn o bryd.³⁸ Mae'n werth nodi mai Grant Thornton LLP yw archwilydd allanol S4C ers ei sefydlu. Er bod S4C wedi rhoi sicrwydd bod y tîm sy'n gweithio ar eu cyfrifon yn newid yn rheolaidd, a bod y cwmni wedi'i ddewis (o dendr) yn ôl teilyngdod bob amser, ceir y risg a all godi pan fo archwilydd yn aros gyda sefydliad am amser hir, sef eu bod yn rhy gyfarwydd â'r broses archwilio.

Gan hynny, rwyf wedi dod i'r casgliad y dylai'r llywodraeth ystyried a yw trefniadau archwilio ariannol presennol S4C yn addas, ac a fyddai'n briodol penodi'r NAO yn archwilydd allanol S4C i ddarparu rhagor o dryloywder, cefnogi goruchwyliaeth seneddol o ran gwariant cyhoeddus, a gwella cysondeb o ran goruchwyliaeth yr NAO mewn perthynas â ffi'r drwydded. Yn ogystal, efallai y byddai'r llywodraeth yn dymuno ystyried yr achos i'r NAO gyflawni astudiaethau gwerth am arian o ran gweithgareddau S4C.

Wrth gwrs, mae'n bwysig pwysleisio na fyddai'r NAO yn cwestiynu addasrwydd amcanion S4C fel y'i gosodwyd gan y Senedd, nac ychwaith ar deilyngdod penderfyniadau golygyddol a chreadigol S4C, ond yn hytrach byddai'n canolbwyntio os yw S4C yn cyflawni ei amcanion mewn modd cost effeithiol ai peidio.

Argymhelliad 7

Dylai'r llywodraeth ystyried a yw trefniadau archwilio ariannol presennol S4C yn addas, gan gynnwys a fyddai'n briodol penodi'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn archwilydd allanol S4C.

³⁸ Mae angen cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol i benodi mewn perthynas â'r darpariaethau statudol (a nodir ym mharagraff 12(2) Atodlen 6 Deddf Darlledu 1990).

Casgliad

Yn 2022, bydd S4C wedi bod yn darlledu i gynulleidfaoedd Cymraeg ers deugain mlynedd. Mae sut y bydd yn parhau'n berthnasol yng nghanol y newid yn y dirwedd gyfryngol yn dibynnu ar sut mae'r sefydliad yn ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd fydd yn ei wynebu yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Mae'n amlwg iawn o'r cyflwyniadau ysgrifenedig a'r trafodaethau a gefais gydag ystod eang o randdeiliaid, bod S4C yn chwarae rhan allweddol yn adeiladwaith economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru, ac mae'n dal i hawlio cefnogaeth sylweddol. Fodd bynnag, roedd bron pob un o'r cyfranwyr i'r adolygiad yn bendant bod angen i S4C wneud mwy.

Mae'r angen i feddwl yn arloesol wrth galon yr her hon. I barhau'n berthnasol a chystadleuol, yn ogystal â chadw'n drwm i'w bwrpas craidd, rhaid i S4C symud i fwrdd oddi wrth yr uniongredded a sefydlwyd dros y 35 mlynedd diwethaf. Mae hyn yn golygu ailosod ei flaenoriaethau strategol i gynyddu'r ffocws ar gynnwys a llwyfannau digidol ochr yn ochr â darlledu llinol traddodiadol, datblygu a chynnal perthnasau cadarn gydag ystod fwy eang o bartneriaid, a gwneud ymdrech mwy pendant i gynyddu incwm a buddsoddiad masnachol. I wneud hyn, nid newid strategol yn unig sydd ei angen ar S4C, ond hefyd gwir newid diwylliannol o'r brig i lawr.

Golyga newidiadau strwythurol yn y sector ddarlledu y bydd angen i S4C weithio'n gyflymach i gystadlu. Felly, bydd yn rhaid cymryd camau arwyddocaol i wella cynnig digidol S4C a sicrhau ei fod yn addasu i'r cynulleidfaoedd gwahanol ac yn darparu ar gyfer y newidiadau cyson yn y dechnoleg ac arferion gwyllo pobl. Bydd moderneiddio cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C a sefydlu hyb digidol mewnol yn cynorthwyo S4C i ymateb i'r cyfleoedd a gynigir gan yr oes ddigidol newydd, a sicrhau y gallai gynnal ei gynulleidfa bresennol wrth ehangu ei orwelion i apelio at genedlaethau newydd o wylwyr a defnyddwyr.

Ochr yn ochr â hyn mae perthynas S4C â gweddill y sector. Mae fy neges yn glir, sef bod yn rhaid i S4C fod yn bartner gwell a chydweithio'n fwy effeithiol gyda phob adran o'r sector. Daw sefyllfa unigryw S4C fel y darlledwr Cymraeg â chyfrifoldeb i gefnogi'r ecosystem greadigol y mae'n rhan hanfodol ohoni. Yn ogystal â phartneriaethau gyda'r sefydliadau mawr fel y BBC, dylai S4C archwilio pob dull a modd o gydweithio i gefnogi a meithrin y sector gynhyrchu Cymraeg a'r diwydiannau creadigol yn ehangach. Nid yn unig mae cydweithio yn dda i'r sector, ond mae'n hanfodol i S4C hefyd. Mewn byd lle mae angen i'r sector ddarlledu weithio gyda'i gilydd i oroesi, bydd cydweithio effeithiol yn hanfodol i helpu S4C i gyflawni ei amcanion strategol hirdymor, sef ehangu'r gynulleidfa wrth ddarparu cyfleoedd i ganfod synergedd ac effeithlonrwydd.

Y tu hwnt i strategaeth, partneriaethau a chylch gwaith S4C, rwyf wedi dod i'r casgliad mai'r peth pwysicaf sydd ei angen ar y sefydliad i ffynnu yw sefydlogrwydd a sicrwydd ariannol. Mae'r mwyafrif helaeth o gyllideb S4C yn dod o ffi'r drwydded yn barod, ond mae'r swm ychwanegol bychan o arian y llywodraeth drwy DCMS wedi achosi pryder mawr iawn i S4C a'i rhanddeiliaid. Yn fy marn i, y ffordd orau i fynd i'r afael â'r mater hwn yw bod cyllideb S4C yn cael ei darparu'n gyfan gwbl drwy ffi'r drwydded, i roi'r un sicrwydd ariannol â'r BBC, ac unioni'r ddau ddarlledwr i gefnogi eu cytundeb partneriaeth newydd. Ochr yn ochr â hyn, credaf y dylai S4C wneud mwy i gynyddu ei gyllideb gyhoeddus a darparu rhagor o werth am arian drwy gynyddu refeniw masnachol a manteisio ar gyfleoedd masnachol.

I gefnogi fy argymhellion ar ddulliau ariannu, rwyf wedi gwneud argymhellion hefyd i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan nifer o gyfranwyr i'r adolygiad hwn ynglŷn â threfniadau llywodraethiant presennol S4C. Rwy'n rhannu'r un pryderon â llawer o'r rhanddeiliaid, sef nad Awdurdod S4C yw'r

strwythur iawn bellach i lywio newid, a bod angen bwrdd unedol newydd, sy'n cynnwys swyddogion gweithredol, i ddarparu'r arweiniad cryf angenrheidiol i dywys S4C drwy heriau'r dyfodol. Fy ail argymhelliad o ran diwygio'r elfen lywodraethiant yw bod y llywodraeth yn ystyried a yw trefniadau archwilio ariannol presennol S4C yn ddigonol, ac a ddylai'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ddod yn archwilydd allanol S4C, a fyddai'n sicrhau atebolrwydd llawn dros y modd y mae S4C yn gwario arian cyhoeddus. Mewn ymateb i'r diffyg eglurder ar sut mae'r cyfrifoldebau wedi'u rhannu rhwng Awdurdod S4C ac Ofcom, rwyf hefyd wedi nodi fy nealltwriaeth o'r dirwedd reoleiddio bresennol, ac nid wyf yn argymhell unrhyw newid ar hyn o bryd.

Wrth gwrs, mae hyn i gyd o fewn cyd-destun pwrpas ehangach S4C i hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Rwyf wedi dadlau bod gan S4C rôl ganolog i'w chwarae wrth helpu Llywodraeth Cymru gyflawni ei gweledigaeth i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a gobeithiaf y bydd y bartneriaeth rwyf wedi'i hargymhell yn dwyn ffrwyth ac yn darparu'r cynnydd sydd arnom ei angen i gynnal y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg.

Mae S4C ar groesffordd. Gallai ddewis parhau fel y mae a mentro colli ei berthnasedd, neu newid ac addasu i'r dirwedd newydd. Drwy gydol ei hanes, mae S4C wedi bod yn fwy effeithiol pan oedd ganddo'r hyder i fynd amdani, ac mae angen i'r sefydliad ganfod yr hyder hwnnw unwaith eto i gyflawni'r gwerth ychwanegol fel darlledwr Cymraeg. Wrth i S4C ddechrau'r cyfnod nesaf ar ei daith, mae'n rhaid iddo barhau i ddarparu gwerth am arian a chynnwys o ansawdd uchel i wasanaethu cynulleidfaoedd Cymraeg, wrth iddo anelu at gyflawni ei weledigaeth strategol hirdymor gyda'r hyder i gofleidio cyfleoedd yr oes ddigidol fel darlledwr digidol modern.

Atodiad A: Cylch Gorchwyl

Crëwyd S4C gan y Llywodraeth Geidwadol yn 1982, ac mae Llywodraeth bresennol y DU yn dal i fod wedi ymrwmo i gefnogi'r gwasanaeth gwerthfawr y mae S4C yn ei ddarparu i gynulleidfaoedd sy'n siarad Cymraeg. Rydym eisiau gweld y sianel yn tyfu ac yn ffynnu yn yr 21^{ain} ganrif ac yn croesawu cyfleoedd yr oes ddigidol.

Cefndir

Darledwr iaith Gymraeg yw S4C, sy'n cael ei ariannu'n bennaf gan ffi'r drwydded deledu, ond sydd hefyd yn cael cefnogaeth ar ffurf Cymorth Grant gan Lywodraeth y DU. Mae S4C yn cynhyrchu rhywfaint o incwm ychwanegol drwy weithgareddau masnachol, sy'n darparu tua 2% o gyllid y sianel.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwmo i gynnal adolygiad annibynnol o gylch gorchwyl, proses lywodraethu ac ariannu S4C.

1. Amcanion

a. Cynnal adolygiad i:

1. archwilio cylch gorchwyl S4C, gan gynnwys gwasanaethau ar-lein, ac ystyried a oes angen cyflwyno newidiadau yng ngoleuni arferion gwyllo a datblygiadau technolegol sy'n newid;
2. archwilio strwythur llywodraethiant a modelau atebolrwydd presennol S4C;
3. archwilio partneriaeth S4C â'r BBC a'i ddulliau cyllido presennol;

b. Cyflwyno argymhellion i'r Llywodraeth o fewn tri mis.

2. Prif ystyriaethau

Wrth asesu'r amcanion uchod (1a – b), bydd yr adolygiad yn ystyried yr elfennau canlynol:

- a. Rôl S4C yn y gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg, a'r effaith mae'n ei gael arni, yn ogystal â lle ehangach y sianel yn niwylliant a chymdeithas Cymru;
- b. Cyfraniad S4C at economi Cymru;
- c. Perthynas S4C â'r sector cynhyrchu annibynnol a chwmnïau darledu a sefydliadau diwylliannol eraill, gan gynnwys a yw ei phartneriaethau yn gweithio'n effeithiol yn y ffordd orau bosib;
- d. Safbwyntiau cynulleidfa, ffigurau gwyllo a bodlonrwydd siaradwyr Cymraeg, dysgwyr a'r boblogaeth nad yw'n siarad Cymraeg, yng Nghymru ac ym mhob cwr o'r DU;
- e. Annibyniaeth olygyddol S4C, a threfniadau tryloywder ac atebolrwydd priodol;
- f. Y ffordd y mae gwasanaeth S4C yn cael ei lywodraethu a'i ddal yn atebol, gan gynnwys sut mae Awdurdod S4C yn gweithredu ac a ddylid ystyried modelau eraill o ddulliau llywodraethiant;
- g. Y ffordd mae S4C yn cael ei reoleiddio a rôl Ofcom;
- h. Gwerth am arian, effeithlonrwydd a rôl y Swyddfa Archwilio Genedlaethol;

- i. Y ffordd mae S4C yn cael ei ariannu ar hyn o bryd, gan gynnwys ffi'r drwydded, cymorth grant a ffynonellau masnachol, a'i berthynas ariannol â'r BBC o 2022/23 ymlaen;
- j. Faint o ryddid masnachol sydd gan S4C

3. Y broses

Dylai'r adolygiad sicrhau tystiolaeth gan amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd yng Nghymru, rhanddeiliaid allweddol yn y diwydiant ac o ran y Gymraeg, darlledwyr eraill, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, yn ogystal â phartïon eraill sydd â diddordeb, yng Nghymru a ledled y DU.

4. Allbwn

Adroddiad yn nodi asesiad o'r cylch gorchwyl, y prosesau llywodraethiant a'r strwythurau atebolrwydd a dulliau ariannu presennol, yn ogystal â chynigion am y cylch gorchwyl, y prosesau rheoleiddio a'r modelau llywodraethiant ac ariannu mwyaf priodol ar gyfer dyfodol S4C, gan gynnwys y prif ganfyddiadau, casgliadau ac unrhyw wybodaeth atodol arall. Rhaid cyflwyno'r adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o fewn tri mis, cyn ei gyhoeddi.

Atodiad B: Cyfranwyr i'r Ymgynghoriad

Sefydliadau y cyfarfu Euryr Ogwen Williams â nhw yn ystod yr adolygiad

Sefydliadau	Cynrychiolwyr
Cyngor Celfyddydau Cymru	<ul style="list-style-type: none"> Phil George (Cadeirydd)
BBC	<ul style="list-style-type: none"> Elan Closs Stephens (Aelod Cymru ar Fwrdd y BBC) Rhodri Talfan Davies Rhys Evans Sian Gwynedd
BECTU	<ul style="list-style-type: none"> David Donovan
Equity	<ul style="list-style-type: none"> Simon Curtis
ITV	<ul style="list-style-type: none"> Phil Henfrey, Geraint Evans, Huw Rossiter
MG Alba	<ul style="list-style-type: none"> Donald Campbell (Prif Swyddog Gweithredol)
Cynulliad Cenedlaethol Cymru	<ul style="list-style-type: none"> Bethan Jenkins AC (Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu) Steve George
Eisteddfod Genedlaethol Cymru	<ul style="list-style-type: none"> Elfed Roberts (Prif Swyddog Gweithredol)
Ofcom	<ul style="list-style-type: none"> Aled Eirug (Aelod Cymru ar Fwrdd Cynnwys Ofcom) Glyn Mathias (Cadeirydd Pwyllgor Cyngori Cymru) Rhodri Williams, Tom Walker
PACT	<ul style="list-style-type: none"> Wil Stephens, Rosina Robson
S4C	<ul style="list-style-type: none"> Huw Jones (Cadeirydd) Owen Evans (Prif Swyddog Gweithredol) Ian Jones (Cyn Brif Swyddog Gweithredol) Amanda Rees (Cyfarwyddwr Cynnwys Creadigol) Rhodri ap Dyfrig (Comisiynydd Cynnwys Ar-lein)
Smorgasbordstudio	<ul style="list-style-type: none"> Dylan Griffith
TAC	<ul style="list-style-type: none"> Gareth Williams Iestyn Garlick Nia Thomas
TG4	<ul style="list-style-type: none"> Padhraig O'Ciara (Cadeirydd yr Ŵyl Gyfryngau Celtaidd)
Prifysgol De Cymru – Canolfan Astudiaethau'r Cyfryngau a Diwylliant mewn Cenhedloedd Bychain	<ul style="list-style-type: none"> Professor Ruth McElroy Hywel William Dr. Helen Davies

Sefydliadau	Cynrychiolwyr
Llywodraeth Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Alun Davies AM • Bethan Webb (Dirprwy Gyfarwyddwr y Gymraeg) • Dr. Hywel Owen • Paul Kindred
Comisiynydd y Gymraeg	<ul style="list-style-type: none"> • Meri Huws • Anna Rolewska
Urdd yr Awduron – Pwyllgor Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Aelodau o'r Pwyllgor yn cynnwys: • Manon Eames • Sion Eirian • Siwan Jones • Wil Roberts • Roger Williams
Urdd Gobaith Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Aled Sion • Mai Roberts

Unigolion a sefydliadau a gyflwynodd dystiolaeth ysgrifenedig

1. Anna McMorrin AS
2. Cyngor Celfyddydau Cymru
3. Prifysgol Bangor – Dr. Alison Mawhinney a Carys Aaron, Ysgol y Gyfraith
4. BBC
5. BECTU Cymru
6. Boom Cymru
7. Prifysgol Caerdydd – Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant
8. Chwarel
9. Cwmni Tinopolis Cymru
10. Dyfodol i'r Iaith
11. Equiniti
12. Equity
13. Huw Marshall – Ymgynghorydd
14. Sefydliad Materion Cymreig
15. ITV Cymru Wales
16. Cymdeithas Ddysgedig Cymru
17. Liberty Global – Guto Harri, Rheolwr Gyfarwyddwr Cyfathrebu Allanol
18. Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen
19. Menter Brycheiniog a Maesyfed
20. Menter Iaith – Bro Dinefwr
21. Menter Iaith – Cwm Gwendraeth Elli
22. Menter Iaith – Y Fflint a Wrecsam
23. Menter Iaith – Gorllewin Sir Gâr
24. Menter Iaith – Castell Nedd a Phort Talbot
25. Menter Iaith – Casnewydd
26. Mentrau Iaith Cymru
27. Merched y Wawr
28. Mudiad Meithrin
29. Amgueddfa Cymru
30. Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

31. Llyfrgell Genedlaethol Cymru
32. NFU Cymru
33. PACT
34. Patrick Irwin
35. Paul Lewis, Yellow Ducks Productions
36. Plaid Cymru – Ben Lake AS a Dai Lloyd AC
37. Rondo Media
38. S4C – Amanda Rees, Cyfarwyddwr Cynnwys Creadigol
39. Sharp Clinical Services
40. Prifysgol Abertawe – Adran Cyfathrebu a'r Cyfryngau
41. TAC (Teledu Annibynnol Cymru)
42. Telesgop
43. Undeb yr Annibynwyr Cymraeg
44. Uned Iaith Cyngor Gwynedd
45. Coleg Prifysgol Llundain – Yr Athro. Tegid Wyn Jones, Adran Ffiseg a Seryddiaeth
46. Prifysgol De Cymru – Yr Athro Ruth McElroy, Hywel Wiliam, Dr. Christina Papagiannouli a Dr. Helen Davies, Canolfan Astudiaethau'r Cyfryngau a Diwylliant mewn Cenhedloedd Bychain
47. Urdd Gobaith Cymru
48. Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru
49. Comisiynydd y Gymraeg
50. Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
51. Wesley Clover Corporation
52. Beth Nesaf? Caerdydd
53. Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Digwyddiadau a fynychwyd

Ysgol Bodedern, Ynys Môn: Grŵp ffocws gyda phlant Blwyddyn 8 – 26 Hydref 2017
Ysgol Bro Edern, Caerdydd: Grŵp ffocws gyda phlant Blwyddyn 8 a 9 – 15 Tachwedd 2017
Noson gwylwyr S4C, Llangefni, Ynys Môn – 26 Hydref 2017
Noson gwylwyr S4C, Y Fenni – 7 Tachwedd 2017
Cynhadledd Dathlu'r Gymraeg – 9 Tachwedd 2017

Tystiolaeth arall a ystyriwyd

TRP Research – Panel Cyfryngau Cymru – 462 o siaradwyr Cymraeg ym mis Medi a mis Hydref 2017

Arolwg Cyhoeddus S4C 2016

Ymchwiliad Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i S4C: tystiolaeth lafar a thystiolaeth ysgrifenedig ac adroddiad terfynol y Pwyllgor (Tu Allan i'r Bocs: Dyfodol S4C) a gyhoeddwyd ym mis Awst 2017

29.03.2018

Adolygiad Annibynnol yr Adran Digidol Diwylliant Cyfryngau a Chwaraeon i S4C

Annwyl gyfaill

Roeddem yn falch y bore 'ma i dderbyn copi swyddogol o adroddiad ac argymhellion yr adolygiad annibynnol o S4C gan Mr Euryng Ogwen Williams. Mae modd darllen yr adroddiad [yma](#).

Rydym wedi croesawu bod yr adroddiad ac ymateb y Llywodraeth yn cefnogi yn llawn yr angen i newid cylch gorchwyl S4C yn unol ag arferion gwyllo cyfoes. Rydym hefyd wedi croesawu'r cyhoeddiad y bydd arian y Trysorlys i S4C yn aros ar y lefel bresennol am weddill cyfnod yr Adolygiad Gwariant. Golyga hyn y bydd sicrwydd gan S4C dros y blynyddoedd nesaf wrth inni wynebu'r heriau sydd o'n blaenau. Rydym hefyd yn croesawu dymuniad y Llywodraeth i sicrhau sefydlogrwydd ariannol i S4C ar gyfer y tymor hir. O ystyried partneriaeth hir a gwerthfawr S4C gyda'r BBC, mae'n anochel y bydd yr argymhelliad y dylen ni dderbyn y cyfan o'n cyllid o incwm ffi'r drwydded yn un dadleuol. Yr her fydd i sicrhau tair egwyddor allweddol, sef cyllid sefydlog, annibyniaeth S4C a darpariaeth arian digonol.

Yn gyffredinol, mae'r adolygiad yn dangos pa mor angenrheidiol i fywyd cyfoes Cymru a dyfodol yr iaith Gymraeg y mae S4C yn cael ei hystyried. Beth sy'n dod drosodd yn glir iawn yw'r dymuniad o bob cyfeiriad ar i S4C wneud mwy - mwy, o ran creu cynnwys digidol; mwy, o ran cyfrannu at gynnal a datblygu'r iaith a nifer ei siaradwyr; mwy, o ran partneriaeth effeithiol gyda chyrff eraill mewn meysydd sy'n gorgyffwrdd. Yr her, wrth gwrs, yw gwneud hynny heb dynnu oddi ar gryfder y gwasanaeth presennol.

Mae llawer o'r argymhellion yn cyd-redeg â ffrydiau gwaith mewnol sydd ar y gweill eisoes. Maent oll yn haeddu ein hystyriaeth ofalus. Fe fyddwn yn edrych ar fanylder yr adolygiad ac ymateb y Llywodraeth dros yr wythnosau nesaf cyn ymateb yn llawnach.

Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus i S4C ac yn benodol yn ystod cyfnod yr adolygiad. Os hoffech drafod yr adroddiad neu ein hymateb ni i'r argymhellion, peidiwch ag oedi cysylltu â ni neu gyda Steve Thomas, ymgynghorydd strategaeth a pholisi a Catrin Hughes Roberts, cyfarwyddwr partneriaethau, drwy glesni.parry@s4c.cymru neu 02920 741 243.

Yn gywir



Huw Jones
Cadeirydd Awdurdod S4C



Owen Evans
Prif Weithredwr S4C



Department for
Digital, Culture
Media & Sport

Ymateb y Llywodraeth i'r adolygiad annibynnol o S4C: 'Creu S4C ar gyfer y dyfodol'

29 Mawrth 2018



Ymateb y Llywodraeth i'r adolygiad annibynnol o S4C: 'Creu S4C ar gyfer y dyfodol'

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant,
y Cyfryngau a Chwaraeon
ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Mawrth 2018



©Hawlfraint y Goron **2018**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i [visit nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](http://visit.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd arnoch angen caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn enquiries@culture.gov.uk

ISBN 978-1-5286-0278-5

CCS0318286878 03/18

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffeibr a ailgylchwyd

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

Rhagair yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

S4C yw'r unig ddarledwr Cymraeg yn y byd. Wrth gyflawni'r rôl hon, a'i chyflawni'n dda, mae gan S4C werth diwylliannol a chymdeithasol unigryw, yn ogystal â chael effaith economaidd hanfodol. Mae'r llywodraeth hon wedi ymrwmo i ddyfodol darlledu Cymraeg ac rydym yn falch o gefnogi'r gwasanaeth gwerthfawr mae S4C yn ei ddarparu i gynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith yng Nghymru, yn y DU a thramor. Mae S4C yn rhan greiddiol o'n ecosystem hon ac rwyf i eisiau gweld y darledwr yn ffynnu ac yn croesawu cyfleoedd y tirlun cyfryngol newydd.

Mae hwn yn gyfnod heriol ond eto cyffrous i ddarlledu. Fel ein darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill, rhaid i S4C addasu i newid cyflym mewn technoleg a'r farchnad. Rhaid i'r darledwr gael rôl sydd wedi'i diffinio'n glir yn wyneb cystadleuaeth gref, gan ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd gyda chynnwys gwreiddiol a dosbarthu dychmygus. Ac, yn allweddol, rhaid i S4C wneud yn siŵr ei fod yn darparu gwerth am arian i'r cyhoedd sy'n ei ariannu.

Penododd fy rhagflaenydd Euryng Ogwen Williams fel cadeirydd adolygiad annibynnol o S4C. Roedd gwybodaeth fanwl Euryng am y sector darlledu, a'i ddealltwriaeth ohono, ynghyd â'i wybodaeth am yr iaith Gymraeg, ei diwylliant a'r gymdeithas, yn ei wneud yn ymgeisydd delfrydol i arwain yr adolygiad pwysig hwn, ac rwyf i'n eithriadol ddiolchgar iddo am ei waith caled a'i ymrwymiad yn llunio adolygiad cynhwysfawr.

Mae'r adolygiad hwn yn cyflawni ymrwymiad maniffesto y llywodraeth hon. Mae'n archwiliad trwyadl a threiddgar o dri mater allweddol, fel sydd wedi'i ddatgan yng nghylch gwaith yr adolygiad: cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C a'i allu i gyflawni cynnwys o ansawdd uchel; dulliau ariannu S4C; a'i strwythur llywodraethiant.

Mae'r adolygiad yn herio S4C i fod yn well ac rwyf yn gweld argymhellion yr adolygiad fel rhan ganolog o gyflawni'r amcan hwn. Mae S4C yn darparu cynnwys a gwasanaethau hynod werthfawr, o ansawdd uchel - o raglenni plant a rhaglenni dogfen i fod yn ffynhonnell ddibynadwy o newyddion yng Nghymru. Fodd bynnag, rwyf yn cytuno â chasgliad cyffredinol y Cadeirydd bod rhaid i S4C wneud mwy i addasu i'r tirlun cyfryngol sy'n newid a pharhau'n berthnasol fel darledwr gwasanaethau cyhoeddus modern ac annibynnol yn y DU.

Mae S4C yn cael llawer iawn o arian cyhoeddus - mwy nag £81 miliwn yn 2016/17 - ac rwyf yn cytuno â'r adolygiad y dylai fod yn gwneud mwy oddi mewn i'w fframwaith gyllido sefydlog gyfredol i gyflawni er budd cynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith. Ni ddylai ofni cymryd risgiau os yw darlledwyr masnachol yn anfodlon neu'n methu gwneud hynny. Bydd hyn yn galw am arweinyddiaeth a gweledigaeth strategol glir, gan weithio'n fwy effeithlon i fanteisio ar gyfleoedd arloesi digidol, a bod yn well partner wrth gefnogi'r sector, yn hytrach na chystadlu yn ei erbyn. Yn benodol, rwyf yn nodi casgliad y Cadeirydd bod S4C wedi buddsoddi llawer o'i egni ers 2010 mewn gwarchod ei safle fel sefydliad, ar draul cydweithredu. Rhaid i'r ffordd hon o feddwl newid.

Mae'r Cadeirydd yn gwbl gywir wrth ddweud y bydd yr ychydig flynyddoedd nesaf yn brawf allweddol ar S4C ac rwyf yn cydnabod bod newidiadau sylfaenol ac estynedig yn agwedd a dull strategol S4C o weithredu'n ofynnol er mwyn cyflawni'r diwygiadau hyn. Hefyd rwyf o'r un farn â'r Cadeirydd bod rhaid i S4C, yn ogystal â gweithio'n galetach i sicrhau'r referiw masnachol gorau posib, gael sefydlogrwydd a sicrwydd ariannol i ffynnu yn ystod cyfnod a fydd yn cynnwys newid cyflym.

O gofio am hyn, mae'r llywodraeth yn ymrwymo i gynnal arian Trysorlys S4C ar y lefel bresennol o £6.762 miliwn ar gyfer 2018/19 a 2019/20. Bydd hyn yn rhoi i S4C y sicrwydd ariannol mae ei angen ar gyfer y 2 flynedd nesaf, i gyflawni'r diwygiadau angenrheidiol hyn. Rwyf yn disgwyl i S4C weithredu ar unwaith i ailflaenoriaethu'r adnoddau presennol a neilltuo cyllid newydd i fwrw ymlaen â'r diwygiadau a argymhellir yn yr adolygiad hwn, yn enwedig o ran gwella ei ganghennau digidol a masnachol. Ochr yn ochr â hyn, rwyf o'r un farn â'r Cadeirydd bod cyfleoedd efallai i S4C sbarduno arbedion effeithlonrwydd yn ei fusnes ac rwyf yn disgwyl i S4C ddangos gwerth am arian. O gadw hyn mewn cof, rwyf yn cefnogi'n llawn argymhellion y Cadeirydd y dylid cryfhau trefniadau llywodraethiant ac atebolrwydd cyfredol S4C.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i S4C groesawu arloesi a chydweithredu. Edrychaf ymlaen at weld S4C yn ffynnu fel conglaen y sector darlledu a'r diwydiannau creadigol yng Nghymru.



Y Gwir Anrhydeddus Matt Hancock AS

Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

Ymateb y Llywodraeth i'r adolygiad annibynnol o S4C

Crynodeb

Mae'r adolygiad annibynnol yn cyflwyno pecyn cadarn a synhwyrol o ddiwygiadau sydd â photensial i gyflawni newid real i wneud S4C yn well sefydliad sy'n gwasanaethu cynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith yn fwy effeithiol.

Mae'r llywodraeth yn derbyn yr holl argymhellion llywodraethu a wnaed gan adolygiad annibynnol S4C. Ochr yn ochr â hyn, rydym hefyd yn disgwyl i S4C weithredu'r argymhellion a'r awgrymiadau perthnasol yn yr adolygiad hwn. Mae'r llywodraeth yn disgwyl i S4C ymateb yn gyflym ac mae wedi gofyn i S4C ddarparu cynllun gweithredu manwl erbyn mis Gorffennaf 2018 ar sut bydd yn cyflawni'r diwygiadau angenrheidiol.

O ystyried natur amrywiol y diwygiadau hyn a argymhellir, efallai y bydd S4C yn dymuno ystyried penodi ymgynghorydd arbenigol allanol neu sefydlu panel cynghori allanol tymor byr i'w cynorthwyo drwy'r cyfnod pontio hwn. Bydd hyn yn hynod werthfawr i gefnogi'r sefydliad mewn meysydd lle nad yw'r sgiliau gofynnol ar gael eisoes o bosib - er enghraifft, i sbarduno llwyddiant masnachol ac arloesi digidol. Fodd bynnag, dylai unrhyw benodiadau o'r natur hyn roi ystyriaeth ofalus i werth am arian.

Er y bydd rhai o'r argymhellion hyn yn debygol o ofyn am newid deddfwriaethol pan fydd amser seneddol yn caniatáu hynny, mae'r llywodraeth yn disgwyl i S4C weithio'n hyblyg yn y cyfamser i gyflawni'r diwygiadau hyn gymaint â phosib oddi mewn i gyfyngiadau'r fframwaith statudol presennol.

Argymhelliad 1

Dylai'r llywodraeth ddiweddarau cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C i gynnwys gwasanaethau digidol ac ar-lein a chael gwared ar y cyfyngiadau darlledu daearyddol presennol. Bydd hyn yn caniatáu S4C i ehangu ei orwelion a chynig cynnwys ar ystod eang o lwyfannau newydd yn y DU a thu hwnt.

Mae'r llywodraeth yn derbyn yr argymhelliad hwn. Sefydlwyd S4C yn 1982 pan oedd y sector darlledu'n edrych yn wahanol iawn. Mae ei gylch gwaith presennol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn adlewyrchu oes a fu ac rydym yn cytuno y dylid ei ddiweddarau i gynnwys gwasanaethau digidol ac ar-lein a chael gwared ar y cyfyngiadau daearyddol cyfredol. Rydym yn cytuno ag asesiad y Cadeirydd y dylai S4C fod yn gwneud mwy i arloesi ac ehangu ei gyrhaeddiad a'i apêl, i gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol fel darlledwr gwasanaethau cyhoeddus modern.

Bydd diweddarau'r cylch gwaith yn galluogi S4C i sicrhau bod ei gynnwys ar gael ar amrywiaeth ehangach o lwyfannau - yng Nghymru, ledled y DU a thramor. Fodd bynnag, ni ddylai S4C ddefnyddio cylch gwaith sydd wedi dyddio fel esgus i beidio â pharhau â'i ffocws ar ddarparu gwell gwasanaethau digidol ac ar-lein nawr. Mae'r llywodraeth yn glir nad yw'r cylch gwaith

gwasanaethau cyhoeddus cyfredol wedi atal S4C rhag symud i ofod ar-lein a digidol eisoes - mae ganddo bresenoldeb ar-lein a digidol cynyddol eisoes, yn enwedig ar gyfryngau cymdeithasol a Clic (gwasanaeth ar-alw S4C) ac mae ei gynnwys ar gael y tu allan i Gymru eisoes. Rydym hefyd yn cytuno ag asesiad y Cadeirydd nad yw diweddarau'r cylch gwaith yn gofyn am gynnydd yng nghyllid S4C, ond yn hytrach newid yn agwedd a dull strategol S4C o weithredu.

Mae cyflawni'r argymhelliad hwn yn debygol o fod angen newid deddfwriaethol a bydd y llywodraeth yn bwrw ymlaen â hyn pan fydd amser seneddol yn caniatáu. Fodd bynnag, rydym yn glir y dylai S4C ddechrau gweithio yn awr i roi blaenoriaeth i arloesi digidol fel ffocws strategol.

Argymhelliad 2

Dylai S4C sefydlu hyb digidol mewnol i ddatblygu a gwella ei ddylanwad digidol, yn ogystal â chreu sylfaen i glwstwr digidol yn y Gymraeg.

Mae'r llywodraeth yn croesawu'r argymhelliad hwn. Rydym yn cytuno ag asesiad y Cadeirydd ac yn nodi ei ganfyddiadau bod strategaeth ddosbarthu a marchnata digidol gyfredol S4C yn anghyson a digyfeiriad. Nid yw S4C yn gwneud digon ar hyn o bryd i addasu i farchnad ddigidol. Rydym yn cytuno y dylai'r digidol gael ei ymgorffori'n llawn ar draws y busnes ac y dylai S4C fod yn gwneud mwy fel catalydd dros gynhyrchu digidol yng Nghymru, i ychwanegu gwerth at y sector. Fel y noda'r Cadeirydd, bydd datblygu capasiti i gynhyrchu cynnwys yn fewnol yn helpu S4C i sbarduno effeithlonrwydd, gwella ei ôl troed digidol a helpu i ysgogi clwstwr ar gyfer cynhyrchwyr a datblygwyr cyfrwng Cymraeg ym mhob cwr o Gymru.

Hefyd mae'r llywodraeth yn cytuno y dylid datblygu hyb digidol gan roi ystyriaeth ofalus i'r effaith ar sector cynhyrchu annibynnol hyfyw Cymru, sydd eisoes yn cynhyrchu llawer o gynnwys llwyddiannus o ansawdd uchel. Rydym yn edrych ymlaen at gael diweddariad gan S4C ar sut bydd yn cyflawni'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 3

Dylai S4C sefydlu partneriaeth iaith gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i helpu cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'r llywodraeth yn croesawu'r argymhelliad hwn. Rydym yn cytuno bod S4C yn chwarae rhan hanfodol mewn adlewyrchu diwylliant a chymdeithas Cymru a hybu'r iaith Gymraeg. Rydym yn cydnabod bod hwn yn fater i S4C ond mae'n bwysig bod unrhyw bartneriaeth gyda Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar feysydd ble ceir cyswllt datganoli clir, fel addysg. Mae'r llywodraeth yn nodi awgrym y Cadeirydd y dylai S4C sefydlu'r bartneriaeth iaith hon erbyn diwedd 2018, ac rydym yn edrych ymlaen at dderbyn diweddariad gan S4C ar y cynnydd yn fuan.

O ran partneriaethau ehangach, mae'r llywodraeth yn cefnogi canfyddiadau'r Cadeirydd y dylai S4C fuddsoddi mwy mewn partneriaethau drwy gryfhau ei gysylltiadau presennol a chreu rhai newydd. Rydym yn cytuno bod rhaid i S4C addasu ei agwedd ddiwylliannol i gydnabod nad yw

partneriaeth o reidrwydd yn fygythiad i annibyniaeth. Dylai S4C edrych allan mwy a gwneud yn fawr o'r cyfleoedd mae cydweithredu'n gallu eu cynnig. Mae gan S4C gyfoeth o wybodaeth ac arbenigedd y dylai eu defnyddio i gefnogi eraill yn y sector. Yn gryno, rhaid i S4C fod yn well partner a cheisio cefnogi'r sector, yn hytrach na chystadlu yn ei erbyn.

Yn benodol, roedd y llywodraeth yn bryderus am ganfyddiadau'r Cadeirydd bod diffyg tryloywder ym mhrosesau comisiynu cynhyrchu S4C a'u bod yn ymddangos fel pe baent yn ffafrio cwmnïau cynhyrchu annibynnol mawr. Dylai S4C fod yn gwneud mwy i gefnogi'r sector cyfan os yw hynny'n bosib ac rydym yn disgwyl i S4C ystyried y canfyddiadau hyn a gwneud newidiadau yn ôl yr angen. Ochr yn ochr â hyn, rydym hefyd yn croesawu awgrym y Cadeirydd y dylai S4C a TAC (fel corff cynrychioliadol y sector cynhyrchu teledu yng Nghymru) gymryd camau rhagweithiol cadarn i adennill ffydd y cynhyrchwyr llai sy'n teimlo eu bod wedi cael eu gwthio i'r cyrion yn sgil dibyniaeth S4C ar y chwaraewyr mwy, ac ailsefydlu rôl TAC fel brocer effeithiol rhwng S4C a chymuned gynhyrchu Cymru. Hefyd rydym yn cytuno y dylai S4C edrych ar y ffyrdd y gall gefnogi diwydiannau creadigol Cymru yn ehangach.

Mae gan S4C bartneriaeth greadigol a strategol gref gyda'r BBC sy'n parhau i sicrhau rhaglenni o ansawdd uchel yn y Gymraeg. Dyma berthynas lesol i'r ddau ddarledwr, sy'n gallu cydweithio i sbarduno effeithlonrwydd a chydweithredu i sicrhau'r effaith orau posib. Mae'r llywodraeth yn diogelu'r berthynas hon drwy Siarter y BBC, sy'n datgan ymrwymiad clir i'r iaith Gymraeg ac yn datgan bod rhaid i'r BBC ac S4C fod ag 'amcan ar y cyd o gydweithio i barchu a diogelu annibyniaeth y ddau'.¹

Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi canfyddiadau'r Cadeirydd o ran pryderon am ddiffyg lluosogrwydd yn y cynnwys newyddion yn y Gymraeg, oherwydd mae'r cyfan yn cael ei gynhyrchu gan y BBC (a'i ddarledu ar BBC Cymru, BBC Radio Cymru neu S4C), a'r canfyddiadau am farn y gynulleidfa nad yw newyddion S4C yn ddigon gwahanol. Mae'r llywodraeth yn parchu annibyniaeth olygyddol y ddau ddarledwr ac yn gobeithio y bydd y BBC ac S4C yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r materion a godwyd yn yr adolygiad.

Er bod ei bartneriaeth â'r BBC yn hanfodol, rhaid i S4C fynd ati i gydweithredu â sefydliadau eraill sydd â'r un diddordebau. Er enghraifft, y tu allan i Gymru rydym yn credu bod cwmpas sylweddol i S4C wella ei berthnasoedd â darledwyr ieithoedd lleiafrifol eraill (fel MG Alba, y darledwr yn yr iaith Gaeleg), i rannu gwybodaeth ac arferion gorau ac edrych ar gyfleoedd ar gyfer gweithio ar y cyd.

Mae'r llywodraeth yn edrych ymlaen at ddiweddariad gan S4C ynghylch sut y bydd yn mynd ati i wella ei bartneriaeth a chydweithredu gyda diwydiannau creadigol Cymru a thu hwnt.

¹ Cytundeb Fframwaith y BBC (2017)

Argymhelliad 4

Dylai S4C gael ei ariannu'n gyfan gwbl gan ffi'r drwydded o 2022/23 ymlaen, gyda'r holl benderfyniadau ariannu yn y dyfodol yn cael eu gwneud fel rhan o'r trafodaethau am setliad ariannu ffi drwydded y BBC.

Mae'r llywodraeth yn derbyn yr argymhelliad hwn. Rydym yn cytuno â chasgliad y Cadeirydd bod y trafodaethau ar y lefelau digonol o gyllid ar gyfer S4C yn ymyrraeth ddiangen sy'n tynnu sylw oddi wrth y gwir heriau mae S4C yn eu hwynebu, a'r angen am sicrhau bod sylfaen sefydlog a thryloyw i gyllid S4C.

Mae S4C yn cael ei ariannu'n bennaf gan ffi'r drwydded, sy'n darparu sefydlogrwydd arwyddocaol o ran cyllid. Yn 2016/17, daeth 92% o arian cyhoeddus S4C o ffi'r drwydded (£74.5 miliwn) ac 8% o'r cymorth grant ychwanegol gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (£6.762 miliwn). Mae lefel cyllid ffi'r drwydded ar gyfer S4C wedi'i warantu tan 2021/22.

Mae'r llywodraeth yn cytuno y byddai darparu arian cyhoeddus S4C drwy ffi'r drwydded yn llwyr o 2022/23 ymlaen (a chael gwared ar gymorth grant ychwanegol yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon) yn rhoi mwy fyth o sefydlogrwydd a sicrwydd ariannol i S4C, gan roi iddo fwy o ryddid i wneud dewisiadau creadigol a masnachol i allu ffynnu mewn marchnad ddarledu sy'n gynyddol gystadleuol. Byddai'r diwygiad hwn yn darparu ffrwd gyllido unigol sefydlog a thryloyw a fyddai'n rhoi'r un sicrwydd ariannu i S4C â'r BBC.

Mae'r Cadeirydd yn glir nad yw'n cytuno â dadl S4C a rhai o'i gefnogwyr bod bodolaeth cyllid y llywodraeth (yn ychwanegol at gyllid ffi'r drwydded) mewn rhyw ffordd yn gwarchod annibyniaeth S4C ymhellach. Mae'r llywodraeth yn cefnogi'r asesiad hwn ac mae'n glir na fydd y diwygiad hwn yn tansilio annibyniaeth S4C mewn unrhyw ffordd. Mae Cytundeb Fframwaith y BBC yn gosod disgwyliadau pendant i'r BBC ac S4C gydweithio i barchu a diogelu annibyniaeth ei gilydd. Ochr yn ochr â hyn, mae'r cytundeb partneriaeth BBC-S4C a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn datgan y bartneriaeth strategol, greadigol a gweithredol rhwng y ddau ddarledwr i sicrhau gwerth cyhoeddus i gynulleidfaedd sy'n siarad Cymraeg am y degawd nesaf. Rydym yn credu bod y trefniadau presennol hyn yn ddigonol i sicrhau annibyniaeth y ddau ddarledwr.

Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ddyletswydd statudol i sicrhau cyllid digonol ar gyfer S4C. Rydym yn cytuno ag asesiad y Cadeirydd nad yw'r diwygiad hwn yn tansilio'r ddyletswydd hon oherwydd mae'r llywodraeth yn dal i gadw mecanwaith i weithredu ei phenderfyniad am gyllid digonol drwy gyfrwng ein trafodaethau setliad ariannu gyda'r BBC.

Cyfnod cyfredol setliad ffi'r drwydded yw 2017/18 i 2021/22 ac mae'r llywodraeth wedi cytuno ar lefel ffi'r drwydded ar gyfer y cyfnod hwn gyda'r BBC. Ni fydd y llywodraeth yn ailagor setliad ariannu cyfredol ffi'r drwydded ac ni fydd cyllid ffi'r drwydded y BBC nac S4C yn newid ar gyfer y cyfnod hwn. Bydd y llywodraeth yn adolygu cyllid ffi'r drwydded S4C ar gyfer cyfnod setliad nesaf ffi'r drwydded sy'n dechrau yn 2022/23 (ac yn dod i ben yn 2027/28). Bydd hyn yn

digwydd fel rhan o drafodaethau setliad ariannol ehangach ffi drwydded y llywodraeth gyda'r BBC, a fydd yn dechrau yn 2021 mae'n debyg. Mae'r llywodraeth wedi ymgynghori â'r BBC ac S4C ar y broses hon.

Mae'r llywodraeth yn parhau'n glir bod rhaid i S4C, fel darlledwr sy'n derbyn swm sylweddol o arian cyhoeddus, gyflawni effeithlonrwydd a dangos gwerth am arian gwell. Awdurdod S4C sy'n atebol yn y pen draw am sut mae'r sefydliad yn gwario arian cyhoeddus ac rydym yn disgwyl i'r Awdurdod allu dangos cynnydd yn y meysydd hyn.

Argymhelliad 5

Dylai'r llywodraeth ystyried diwygio'r gofynion cymeradwyo presennol i roi mwy o ryddid i S4C i fuddsoddi a chynhyrchu refeniw masnachol.

Mae'r llywodraeth yn derbyn yr argymhelliad hwn. Rydym yn nodi canfyddiadau'r Cadeirydd nad yw S4C yn gwneud defnydd llawn o gyfleoedd masnachol nac yn defnyddio refeniw masnachol i fuddsoddi yn y busnes craidd.

Mae'r llywodraeth yn cydnabod pryderon y Cadeirydd nad yw S4C yn gwneud digon ar hyn o bryd i ategu'r arian cyhoeddus sylweddol mae'n ei gael gydag incwm a gynhyrchir drwy fentrau masnachol. Er bod proses ffurfiol yn ei lle i'r llywodraeth gymeradwyo rhai gweithgareddau masnachol penodol, fel sy'n angenrheidiol ar gyfer cyrff y sector cyhoeddus, nid yw hon yn broses anarferol o feichus. Mae S4C wedi llwyddo i sicrhau cymeradwyaeth y llywodraeth i weithgareddau masnachol yn y gorffennol, ond mae wedi dewis peidio â dilyn y llwybr hwn yn rheolaidd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Fodd bynnag, byddwn yn ystyried sut gellid diwygio'r gofynion cymeradwyo cyfredol i roi mwy o ryddid i S4C i fuddsoddi a chreu refeniw masnachol. Byddwn yn gweithio gydag S4C i ystyried a yw'n ymarferol dyfeisio mecanwaith cymeradwyo adolygedig sy'n ymarferol ac yn gymesur, gan hefyd gadw lefel briodol o oruchwyliaeth ac atebolrwydd y llywodraeth. Mae'n debygol y bydd hyn yn gofyn am newid deddfwriaethol i'w roi ar waith pan fydd amser seneddol yn caniatáu.

Yn ehangach, rydym yn cytuno â chasgliad y Cadeirydd y dylai S4C fod yn gwneud mwy i ddefnyddio ei faint a'i adnoddau i edrych ar gyfleoedd masnachol ac i greu cymaint â phosib o refeniw masnachol. Byddai hyn yn cryfhau sefydlogrwydd ariannol S4C ac yn dod ag ef yn unol â darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill, fel y BBC.

Mae'r llywodraeth yn croesawu awgrym y Cadeirydd y dylai S4C edrych ar ffyrdd o ddenu mentrau masnachol i galon ei wasanaethau cyhoeddus, gyda'r strategaeth fasnachol yn cael ei sbarduno'n ganolog gan Awdurdod S4C. Rydym yn disgwyl i Awdurdod S4C gymryd yr awenau a sicrhau bod S4C Masnachol yn gweithio'n fwy effeithlon a chaletach ac yn defnyddio ei gronfa fasnachol bresennol yn effeithiol, gan sicrhau'r manteision gorau posib. Hefyd mae'r llywodraeth yn cefnogi awgrymiadau'r Cadeirydd i S4C sicrhau elw masnachol drwy ddsbarthu'n rhyngwladol, a chynhyrchu a chyllido prosiectau ar y cyd, yn enwedig cynnwys

digidol. Wrth gwrs, dylai holl weithgarwch masnachol S4C roi ystyriaeth ofalus i'r effaith ar y farchnad ac i gysondeb gweithgareddau o'r fath â'u swyddogaethau.

Mae'r llywodraeth yn disgwyl i S4C weithredu ar unwaith i roi sylw i ganfyddiadau ac argymhellion y Cadeirydd yn y maes hwn. Mae creu refeniw masnachol ystyrion i ategu arian cyhoeddus yn swyddogaeth graidd i ddarllidwr gwasanaethau cyhoeddus modern, ac rydym yn disgwyl i S4C gyflawni.

Argymhelliad 6

Dylid disodli Awdurdod S4C gyda bwrdd unedol newydd sy'n cynnwys cyfarwyddwyr gweithredol a chyfarwyddwyr anweithredol.

Mae'r llywodraeth yn derbyn yr argymhelliad hwn. Rydym yn cytuno â chasgliad y Cadeirydd nad y strwythur dwy haen presennol o Awdurdod S4C a Bwrdd Rheoli Strategol gweithredol ar wahân yw'r strwythur priodol i sbarduno cynnydd a newid. Roeddem yn dra phryderus o weld canfyddiadau'r Cadeirydd bod anghysondeb a dryswch o ran dyletswyddau perthnasol Awdurdod S4C a'r bwrdd rheoli gweithredol.

Fel mae'r Cadeirydd yn dadlau, rhaid i S4C fod yn feiddgar a chymryd risgiau i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, llwyfannau newydd a syniadau newydd. Mae hyn yn galw am weledigaeth ac arweinyddiaeth glir ac nid yw Awdurdod S4C yn gallu cyflawni hyn gyda'i strwythur presennol.

Byddwn yn newid Awdurdod S4C am fwrdd unedol newydd gyda chyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol. Bydd yn gyfrifol am roi cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C ar waith a sicrhau ei fod yn bodloni ei ddyletswyddau rheoleiddiol. Hefyd bydd yn goruchwyllo uwch benodiadau gweithredol, rheolaeth ariannol a chwynion. Rydym yn cytuno mai cyfarwyddwyr anweithredol ddylai fod yn fwyafrif aelodau'r bwrdd, i gynnig her effeithiol i'r prif weithredwr a'r tîm gweithredol. Hefyd rydym yn cytuno y dylai'r cyfarwyddwyr anweithredol hyn fod yn grŵp amrywiol gyda chymysgedd gadarn o sgiliau, profiad a chefnidiroedd amrywiol ac ategol.

Mae strwythur presennol Awdurdod S4C wedi'i ddatgan mewn deddfwriaeth² a bydd newid y strwythur yn ffurfiol yn gofyn am newid deddfwriaethol mae'n bur debyg, a byddwn yn rhoi hynny ar waith pan fydd amser seneddol yn caniatáu. Fodd bynnag, bydd y llywodraeth yn cytuno ar drefniadau interim gydag S4C i ddatblygu bwrdd unedol cysgodol i sicrhau bod Awdurdod presennol S4C yn gweithredu mor effeithiol â phosib oddi mewn i gyfyngiadau'r fframwaith statudol cyfredol. Rydym yn disgwyl i S4C roi'r bwrdd unedol cysgodol hwn ar waith erbyn mis Medi 2018.

² Adran 56 Deddf Darlledu 1990

Argymhelliad 7

Dylai'r llywodraeth ystyried a yw trefniadau archwilio ariannol presennol S4C yn addas, gan gynnwys a fyddai'n briodol penodi'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn archwilydd allanol S4C.

Mae'r llywodraeth yn derbyn yr argymhelliad hwn a bydd yn rhoi ystyriaeth fanwl i'r achos ar gyfer penodi'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol fel archwilydd allanol S4C. Mae'r llywodraeth yn parchu amcanion a barn olygyddol S4C yn llawn, ond mae S4C yn derbyn arian cyhoeddus sylweddol ac rydym yn cytuno â chasgliad y Cadeirydd y dylid cael mwy o atebolrwydd a chraffu allanol ar a yw S4C yn cyflawni ei amcanion mewn ffordd gost-effeithiol. Rydym yn nodi canfyddiadau'r Cadeirydd bod S4C wedi bod â'r un archwilwyr allanol am fwy na 35 o flynyddoedd a bod risgiau posib o fod yn rhy gyfarwydd yn y broses archwilio, sy'n gallu codi pan fydd archwilydd yn aros gyda sefydliad am amser hir.

Y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol sy'n arwain y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO), a byddai penodi'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol fel archwilydd allanol S4C yn gwella tryloywder a goruchwyliaeth seneddol. Sefydlodd y llywodraeth yr NAO fel archwilydd allanol y BBC yn Siarter newydd y BBC - byddai gwneud yr un peth i S4C yn gwneud goruchwyliaeth yr NAO o'r drwydded yn fwy cyson ac yn dod â threfniadau atebolrwydd S4C yn unol â'r BBC. Mae'r llywodraeth yn nodi y dylai penodi'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol fel archwilydd allanol S4C hefyd gynnwys rhoi'r pŵer i'r NAO i gynnal astudiaethau gwerth am arian o weithgareddau S4C.

Bydd y llywodraeth yn cyflawni gwaith pellach mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i ystyried teilyngdod penodi'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i'r rôl hon, gan gynnwys archwilio cwmplas unrhyw rôl posibl. Bydd rhoi'r argymhelliad hwn ar waith o bosib yn gofyn am newid deddfwriaethol, a byddai'r llywodraeth yn edrych ar yr opsiynau sydd ar gael i'w bwrw ymlaen pan fydd amser seneddol yn caniatáu. Yn y cyfamser, byddwn yn gweithio gydag S4C i ystyried a oes modd rhoi unrhyw drefniadau anffurfiol ar waith i sicrhau gwell atebolrwydd ariannol.

O ran trefniadau llywodraethiant ac atebolrwydd ehangach, mae'r llywodraeth yn nodi casgliad y Cadeirydd bod y trefniadau rheoleiddiol presennol ar gyfer S4C drwedd a thro yn effeithiol. Fodd bynnag, roeddem yn bryderus nad yw'r trefniadau hyn, o angenrheidrwydd, yn glir i randdeiliaid, oherwydd yn ôl pob tebyg nid oedd llawer ohonynt yn ymwybodol bod gan Ofcom gyfrifoldebau rheoleiddio dros S4C eisoes, ochr yn ochr â'r rhai sydd gan Awdurdod S4C. Mae tryloywder yn allweddol ac mae'r llywodraeth yn croesawu awgrym y Cadeirydd bod S4C yn gweithio gydag Ofcom i ystyried sut gallent wneud mwy i roi gwybod i randdeiliaid am natur eu cyfrifoldebau rheoleiddio unigol. Rydym yn edrych ymlaen at dderbyn diweddariad gan S4C ac Ofcom ar sut byddant yn gwneud hyn.

Meysydd y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad annibynnol

Datganoli

Mae'r Cadeirydd yn nodi bod lleiafrif bychan o gyfranwyr yr adolygiad wedi awgrymu y dylid datganoli'r cyfrifoldeb am S4C i Lywodraeth Cymru. Mae'r llywodraeth yn glir bod darlledu yn fater a gedwir yn ôl ac y bydd yn parhau felly, yn cael ei reoleiddio gan lywodraeth y DU. Mae darlledwyr yn gwneud cyfraniad enfawr at dirwedd economaidd a diwylliannol y DU ac mae'n briodol bod llywodraeth y DU yn parhau i fod yn gyfrifol am y sector. Mae'r llywodraeth yn cytuno ag asesiad y Cadeirydd sy'n dweud bod galw am ddatganoli'r cyfrifoldeb am S4C yn tynnu sylw oddi wrth y blaenoriaethau strategol y dylai S4C fod yn canolbwyntio arnynt.

Lefel arian cyhoeddus S4C

Mae lefel yr arian cyhoeddus i S4C y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad annibynnol hwn ac nid yw'n faes sy'n cael ei ystyried gan y Cadeirydd. Yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sydd i benderfynu a yw cyllid S4C yn ddigonol i gyflawni ei gylch gwaith. I sicrhau sefydlogrwydd i S4C, ymrwymodd y llywodraeth i rewi arian Trysorlys S4C ar y lefel bresennol nes cwblhau'r adolygiad.

Rydym yn cytuno â chasgliad y Cadeirydd nad oes raid cael arian cyhoeddus ychwanegol i ddiweddarau cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd rhaid i S4C ail neilltuo adnoddau presennol o bosib, i gwblhau diwygiadau eraill, fel datblygu hyb mewnol i gynhyrchu cynnwys digidol.

Fel gydag arian y Trysorlys, mae cyllid S4C gan y llywodraeth yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Fel rhan o'r broses adolygu flynyddol, ystyriodd y llywodraeth sefyllfa gyllido bresennol S4C ac mae wedi penderfynu cynnal arian y Trysorlys i S4C ar y lefel bresennol am weddill cyfnod yr Adolygiad Gwariant. Mae hyn yn golygu y bydd cymorth grant yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i S4C yn £6.762 miliwn y flwyddyn ar gyfer 2018/19 a 2019/20. Fel gyda holl gyllid arall y llywodraeth, penderfynir ar gymorth grant S4C ar gyfer 2020/21 a 2021/22 yn yr Adolygiad o Wariant nesaf. Ar ôl 2022, bydd holl arian cyhoeddus S4C yn dod o ffi'r drwydded, yn unol ag argymhelliad 4.

Rydym yn disgwyl i'r cyllid ychwanegol hwn gael ei neilltuo i fwrw ymlaen â'r diwygiadau yn yr adolygiad hwn. Mae'r llywodraeth yn credu y bydd y dull hwn o weithredu'n rhoi i S4C y sefydlogrwydd a'r sicrwydd ariannol y mae eu hangen ar gyfer y 2 flynedd nesaf, i gyflawni'r diwygiadau angenrheidiol hyn.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 7.1

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon